

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 310 - 60c
Chwefror 2013

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Cap i Tomos
am chwarae
Criced



Tudalen 2

Cadwyn
y
Cyfrinachau



Tudalen 12

Cwlwm
yn canu eto
yn Llanbed



Tudalen 18

Sioeau lleol yn trosglwyddo arian



Yn dilyn y Treialon Cŵn Defaid a'r Sioe Gynnyrch lwyddiannus yng Nghwmsychbant ym mis Awst llynedd, defnyddiwyd yr elw o £6,239.50 i brynu peiriant monitro a throli ECG ar gyfer Adran Gardioleg Ysbyty Glangwili. Gwnaed y cyflwyniad yn yr Ysbyty yn ddiweddar ac yn y llun mae Wynn Davies, ar ran Nancy Davies, Llywydd y Sioe, oedd yn methu â bod yn bresennol; Wendy Jenkins, Cyd-ysgrifennydd; Hefin Jenkins, Cadeirydd; Carys Davies, Trysorydd; Sian Jones, Cyd-ysgrifennydd, gydag aelodau eraill y pwyllgor a chystadleuwyr ifainc. Derbyniwyd y rhodd gan Nerys James, (ar y dde), Ffisiolegydd Cardioleg, Glangwili.



Cynhaliwyd Cinio Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog yng Nghefn Hafod, Gorsgoch, ar y 15fed o Ragfyr 2012. Mwynhawyd digonedd o fwyd blasus Eiddwen a hiwmor ffraeth y gŵr gwadd, sef Mr Deryc Rees (Erw Wen, Llangynnwr). Elusen Sioe 2012 oedd Parkinson's UK Cymru a braf oedd medru croesawu dau gynrychiolydd o gangen Castell Newydd Emlyn i'n plith i dderbyn sicc am £2,620.00. Daw £2,500 o'r swm hwn o elw Sioe 2012 a'r £120 ychwanegol gan Mr a Mrs Steffan (Bwlchmawr) Davies. Diolchwn i bawb unwaith yn rhagor am eu gwaith caled, eu cefnogaeth a'u haelioni. Yn y llun y mae (o'r chwith i'r dde): Rhian Jones (Cadeirydd), Arlene (Parkinson's UK Cymru), Cerys Lloyd (Ysgrifenyddes y Babell), Gwyneth Morgans (ar ran perchnogion cae'r sioe) a Deryc Rees (gŵr gwadd).

Cornel Chwaraeon



Tîm Dan 18 Clwb Hoci Llan, sef cyfuniad o aelodau o glybiau hoci Llanybydder a Llandysul a fu'n cystadlu mewn Twrnamaint yn Abertawe ddechrau mis Ionawr. Mae Clwb Hoci Llanybydder yn ymarfer bob nos Fercher am 6.30 ar yr Astro ger y Ganolfan Hamdden yn Llambled ac mae'r timau Dan 13, Dan 15 a Dan 18 yn ymarfer ac yn paratoi i gystadlu mewn Twrnameintiau eraill yn ystod y Gwanwyn. Dyma ddyddiadau a lleoliadau y Twrnameintiau nesaf ar gyfer y Timau Dan 13 a Dan 15 - Dydd Sul Chwefror 10fed 2013 ym Mhenfro; dydd Sul Mawrth 3ydd 2013, Twrnamaint i dimau Dan 15 yn Abertawe; dydd Sul Mawrth 10fed 2013 yn Aberdaugleddau; dydd Sul Mawrth 24ain 2013 yn Ninbych y Pysgod. Gobeithiwn hefyd gynnal Twrnamaint ym mis Ebrill yn Llambled. Mae ymarferion y Tîm Hyn hefyd bob Nos Fercher ac yn dechrau am 7.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.



Tomos Jones, Glenydd, Stryd Newydd, Llambled, a chwaraeodd i dîm criced dan 11 oed Cymru yn ystod Tymor 2012, ar achlysur derbyn ei gap swyddogol mewn cinio mawreddog yn Stadiwm Swalec, Caerdydd.

Cyflwynwyd y capiau i'r bechgyn gan gapten presennol Clwb Criced Morgannwg Mark Wallace a chwaraewr presennol Morgannwg, Alex Jones, ill dau yn gyn-aelodau carfan criced dan 11 oed Cymru, a'r siaradwr gwadd yn ystod y cinio oedd cyn chwaraewr Morgannwg a Lloegr, Robert Croft.

Mae Tomos, sy'n chwarae i Glwb Criced Bronwydd, hefyd yn aelod o garfan dan 12 oed Cymru ar gyfer tymor 2013, ac mae'n teithio'n reolaidd i'r ysgol dan do yng Nghastell Nedd a Stadiwm Swalec ar gyfer sesiynau hyfforddi.

Er yr haf gwlyb a gafwyd yn 2012, gwnaeth Tomos chwarae mewn 14 o gemau i dîm Cymru yn ystod y tymor.

Llun gan William Sykes SYKESIMAGING



Yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr fuodd Anwen Butten o Glwb Bowlio Llambled yn bowllo yn rhan o dîm Cymru yn Adelaide, Awstralia ym Mhencampwriaethau'r Byd, sydd yn cael eu cynnal pob pedair blynedd.

Ar ôl cystadlu am dair wythnos, enillodd Fedal Efydd yn cystadlu mewn tîm o bedwar. Roedd yna 22 o wledydd yn cystadlu. Yn y llun mae Anwen, Hannah Smith o Gaerfyrddin, Kathy Pearce o Berriew a Lisa Forey o Llanelli.



Aelodau Iau Clwb Rygbi Llanbed yn eu cit newydd wedi ei noddi gan Sainsbury (Anthony Austin); Gwasanaethau Adeiladu Gavin Simpson (Gavin Simpson); Garej Rhosybedw (Geraint Williams); Cyfrifyddion PJD ac Ymgynghorwyr Ariannol Cyfri (Gary Davies). Yn y llun hefyd mae'r hyfforddwyr Gavin Simpson, Mark Davies a Chris Doughty, Rheolwr y Tîm.



Chwaraewyr dan 14 oed Clwb Rygbi Llanbed yn eu Siacedi Hyfforddi newydd a roddwyd drwy haelioni Cwmni Yswiriant Eryl Jones a Carpet Corner, Llanbed. O'r chwith: Carol Davies o Gwmni Eryl Jones yn cyflwyno i Morgan Lewis a Gillian Edwards, Carpet Corner yn cyflwyno i Rhodri Edwards, Capten. Hefyd yn y llun mae'r hyfforddwyr, Huw Davies, Mark Jenkins, Dai Davies a Dai Davies.



Disgyblion Ysgol Carreg Hirfaen wedi ennill rownd derfynol cystadleuaeth pêl rwyd y cylch.

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Chwefror a Mawrth Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Phillips

Dylunydd y mis: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Alwen Edwards, Awel Teifi	421001
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Elin Thomas, 1 Teras Sycamor	480239
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach	481855
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	

Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen, Llambed	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddilyn Clonc ar: Gweplyfr - www.facebook.com/clonc a Trydar - @Cloncyn
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwidd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Amser yn hedfan

Mae Ionawr ar ei ffordd allan ac wedi bod yn fis eithaf caled. Y tywydd wedi bod yn ddrwg, ond trwy weithgaredd y Gwasanaeth Ffyrdd, ni fu llawer o amharu ar drafnidiaeth y ffordd yma. Bu angladdau ymhob pentre bron, rhai yn annisgwyl iawn ac eraill wedi cyrraedd ymhell dros oedran yr addewid. Ein cydymdeimlad â'r teuluoedd lu a gollodd anwyliad.

Defnyddiwch gyfleusterau lleol!

Archfarchnad yn dweud yn ddiweddar nad oes digon o bobol yn manteisio ar y gwasanaeth sydd ganddynt i ddod â nwyddau i'ch cartref. Y perygl yw y bydd y rhai sy'n ddibynnol ar y gwasanaeth yn ei golli. Rwy'n gwybod fod llawer yn y cylch yn defnyddio archfarchnadoedd sy'n teithio milltiroedd i ddosbarthu nwyddau yn yr ardal. Tybed a oes 'na fodd cael yr un gwasanaeth yn nes adref?

Cyfrif yr adar

A gymeroch chi ran yn y cyfrif dros ben wythnos olaf mis Ionawr? Yn ystod yr eira roedd yr ardd yn llawn adar ond wedi i'r tywydd newid, diflannodd y mwyafrif. Mae gennym ffyddloniaid sy'n ymweld yn ddyddiol; un sigl-i-gwt, un bronfraith, un robin ac un dryw – degau o adar yr eira yn dwyn y bwyd o flaen pob un arall a dwsinau o adar y to a llwyd y berth, heb anghofio'r titw tomos. Un tro, cawsom farcud coch yn dod i gasglu bwyd ond rhaid dweud fel y Sais mai 'flying visit' oedd hynny; ni ddisgynnodd yn yr ardd ond llwyddodd i gipio darn o

gig o'r lawnt.

Ysgol Fro

Tybed a ddaw ateb i broblem sefydlu Ysgol Fro ym mhlwyfi Llanwnnen a Llanwenog? Mae'n rhaid i newid ddod, ac yn naturiol, cael cydweithrediad yw'r peth pwysicaf. Cofied pawb mai'r plant sydd yn dod gyntaf.

Da iawn

Mae llawer o gyn-ddisgyblion Ysgol y Dolau wedi llwyddo yn arbennig. Clywais am lwyddiant un yn ddiweddar. Roedd mab i gyn-athrawon yr ysgol ar ei ffordd ar draws Llunden mewn taci. Sylweddolodd yn fuan fod acen Gymreig gan y gyrrwr. Wedi siarad am ysbaid daeth enw Llanybydder i'r ymgom. Meddai gyrrwr y taci "Roeddwn i mewn Ysgol Breswyl yn Llanybydder." Roedd ganddo atgofion melyn am ei gyfnod yn yr ysgol.

Mae athrawon yn hoffi ymhyfydu yn llwyddiant cyn-ddisgyblion. Mae'n hyfryd meddwl fod un o'r Dolau yn gyrru Taci ym mhrifddinas Prydain.

Pob hwyl am y tro,
CLONCYN

Os hoffech
gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr gyda'r
gwaith o gynhyrchu'r
papur hwn, croeso i
chi gysylltu ag un o'r
bwrdd busnes.

Gohebiaeth

Dreigiau Ifanc yn dechrau deor

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn awyddus bob amser i fod yn rhan o brosiectau lleol, sydd o fudd ac yn gwella'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae'r cynllun Diffoddwyr Tân Ifanc yn enghraifft dda.

Dywedodd Elaine Williams, y Swyddog Datblygu Ieuenctid sy'n cyd-drefnu'r cynllun Diffoddwyr Tân Ifanc: "Mae'r bobl ifanc sy'n ymwneud â'r cynllun yn cael cyfle i ddatblygu a dysgu wrth gael hwyl. Yr un pryd, maent yn dysgu sgiliau a fydd, yn y pen draw, yn gwella eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol". Yn ddiweddar, daeth y Diffoddwyr Tân Ifanc yn rhan o'r bartneriaeth Dreigiau Ifanc, a noddir gan EUB Tywysog Cymru ac sy'n gweithredu yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion. Mae'r bartneriaeth yn anelu at gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gyfranogi mewn gweithgareddau a fydd o fudd i'w cymunedau lleol.

Mae nifer o sefydliadau'n chwarae rhan weithgar yn y bartneriaeth, yn cynnwys y Sgowtiaid, y Geidiaid, Ambiwylans Sant Ioan, y Cadetiaid Milwrol, Cadetiaid yr Heddlu, y Diffoddwyr Tân Ifanc a Brigâd y Bechgyn a'r Merched, i enwi ond ychydig. Nod pennaaf y cydweithio hwn yw galluogi grwpiau i rannu gwybodaeth ac adnoddau a gweithio gyda'n gilydd i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr.

Mae'r Dreigiau Ifanc a'r Tîm Plismona yn y Gymdogaeth yn Llanbedr Pont Steffan wedi creu cynllun ymateb i bobl oedranus sydd o bosib angen cymorth ychwanegol gyda thasgau bob dydd, megis casglu hanfodion fel bara, llaeth a meddyginiaeth yn ystod cyfnodau o dywydd garw. Bwriad y cynllun yw rhoi cymorth i'r bobl yma ar adeg o angen, ac mae'n enghraifft wych o sut mae grwpiau cymunedol yn medru gweithio gyda'i gilydd i helpu datrys problemau lleol.

Eisiau bod yn rhan o'r cynllun?

Gellir dod o hyd i wybodaeth am y bartneriaeth Dreigiau Ifanc ar www.youngdragons.org.uk ac i gael mwy o wybodaeth am gynlluniau Diffoddwyr Tân Ifanc Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ymwelwch â www.mawwfire.gov.uk.

Diolch

Mae colofn "Ffenestr" Gerald Morgan wedi dod i ben. Diolch o galon i Gerald am ei gyfraniadau i Bapur Bro Clonc. Os hoffai unrhyw un arall gyfrannu colofn fisol, croeso i chi gysylltu ag un o swyddogion y papur.

Nid yw'r golygydd o reidrwidd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



CHWEFROR

- 11-15 a 18 Cystadleuaeth Drama C.Ff.I. Ceredigion.
- 12 Cymdeithas Cerdd Llambled yn cyflwyno 'Fabien Genthialon' am 7.30yh yn Neuadd y Celfyddydau, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.
- 12 Cyfarfod Blynnyddol Plaid Cymru Cangen Llambled yn Llety Clyd, Stryd Newydd am 7.30y.h. Croeso i bawb. Rob a Delyth 422992.
- 13 Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg, Llambled.
- 15 Disco St Ffolant yn Nhafarn Talardd, Llanllwni 4 – 6y.h. Elw tuag at Cylch Meithrin Llanllwni.
- 15 Noson Sant Ffolant Sefydliad Prydeinig y Galon Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant am 7.30y.h. Swper ysgafn. Artistiaid: Mr Clive Edwards a Lleisiau'r Werin. Tocynnau £12.50.
- 18 Côr Corisma – Ymarfer.
- 19 Pwyllgor Pentre Cwmman yn cynnal noson Bingo yn y Ganolfan Gymuned am 7.30y.h.
- 22 Côr Corisma - Cyngerdd yn Neuadd Myddfai.
- 22 Cyngerdd dathlu 70 mlwydd oed C.Ff.I Llanllwni yn Ysgol Dyffryn Teifi, Llandysul am 7.30yh. Os oes cyn aelodau â diddordeb cymryd rhan neu am docyn, cysylltwch â Meryl Davies ar 07791 305614 / 01559 384217.
- 23 Ocsiwn a Rasys Ceffylau yn Cefn Hafod, Gorsgoch am 7.30y.h, arian i fynd tuag at Ymchwil Cancr.
- 25 Côr Corisma – Ymarfer.
- 25 Cyngerdd Drama C.Ff.I Llanwenog am 7.30 y.h. yn Theatr Felinfach. Tocynnau ar gael o'r Theatr.
- 27 Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg, Llambled.

MAWRTH

- 1 Ysgol Gynradd Llanybydder yn cynnal Bingo a Chawl yng Nghlwb Rygbi Llanybydder.
- 2 a 3 Gwledd o Adloniant C.Ff.I Cymru yn Abertawe.
- 2 Cawl a Thwmpath - Cymdeithas Rien i ac Athrawon Ysgol Carreg Hirfaen yn Neuadd Sant Iago Cwmman am 6.00y.h. Tocynnau ar gael o'r ysgol. croeso i bawb.
- 5 Eisteddfod Ddawns yr Urdd Cynradd ac Uwchradd Cylch Llambled.
- 7 Eisteddfod Gynradd yr Urdd Cylch Llambled.
- 8 Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Cylch Llambled.
- 8 Dawns Dewis Swyddogion C.Ff.I. Ceredigion.
- 8 Cawl a Chân yn Neuadd yr Eglwys Maesycrugiau Llanllwni i gychwyn am 7.30y.h. Eitemau gan blant yr ysgol. £5 oedolion a £2 plant ysgol uwchradd. Elw tuag at Ysgol Eglwys Llanllwni.
- 10 Cymanfa Ganu Brenhines a Ffermwr Ifanc C.Ff.I. Ceredigion yng Nghapel Glynarthen.
- 10 Cymdeithas Cerdd Llambled yn cyflwyno Inner City Brass am 2.30yp yn Neuadd y Celfyddydau, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.
- 11 Côr Corisma – Ymarfer.
- 12 Pwyllgor Carnifal Cwmman yng Nghanolfan y Pentref 7.30yh.
- 15 Eisteddfod Uwchradd Rhanbarth yr Urdd, Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
- 18 Eisteddfod Aelwydydd Rhanbarth yr Urdd yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth.
- 18 Bingo Pasg yn Nhafarn Talardd Llanllwni am 8y.h. Gwobrau ardderchog ar gael; croeso cynnes i bawb - elw tuag at Cylch Meithrin Llanllwni.
- 20 Eisteddfod Ddawns Rhanbarth yr Urdd Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
- 20 Arwerthiant Blynnyddol Capel Aberduar, Llanybydder am 7.00y.h.
- 22 Côr Corisma a Chôr Cwmman - Gŵyl dathlu cerddoriaeth gysegredig yn Neuadd Fictoria, Llambled.
- 23 Eisteddfod Gynradd Rhanbarth yr Urdd Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
- 25 Côr Corisma – Ymarfer.

EBRILL

- 1 Taith tractorau a drefnir gan Tom Lewis, Pencader, i ddechrau o Cross Roads, Llanllwni am 10.30 y bore, am fanylion ffoniwch 01559 384279.
- 3 Eisteddfod Capel-y-Groes, Llanwnnen i ddechrau am 1:30 y.p gyda'r adran gyfyngedig
- 5 – 13 'Lap o Gymru'.

Cartref Newydd

Croeso cynnes yn ôl i'r Cwm i'r Cynghorydd Euros Davies a'i wraig, Janet, a'r merched Carys a Sioned i'w cartref newydd yn Llys y Wawr. Gobeithio y byddwch yn mwynhau pob munud yno.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Mary a John Jones, Penrheol a Theulu Blaenhirbant Uchaf ar golli modryb a hen fodryb, sef Miss Margaret Evans o Bontsian.

Hefyd, cydymdeimlir yn ddwys â Mair a Brian Potter a'r teulu, Rhoslyn ar farwolaeth mam Mair, sef Mrs Joyce Williams, gynt o Pleasant Hill, Llanwnnen.

Cydymdeimlwn hefyd yn ddwys â Mrs Megan Jones, Rhandir ar farwolaeth ei gŵr, Jack, ddydd Calan.

Cydymdeimlwn gyda chwi gyd yn eich galar a'ch colled.

Cwrdd Nadolig

Yn ôl y traddodiad, cafwyd gwasanaeth fore dydd Nadolig yng nghwmni'r Parch Wyn Thomas. Braf oedd gweld y capel yn gyfforddus iawn.

Ysgol Sul

Ddiwedd 2012 cafwyd noson yn y festri ac ymweliad gan Sion Corn a chafodd pob plentyn anrheg ganddo. Diolchodd y Parch Wyn Thomas i bawb am ddod i gefnogi'r plant.

Braf yw nodi bod Ysgol Sul Capel-y-Cwm yn ffynnu! Yn ddiweddar dechreuodd tri phlentyn newydd, sef Ela Griffiths-Jones, Jac Rees ac Elis Jenkins. Os oes unrhyw un arall am ymuno ag Ysgol Sul Capel y Cwm – croeso cynnes i chi gyd.

Cafodd y plant hefyd docyn llyfr am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul mewn cwrdd ddiwedd mis Ionawr. Mae'r arian yma'n rhodd o gronfa M.L.G. Williams.

Diolch

Dymuna Mary, John a'r teulu ym Mhenrheol ddiolch i bawb am y cardiau a'r rhoddion adeg colli modryb a hen fodryb yn ddiweddar. Gwerthfawrogi eich cyfraniadau yn fawr iawn.

Hefyd, dymuna Megan, Rhandir ddiolch yn gynnes am bob arwydd o gydymdeimlad a'r holl garedigrwydd a estynnwyd iddi yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr annwyl.

Cellan

Cydymdeimlo

Cofiw'n am bawb sydd wedi bod mewn profedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.



Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i draffod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow, Llambled.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol Llambled, Heol Tregaron, Llambled.

☎ 01570 422955

☎ 01570 422232

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmman

☎ 01570 423921

☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerau, Polion a thraciau llenwi, gwasanaeth torni allwedd i pheiniau cynysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.


3 Stryd y Bont

Llanbedr Pont Steffan

01570 423156

Cludfwyd Indiaidd

NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad a weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled

☎ 01570 422893 / 422175

Pencarreg

Calennig

Hyfryd yw gweld yr hen draddodiad o gasglu calennig yn cael ei gadw'n fyw yn ardal Pencarreg.



Y ddau gyntaf i alw ar garreg drws Dolgwm Uchaf eleni oedd Steffan a Carys Davies, Coed y Llyn, Heol y Maes a bu'r ddau yn canu'r hen rigwm:

'Blwyddyn Newydd Dda i chi
Ac i bawb sydd yn y tŷ,
Dyna yw'n dymuniad ni –
Blwyddyn Newydd Dda i chi'.
Daliwch ati i gadw'r traddodiadau
Cymreig yn fyw.
Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.



Nanon Sion o Talar Wen yn addunedu i fyw ei bywyd trwy'r Gymraeg.

Clwb Clonc

Chwefror 2013

£25 rhif 222 :

Elan ac Elis Jenkins,
Bryngolau, Alltyblaca.

£20 rhif 425 :

Mrs Glesni Thomas,
1 Heol Hathren, Cwmann.

£15 rhif 252 :

Kevin ac Elin Jones,
Cae'r Nant, Cwmann.

£10 rhif 357 :

Huw Morgan,
Rhyd-y-felin, Drefach.

£10 rhif 133 :

Mrs Nans Evans,
Dôl-hardd, Drefach.

£10 rhif 455 :

Mrs Bethan Williams,
Nanteos, Rhodfa Glynhebog,
Llanbed.



Gwasanaeth y Plant yn yr Eglwys

Noswyl Nadolig, mi'r oedd eglwys fach Pencarreg yn orlawn wrth i blant y pentref ddiddanu'r gymuned gyda chaneuon a darlleniadau. Roedd yn wasanaeth hwyliog ac roedd y plant wedi gweithio'n galed iawn dan arweiniad Lynda, Dolgwm Uchaf. Mae'r gymuned gyfan yn gobeithio'n fawr fod Lynda yn gwella ar ôl ei llawdriniaeth ddechrau Ionawr ac yn diolch am ei hamser yn helpu'r plant. Aeth Tania ati i gydlyn y parti Nadolig yn dilyn y gwasanaeth a bu Heulwen yn brysur yn cael cefnogaeth ariannol gan Dunbia, y lladd-dy lleol. Daeth Nia o Dunbia i'r gwasanaeth gyda siec am £250 i brynu pethau i blant y pentref.

Bydd y gymuned yn dechrau cyfarfodydd cyson yn 2013 i godi arian i gael parc chwarae i blant y pentref. Mae croeso i unrhyw un ddod i'r cyfarfodydd a buaswn yn gwerthfawrogi cyngor gan gymunedau eraill sydd wedi creu pethau tebyg yn eu hardaloedd. Gellid cysylltu gyda lleucu@dogfen.eu am fwy o wybodaeth.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf sydd wedi cael triniaeth ar ei phen-glin yn ddiweddar yn Ysbyty Llanelli, oddi wrth ei holl ffrindiau yn Pencarreg.

Pencarreg yn cefnogi'r Gymraeg

Aeth teulu Talar Wen lawr i 'Rali'r Cyfrif - Safiad Sir Gâr' i ddangos eu pryder am Gymraeg yn y Cyfrifiad diwethaf. Mi luniodd Nanon, sy'n 14 oed, boster ar gyfer y rali yn addunedu i fyw ei bywyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae deiseb yn mynd o gwmpas gwahanol gymunedau yn casglu llofnodion pobl sydd eisiau addunedu i fyw eu bywyd yn Gymraeg. Bydd un yn Pencarreg cyn bo hir. Mae modd llofnodi ar wefan Cymdeithas yr Iaith hefyd www.cymdeithas.org

Brynteg


Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Nans a Huw a'r teulu, Bryndolau ar farwolaeth mam a mam-gu annwyl.

Derbyn Rhodd



Derbyniodd Capel Brynteg swm anrhydeddus o arian wrth i Glesni Thomas ddathlu ei phen blwydd yn ddiweddar yn 80 oed. Yn lle anrhegion, derbyniodd arian i'w rannu rhwng Eglwys Llanllwni a Brynteg. Dymuniad Glesni oedd ein bod yn defnyddio peth o'r arian i brynu cyfarpar at wasanaeth y capel. Penderfynwyd cael darllenfa o waith Huw Evans o Lanybydder. Cyflwynwyd y gwaith wedi'r Cymun olaf ym mis Rhagfyr a chafwyd lluniaeth i bawb wedi'r oedfa. Diolchwn yn fawr i Glesni am y rhodd.



Ruby Rose

**Bwtic anrhegion
a chartref hynafol.**

23 Stryd y Bont, Llanbed
01570 422359
rubyroselampeter@hotmail.co.uk

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

**Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio**

Cymdeithas Alzheimer's
Arweinyddiaeth ymchwil
Dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud
popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

Mae angen gwirfoddolwyr arnom i
helpu gyda'r gwasanaethau lleol.
Gwirfoddolwyr i sefydlu grwp codi
arian, ymgyfeillio, a gan fod llawer o
wahanol gyfleoedd gwirfoddoli mae
yna rhywbeth i bawb

Mae 40,700 o bobl â dementia yng
Nghymru ac mae'r figwr hwn yn
debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog
Gwirfoddoli ar 01269 845953 / 07715 802632
neu e-bostio:
gillian.morgan@alzheimers.org.uk

Elusen gofrestrdd rhif 296645

Gwasanaethau Coed Teifi Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfynbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

Côr Corisma

Ar noson oer ym mis Rhagfyr, bu rhai o aelodau Côr Corisma yn canu carolau yn ardal Cwmann. Mae'n bwysig cadw'r traddodiad yn fyw a gwelwyd y balchder yn ymateb y trigolion wrth i ni ganu. Cafwyd croeso ymhobman a diolch i bawb a wnaeth gyfrannu a'n helpu i godi £135 at gasgliad Diabetes lleol ac at y Côr. Roedd hi'n braf gweld tanllwyth o dân yn y Fishers yn ein croesawu i gael pryd o fwyd a chymdeithasu ar ddiwedd y noson.

Côr Cwmann a'r cylch

Nos Fercher 9fed o Ionawr cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Festri Brondeifi gyda'r llywydd, Mr Alun Williams, Crown Stores yn y gadair. Yn ei araith soniodd fel y mae'n dal i werthfawrogi'r fraint o gael llenwi'r swydd ers pymtheg mlynedd bellach. Cafwyd adroddiad cynhwysfawr gan y cadeirydd ers 30 mlynedd, Mr Arthur Roderick. Soniodd am y fraint a'r pleser enfawr a ddeilliodd o'r gwaith yma. Rhoddodd fraslun o weithgareddau'r côr dros y blynyddoedd, yn enwedig y teithio tramor a'r wefr o sicrhau grantiau i alluogi'r côr i symud ymlaen. I orffen, dywedodd bod yr amser i ymddeol o'r swydd wedi cyrraedd. Dywedodd y byddai hyn yn ei alluogi i ganolbwyntio ar olygu a chyhoeddi llyfr i ddathlu pen-blwydd y côr yn hanner cant oed yn 2014. Diolchodd i bawb am amser hapus a dywedodd ei fod yn falch gweld bod y côr yn ffynnu.

Soniodd yr is-gadeirydd Mr Cyril Davies am uchafbwynt y flwyddyn iddo fe, sef y cyngerdd mawreddog yn Neuadd Bro Fana Ffarmers pan godwyd dros £1,600 at ddwy elusen gyda'r costau i gyd wedi eu talu gan aelodau'r côr. Bu'r côr i ffwrdd yn canu pump o weithiau yn ystod y flwyddyn, a hefyd cynhaliwyd llawer o weithgareddau yn fwy lleol. Pwysleisiodd hefyd pa mor bwysig oedd hi i ddysgu caneuon newydd yn gyson. Mawr oedd ei ganmoliaeth o Arthur am ei waith dros gyfnod hir a dywedodd y byddai'n hoffi gweld y côr yn ei anrhydeddu. Awgrymodd y byddai ei benodi yn 'Llywydd Anrhydeddus' yn ffordd i wneud hyn.

Diolchodd yr ysgrifennydd Mr Eric Williams am y cydweithio diflino gan bawb yn y côr, yn enwedig yr arweinydd a'r cyfeilydd, sef y ddwy Elonwy. Wrth derfynu, soniodd hefyd fod yr amser wedi dod iddo yntau ymddeol ar ôl bod yn ysgrifennydd am 23 o flynyddoedd. Sylwyd fod Arthur ac Eric, yr unig ddau aelod gwreiddiol, yn dymuno ymddeol o'u swyddi yr un pryd.

Cafwyd yr adroddiad ariannol boddhaol iawn gan y trysorydd Mr Dewi Davies. Diolchodd i bawb am y cydweithio a oedd wedi sicrhau hynny ac yn enwedig i Miss Elonwy Pugh am ei rhan hi yn flynyddol.

Bu rhai newidiadau i brif swyddogion y côr gyda Mr Arthur Roderick yn cael ei ethol yn llywydd anrhydeddus am oes a Mr Eric Williams yn is-lywydd am oes. Etholwyd Mr Cyril Davies yn gadeirydd, Mr Ken Lewis yn is-gadeirydd a Mr Robert Phillips yn ysgrifennydd. Roedd Mr Danny Davies yn fodlon aros yn is-ysgrifennydd ond etholwyd Mr Dan Griffiths yn ysgrifennydd cofnodion a Mr Emlyn Davies yn ysgrifennydd aelodaeth. Ni fu newid yn swyddi eraill y côr.

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol cafwyd Pwyllgor Cyffredinol gyda Mr Cyril Davies yn y gadair. Cafwyd syniadau sut i ddathlu pen-blwydd y côr yn 50 yn 2014 a soniodd y cadeirydd hefyd am y gwahoddiad gan Bwyllgor Gefeillio Tref Llanbed i deithio i Ffrainc yn ystod yr Hydref eleni yn rhan o'r dathliad 10 mlynedd ers i'r dref efeillio gyda St. Germain. Diolchodd Mr Cyril Davies am y fraint o fod yn gadeirydd ac edrychodd ymlaen at gydweithio hapus gan bawb. Bydd croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â'r côr unrhyw amser trwy ddod i'r ymarfer yn Festri Brondeifi bob Nos Fercher am 8 o'r gloch.

Ddiwedd y noson cafwyd bwffe hyfryd gan Mr Elfan James a the gan Mr Alun Jones, dau aelod ffyddlon o'r côr.

Ysgol Carreg Hirfaen

Ar ddiwedd tymor prysur dros ben daeth bwrlwm o weithgareddau Nadoligaidd i ben gyda pherfformiad arbennig o 'Annest yr Angel' a 'Pantolig' gan ddisgyblion yr ysgol. Braf oedd gweld holl ddisgyblion yr ysgol yn actio, canu a dawnsio a braf oedd gweld Neuadd yr Eglwys yn orlawn, felly diolch i chi am gefnogi.

Cyn y Nadolig buodd disgyblion y cyfnod sylfaen yn gweld pantomeim Martyn Geraint yn y Lyric, Caerfyrddin, sef Sinderela. Roedd yn berfformiad egnïol a doniol ac fe fwynhaodd pawb mas draw.

Cawsom fore llwyddiannus iawn yn ddiweddar gan ennill rownd derfynol cystadleuaeth pêl rwyd y cylch. Ar ôl ennill ein gemau yn erbyn y Dderi, Llanwnnen a Llanwenog llwyddodd y tîm ennill safle yn y rownd derfynol. Cawsom gêm glos iawn yn erbyn Ysgol Cwrtnewydd gyda Carreg Hirfaen yn fuddugol o 5 gôl i 1. Pob lwc i'r tîm a fydd yn cystadlu ar y lefel sirol ar y 1af o Chwefror.

Dydd Iau 29ain o Dachwedd aeth blynyddoedd 2,3 a 4 i chwarae tag rygbi yn Llandeilo. Roedd yn ddiwrnod oer iawn ond mwynhaodd y plant mas

draw. Llwyddodd ein tîm cyntaf i ennill pob gêm. Dysgodd y plant lawer o sgiliau a braf oedd gweld y plant yn chwarae yn rhan o dîm.

Yn ystod mis Rhagfyr ddaeth y Frigâd Dân i'r ysgol er mwyn dangos i ddisgyblion yr ysgol beth mae dynion tân yn ei wneud wrth eu gwaith bob dydd. Diolch i holl ddynion tân Llambled am ddod atom ni y bore hwnnw.

Estynnwyd ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Aled Evans y prifathro, a'r teulu i gyd ar farwolaeth ei annwyl dad, Mr Gwilym Evans, ac hefyd i Mrs Elin Jones a'i theulu ar golli mam-gu arbennig, sef Mrs Gwyneth Jenkins yn ddiweddar.

Mae pwyllgor Rhieni ac Athrawon yr ysgol yn cynnal noson o gawl a thwmpath ar yr 2ail o Fawrth 2012 yn Neuadd Sant Iago Cwmann. Mwy o fanylion i ddilyn ac mae croeso cynnes i bawb.

Cynhelir Eisteddfod yr ysgol eleni ar ddydd Gwener, 1af o Fawrth yn Neuadd Bro Fana Ffarmers. Bydd yr Eisteddfod yn dechrau am 9.30y.b. Croeso cynnes i rieni a ffrindiau'r ysgol.

Clwb Ffermwyr Ifanc Cwmann

A ninnau hanner ffordd drwy ein blwyddyn fel clwb, yr ydym wedi bod yn brysur iawn. Dyma ychydig eiriau i adrodd ein hanes ers mis Medi.

Dechreuwyd y flwyddyn yn naws dathliadau'r haf gyda noson gemau Olympaidd i groesawu aelodau newydd i'r clwb ynghyd â chroesawu sawl wyneb cyfarwydd yn ôl ar ôl cyfnod i ffwrdd yn y brifysgol. Cynhaliwyd noson yn ogystal lawr yn Paddlers, Llandysul wrth i aelodau dewr y clwb gerdded yn yr afon.

Mis prysur iawn oedd i ddilyn gyda'r Eisteddfod. Llongyfarchiadau mawr iawn i bawb a fu'n cystadlu a chynrychioli'r clwb mewn amrywiol gystadlaethau. Llongyfarchiadau i'r aelodau ifanc hefyd a fu'n cynrychioli'r clwb yng nghystadlaethau noson chwaraeon y sir. Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch y clwb hefyd yng nghapel Caersalem, Parc-y-Rhos. Diolch i bawb am eu cefnogaeth; codwyd £286 ar gyfer Cystic Fibrosis.

Mis i'n milltir sgwâr oedd mis Tachwedd, gyda hwyl y cwis pwyllgorau lleol, noson y llywydd yn LAS, ymweliad â chwmni Tristar a sesiwn plethu rhaff yng nghwmni Ieuan James. Braf hefyd oedd gweld bwrdd o Gwmann yng nghinio Cadeirydd y Sir yng Ngholeg Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Llambled.

Bu mis Rhagfyr yn brysur iawn gyda Cwmann yn cael llwyddiant yng nghwis y Sir, gan ddod yn ail drwy'r sir a'u dewis i gynrychioli'r sir yng nghwis Cymru a fydd yn cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni. Llongyfarchiadau i'r tîm sef Tomos Jones, Aled Bowen, Aled Jones ac Elen Powell. Cynhaliwyd dwy noson i godi arian ddechrau'r mis, sef noson bingo'r clwb a noson garolau. Diolch i bawb am eu cefnogaeth; codwyd £210 yn y noson bingo a £280 drwy ganu carolau ar gyfer y British Heart Foundation. Bu chwerthin mawr hefyd yng nghwmni Nicky Davies gyda phawb yn rhoi tro ar addurno cacenni siocled. Rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd cynhaliwyd parti Nadolig y Clwb yn y Cottage Inn, Llandeilo. Chwip o noson i gloi hanner blwyddyn penigamp i'r clwb.

Yr ydym bellach wedi ail ddechrau ers ychydig wythnosau ac wedi cael sawl cyfarfod bywiog. Diolch i Terry Jones am godi ein hymwybyddiaeth am ddiogelwch tân ac i Sian Elin am rannu ei phrofiadau pan yn ymweld â'r Wladfa. Noson hynod ddiddorol.

Dim ond gair bach felly i ddymuno pob hwyl i aelodau'r clwb yng nghystadleuaeth ddrama y sir mis nesaf.

Llongyfarchiadau gwresog i Louise a Dylan ar enedigaeth ei merch Betsan Grug.

Sefydliad y Merched Coedmor

Cyfarfod Mis Rhagfyr 2012

Croesawodd ein Llywydd Ann Lewis bawb i'r Hedyn Mwstard ar nos Lun Rhagfyr 3ydd.

Yr oedd Liz Jones a dau o'r staff, Naomi a Kiernan, wedi bod yn brysur yn paratoi at y noson a chafwyd chwech arddangosfa ddiddorol ganddi yn ymwneud â'r Nadolig.

Wedyn cafwyd bwffe blasus iawn a digon o ddewis o bwdinau ar ei ôl. Diolchwyd i Liz gan Gwyneth Morgan am noson fendigedig.

Ddiwedd y noson cafwyd trafodaeth byr am fusnes y Sefydliad.

Enillwyd y raffl gan Irene Price.

Cyfarfod Mis Ionawr 2013

Croesawodd Morfudd Slaymaker, y Llywydd, bawb i noson chwarae dominos gyda'r elw yn mynd at achosion da yn lleol. Daeth nifer dda ynghyd i gefnogi'r noson a chafwyd tipyn o hwyl a sbri.

Yr enillwyr oedd 1af-Dilwen Roderick; 2ail-Eiddig Jones; 3ydd-Noeleen Davies; Gwobr yr olaf - Hefin Price.

Enillwyr y raffl oedd 1 Glesni Thomas; 2 Ray Harries; 3 Tomos Jones; 4 Helena Gregson; 5 Dilwen Roderick; 6 Morgan Lewis; 7 Betty Griffiths.

Cwmann

Diolchodd Morfudd i Ann, Gwyneth a Glesni am drefnu'r noson. Bu cyfarfod byr a chydymdeimlwyd ag Avril ar golli ei chwaer yng nghyfraith ac Ann sydd wedi colli ei brawd yng nghyfraith.

Diolch

Dymuna Sian Jones, Bryndolau a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt wedi marwolaeth sydyn Gary yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Babi newydd

Llongyfarchiadau i Gwyn a Bethan Lewis Heol Hathren ar enedigaeth wyres fach, Betsan Grug, merch Louise a Dylan.

Graddio

Llongyfarchiadau i Dylan Davies, Encil, Cysgod y Coed ar ennill Diploma mewn Technoleg Chwarel ar ôl astudio ym Mhrifysgol Derby am dair blynedd.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r teuluoedd canlynol yn eu profedigaethau ar ôl colli anwyliad agos dros y ddau fis diwethaf :-

Teulu Nant y Glyn, hefyd Roy, Meirion, Ann a'u teuluoedd; Teulu Y Glyn; Y Fedw; Rhiwlas; Bryndolau; Tanlan a Theulu Bronwydd; 1 Heol Hathren; Glynceri; Teulu Brynderw Parcyrhos; Coedmore Hall; Hafod y Gân a Pengelli, Parcyrhos.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Kevin Douch a Siân Thomas, 2 Treherbert sydd wedi dyweddïo – pob dymuniad da i chwi eich dau.

Pwyllgor Pentref Cwmann – Clwb 225 - Rhagfyr 2012

1. Cerdin Price, Langwm, Heol y Bryn, Llambled, 41; 2. Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann, 110; 3. Meinir a Dyfed Evans, Station Terrace, Llambled, 97; 4. Mrs Eluned Evans, 16 Treherbert, Cwmann, 82; 5. Eifion Davies, Four Winds, Cwmann, 35; 6. Tommy Price, Geilliwrol, Cwmann, 25; 7. Tracey Edwards, Glyn View, Cwmann, 206; 8. Alan Morgans, Rhydowen, Cwmann, 136; 9. John Lloyd, Pyllaucrynion, Cwmann, 135; 10. Ryan a Gabriel Davies, Delfan, Cwmann, 107.

Clwb 225 - Ionawr 2013

1. Cassie ac Ellie Gregson, Werna, Cwmann, 134; 2. Fiona Jones, Llysteify, Cwmann, 121; 3. Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann, 163; 4. Hugh a Wendy Edwards, 11 Nant y Glyn, Cwmann, 36; 5. Sian Jones, Bryndolau, Cwmann, 16; 6. Tom James, Caeralaw, Heol y Fedw, Cwmann, 34; 7. Rhonwen Thomas,

Pantygwin, Cellan, 139; 8. Sean a Cathy Griffiths, Brynyreglwys, 37; 9. Danny Davies, Brynteify, Cwmann, 55; 10. Lisa Meldon, Gannets, Aberystwyth, 32.

Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Alun Jones, Glanrhyd, Parcyrhos yn dilyn ei lawdriniaeth.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Mrs Adeline Williams, Bryneiddig ei phen-blwydd yn 90oed ddydd Calan. Rwy'n siŵr i chwi fwynhau y diwrnod a gwerthfawrogi ymweliad gan y rhai a ddaeth i'ch gweld.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago Cwmann – Rhagfyr 2012

1. Mrs Ceinwen Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 30; 2. Mrs Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 68; 3. Mrs Yvonne Davies, Cwmbwrwyn, Pencader, 123; 4. Mrs Heledd Jones, Penrhos, Cwmann, 104; 5. Gavin a Rebecca Evans, Annwylfan, Llanllwni, 73; 6. David Herbert, Dolfor, Cwmann, 84; 7. Edwin Evans, Brynderw, Cwmann, 04; 8. Dafydd Davies, Ger y Nant, Drefach, 24; 9. Hal-Eli, Cysgod y Coed, Cwmann, 78

Clwb 125 Neuadd Sant Iago Cwmann Ionawr 2013

1. Mrs I S E Shaw, Bryngwyn, Gorsgoch, 34; 2. Vaughan Abel, Neuadd Deg, Cwmann, 109; 3. Mrs Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 68; 4. Mrs Sheila Lewis, Brynawel, Cwmann, 62; 5. Mrs Elizabeth Warmington, Falkland, Heol y Bryn, Llambled, 85; 6. Mrs Ceinwen Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 28; 7. Canon Wynzie Richards, Maesteify, Cwmann, 143; 8. Carol Doughty, Carys, Cwmann, 15; 9. Mrs M Evans, Bronallt, Cwmann, 55.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Elan Jones, Araul am basio 'Step 2' ar y piano gydag anrhydedd yn ddiweddar. Cafodd hi farciau llawn yn y theori. Da iawn ti.

Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.

Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?

Hoffech chi weinyddu'r wefan? Neu beth am waith dylunio?

Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant.

Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes er mwyn cynnig eich gwasanaeth os gwelwch yn dda.

Cwrtnewydd

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Mrs Bessie Williams, Clyncoch a Mrs Ray Evans, Brynhogfaen sydd wedi bod yn anhwylyd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Nel Price, Castle Green a'r teulu ar golli brawd yng nghyfraith, sef Llew Thomas o Aberystwyth. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Capel y Bryn.

Ysgol Cwrtnewydd

Ddechrau'r mis roedd yna gystadleuaeth pêl rwyd yng Nghanolfan Hamdden Llambled. Cystadleuaeth gyda'r Urdd oedd hon ac roedd pob ysgol yng nghylch Llambled yn cystadlu. Cyrhaeddodd y rownd derfynol ac ennill yr ail safle. Cawsom dipyn o hwyl ac roedden ni'n hapus iawn â'r canlyniad! (Adroddiad gan Catrin Schröder, Hanna Davies a Lisa Jenkins).

Croeso cynnes i Miss Kelly Jacobs i ysgol Cwrtnewydd fel myfyrwraig. Mae hi'n astudio yng Ngholeg y Drindod a bellach ar Ymarfer Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Gobeithio y byddwch chi'n hapus gyda ni. (Adroddiad gan Nia, Lleucu, Skye).

Mae'r pedwar pwnc yn digwydd bob yn ail ddydd Mawrth ond bellach mae'r trefniadau wedi newid. Nid tri phwnc fydd 'na o hyn ymlaen, ond pedwar pwnc. Mae celf wedi dod yn bwnc ychwanegol yn y cynllun tair ysgol ac mae Mrs Eirlys Jones, athrawes Cyfnod Sylfaen Ysgol Llanwenog yn ein dysgu ni yn Ysgol Cwrtnewydd. (Adroddiad gan Owen, Owain, Nathaniel ac Arwel).

Ddydd Llun, 21ain o Ionawr fe ddaeth Gerry Taylor o

'Cadw Cymru'n Dacrus' i'n dysgu am fforestydd glaw. Fe wnaeth gynnal gwasanaeth i holl blant yr ysgol. Yna ar ôl y gwasanaeth fe ofynnodd i flwyddyn pump a chwech aros yn y dosbarth am drafodaeth.. Fe ddangosodd bwynt pŵer i ni am ddigwyddiadau yn y

fforestydd glaw. Yna gofynnodd i ni feddwl am syniadau i godi arian er mwyn achub fforestydd glaw ar hyd a lled y byd. (Adroddiad gan Beca Jenkins a Jenna Wilson)

Oherwydd yr eira, roedden ni wedi cael diwrnod bant o'r ysgol. Hwre! Ar ôl dychwelyd i'r ysgol roedd ein lwc ni i mewn eto oherwydd aeth holl blant yr ysgol adre oherwydd y tywydd garw. Pan agorodd yr ysgol eto doedd dim hawl i'r plant chwarae tu allan ond cawsom syrpreis un amser cinio pan roddwyd caniatâd i ni fynd allan i chwarae yn yr eira. Penderfynwyd cael cystadleuaeth adeiladu dyn eira gyda Mrs Wendy Davies a Mrs Hanna Thomas yn beirniadu.

Cyfartal oedd y canlyniad ac roedd e'n llawer o hwyl. (Adroddiad gan Maddy Smith, Leah Kersey a Alaw Jones).

Hoffem groesawu Cylch Meithrin Drefach yn ôl i'n plith ar ôl y gwyliau. Mae'r cylch yn defnyddio'r neuadd ac ardal allanol yr ysgol bob pythefnos. (Adroddiad gan Danny a Carwyn).

Eleni eto, penderfynon ni gystadlu yng Nghystadleuaeth Ceginio'r Urdd sef 'Cogurdd'. Cystadleuaeth yw hon i blant Cynradd. Cafodd y rownd gyntaf ei chynnal yn yr ysgol. Bu tri ar ddeg o blant wrthi'n brysur yn Neuadd yr ysgol. Buon ni'n coginio salad pasta o dan y teitl 'Machlud haul'. Elin Davies oedd yr enillydd a Beca Jenkins yn ail. Ymlaen yn awr i rownd dau cylch Llambled. Diolch i Miss Sirian Davies am drefnu'r cyfan a'n harwain ni, ac i Miss Jo am feirniadu'r gystadleuaeth. (Adroddiad gan Elin Davies, Lois Jones a Caitlin Gibbons).



“Y gwyliau rydych wedi’u gohirio ers blynnyddoedd”
Peidiwch ag oedi rhagor!

Patagonia :::: Gwlad y Cewri

**Pobl - Tir - Iaith - Hanes - Traddodiad -
Dathlu - Difyrwch**

Y trefnwyr mwyaf profiadol - yr unig rai sydd â'u gwreiddiau yn ddwfn yn y Wladfa.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Elvey MacDonald,
Haulfan, Maes Carrog, Llanrhystud, Ceredigion. SY23 5AL
01974 202052 e-bost: elveymac1@btinternet.com

C.FF.I SIR GÂR

Bu rhai o aelodau C.Ff.I Sir Gâr yn ddigon ffodus i ennill Ysgoloriaethau Teithio Tramor gyda C.Ff.I Cymru. Cafodd yr aelodau canlynol eu dewis i fynd dramor yn dilyn cyfweiliadau yn Llanellwedd: GWOBR GOFFA ELWYN JONES – Iestyn Russell, C.Ff.I Cwmann

Mae'r rhaglen ryngwladol yn rhan bwysig o waith y Mudiad ac mae'n ceisio annog aelodau i ddod i ddeall diwylliannau a thraddodiadau eraill, yn ogystal â rhoi'r cyfle iddyn nhw deithio i wledydd gwahanol a phrofi gweithgareddau newydd. Mae'r rhaglen ryngwladol hefyd yn gofyn i glybiau C.Ff.I yng Nghymru a'u haelodau gynnig croeso i aelodau o Fudiadau tebyg o wledydd tramor dros yr haf.

Yn dilyn Cyfarfod Blynnyddol C.Ff.I Sir Gâr eleni, cafodd Arwel Jones ei ethol yn Gadeirydd y Sir am 2012-13 ac Elin Davies yn Is-gadeirydd.

Mae Arwel Jones, mab Meirion a Linda Jones, yn byw ar Fferm Pantyrefail, Llanfynydd ac yn gyn-aelod C.Ff.I Llandeilo ac yn parhau yn gefnogol i'r clwb. Mae hefyd yn gyn-Gadeirydd Gweithgareddau ac ef oedd Aelod Hŷn y Flwyddyn yn 2011-12.

Elin Davies, merch Alan a Stella Jones, yw Is-Gadeirydd C.Ff.I Sir Gâr am y flwyddyn sydd i ddod. Mae Elin yn gyn-aelod ffyddlon C.Ff.I Capel Iwan. Mae'n gyn ddirprwy Lys-genhades y Mudiad yn sirol ac yn gyn-Gadeirydd Gweithgareddau.

Yn ystod y cyfarfod blynnyddol cyhoeddwyd Clwb Llangadog yn enillwyr Cwpan John a Hazel James am y Clwb â'r pwyntiau uchaf yng nghystadlaethau'r Sir yn 2011-12.

C.Ff.I Llanfynydd oedd yn derbyn Cwpan Coffa Elfyn Richards am y clwb â'r pwyntiau uchaf yn y cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymraeg a Saesneg yn 2011-12.

Bu tîm yn cynrychioli Sir Gâr yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd ddiwedd mis Tachwedd. Menna Williams, C.Ff.I Llanfynydd ac Aled Jones, C.Ff.I Dyffryn Cothi, aelodau iau a hŷn y Sir, fu'n cystadlu yn y gystadleuaeth Addurno Coeden Nadolig C.Ff.I. Daeth Dafydd Lewis, C.Ff.I Dyffryn Cothi yn ail yn y gystadleuaeth paratoi oen. Anwen Jones, C.Ff.I Llandeilo, Eirwyn Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi, ac Anwen Jones ac Ifor Jones, C.Ff.I Llanllwni oedd y pedwar a fu'n cynrychioli'r Sir yn y gystadleuaeth Barnu Gwartheg Cigyddion. Daeth Anwen Jones (Llanllwni) yn 3ydd yn yr adran 16 ac iau. Dafydd Lewis a Eirwyn Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi, Jordan Davies, C.Ff.I Llanelli a Menna Williams, C.Ff.I Llanfynydd oedd y pedwar yn nhîm y Barnu

Carcas Wyn. Daeth y tîm yn 3ydd yn y gystadleuaeth gyda Dafydd Lewis yn 2il fel unigolyn dan 26.

Cynhaliwyd Cwis Blynnyddol y Sir yng Nghlwb Rygbi'r Cwins ar Rhagfyr 5ed. Mae'r Sir yn ddiolchgar iawn i'n Cwis-feistri eleni, sef Mr Owen Davies a Mr Aled Davies. Llongyfarchiadau i G.Ff.I Llangadog am ennill y cwis, C.Ff.I Cwmann am ddod yn ail, ac i G.Ff.I San Pedr am ddod yn 3ydd.

Ar Ragfyr 9fed, cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau'r Cadeirydd Sir yng Nghapel Annibynwyr Capel Isaac. Hoffai'r Sir ddiolch i aelodau'r capel am adael i ni gynnal y gwasanaeth yno ac i wragedd y capel am baratoi gwledd o fwyd ar ein cyfer ar ôl y gwasanaeth. Hoffwn hefyd ddiolch i bawb a wnaeth gymryd rhan ac i Elin Bishop am gyfeilio yn ystod y gwasanaeth.

Diolch hefyd i Mrs Heulwen Jones, o Fanc Barclays am ei nawdd £ am £ ar gyfer yr arian a godwyd ar y noson. Codwyd swm sylweddol ac fe fydd yr arian yn mynd at British Heart Foundation Cymru (Apêl Does Dim Amser i Aros) a C.Ff.I Sir Gâr.

C.FF.I. CEREDIGION

Blwyddyn newydd dda i chi gyd! Gobeithio eich bod wedi mwynhau dros y Nadolig ac, wrth gwrs, yn yr eira. Ar y 9fed o Ragfyr cynhaliwyd y gystadleuaeth siarad cyhoeddus Saesneg ar gampws Felin-fach. Diolch i NFU Ceredigion am noddi'r diwrnod. Gwnaeth mwy o glybiau gystadlu eleni, ac unwaith eto roedd y safon yn uchel iawn. Pontsian gipiodd cwpan her Emrys Jones drwy ennill ar draws yr holl gystadlu gyda Llanwenog yn 2il a Llangeitho yn 3ydd. Beirniad yr adran dan 14 oedd Mrs Pauline Goddard, Llanddewi Brefi. Y canlyniadau oedd: Cadeirydd – 1af Rhys Davies, Llanwenog B; cydradd 2il Gwion Morgan, Penparc a Dylan James, Pontsian. Darlennydd – 1af Glesni Thomas, Pontsian; 2il Rhys Davies, Llanwenog; 3ydd Gwion Morgan, Penparc; Tîm – 1af Pontsian; 2il Llanwenog B; 3ydd Penparc.

Beirniad yr 8 tîm o dan 16 oedd Mrs Helen Davies, Pont Senni a'i dyfarniad hi oedd Cadeirydd – 1af Meleri Morgan, Llangeitho; 2il Gwawr Hatcher, Llanwenog A; cydradd 3ydd Elinor Jones, Llangeitho B; Ffion Roberts, Mydroilyn a Wyn Davies, Llanwenog B; Siaradwr – 1af Sioned Fflur Evans, Llanwenog C; cydradd 2il Lauren Jones, Llanwenog A a Marged Jones, Mydroilyn; Diolchydd – 1af Rhys Davies, Llanwenog B; 2il Sophie Jones, Llanwenog A; 3ydd Meleri Davies, Llanwenog C; Tîm – 1af Llanwenog A; cydradd 2il Llanwenog C a Mydroilyn.

Cyng. Rosemarie Harris, Aberhonddu oedd y beirniad o dan 21 a dyma'r canlyniadau:

Cadeirydd – 1af Sioned Fflur Evans, Llanwenog B; 2il Lisa Jones, Pontsian; 3ydd Meira Lloyd, Llangeitho; Siaradwr – 1af Harri Davies, Mydroilyn; 2il Dafydd Morgan, Pontsian; 3ydd Meirian Morgan, Llangeitho; Tîm – 1af Pontsian; 2il Mydroilyn a chydadd 3ydd Llangeitho a Llanwenog B.

O dan 26, Dr. Beth Howells, Sir Benfro oedd â'r dasg o feirniadu, a dyma fel y gosodwyd y timau:

Cadeirydd – 1af Luned Mair, Llanwenog A; 2il Einir Ryder, Pontsian A; 3ydd Elin Haf Jones, Llanwenog C; Siaradwr – 1af Gethin Richards, Pontsian A; 2il Enfys Hatcher, Llanwenog A; 3ydd Llŷr Jones, Pontsian B; Tîm – 1af Pontsian A; 2il Llanwenog A; 3ydd Llanwenog C. Bydd yr enillwyr yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir yn Llanellwedd ar y 23ain o Fawrth, felly pob lwc iddynt. Yn anffodus, gorfu i ni ohirio'r gystadleuaeth Gymraeg ddechrau mis Ionawr oherwydd yr eira. Gobeithio y bydd yn cael ei chynnal yn awr ddiwedd mis Chwefror. Cynhaliwyd Dawns y Frenhines a'r Ffermwr Ifanc yn Aberystwyth ar y 27ain o Ragfyr. Cafwyd noson lwyddiannus iawn gyda'r aelodau yn mwynhau gwisgo yn eu 'gladrags' a dawnsio gyda chyfeillion o'r siroedd cyfagos. Mae 15 o glybiau'r sir yn awr yn paratoi ar gyfer y gystadleuaeth ddrama a fydd yn cael ei chynnal yn ystod wythnos 11-15 o Chwefror. Bydd Cymanfa'r Frenhines a'r Ffermwr Ifanc yn cael ei chynnal yng Nghapel Glynarthen ar y 10fed o Fawrth am 7.30pm gyda mynediad drwy rhaglen £4. Croeso cynnes i bawb, felly cysylltwch gyda swyddog neu aelod o'r CFFI am raglen.

Pentrebach

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Mrs Mary Davies, Awel Teifi ben-blwydd arbennig ddydd Nadolig. Gobeithio eich bod wedi cael diwrnod wrth eich bodd.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Eric Jones, Pant-teg, Pentrebach a'r teulu ar farwolaeth ei chwaer ac â Malcolm Davies, Glanyrafon a'r teulu ar golli ei fodryb, sef Mrs Hannah Price o Aberteifi.

Llongyfarchiadau

Daeth anrhydedd i ran Twynog Davies, Frondolau yn ddiweddar pan gafodd ei wneud yn Gymrawd i Gymdeithas y Sioe Frenhinol.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriol a Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Heol Caerfyrddin
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn,
Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambed

01570 422895

Taith Patagonia

Hydref diwethaf mi fues i'n ddigon ffodus i fynd ar daith i Batagonia. Taith ynghlwm â'r Urdd, Menter Caerdydd a Menter Patagonia oedd hon. Ar ôl oriau maith o deithio, o Bencarreg i Heathrow, Heathrow i Rufain ac yna o Rufain i Beunos Aires fe gyrhaeddodd ni bentre'r Gaiman. Roedd yna 22 ohonon ni bobl ifanc ar y daith, a thri arweinydd i gadw trefn arnon ni. Roedd y Gymraeg yn gryf iawn yn y Gaiman; roedd ysgol feithrin yno, Ysgol Yr Hendre ac ysgol uwchradd, sef Coleg Camwy. Roedd yr ysgolion yma yn dysgu'r Gymraeg a nifer o'r plant yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Roedden ni wir yn mwynhau clywed pawb yn siarad Cymraeg gyda acen Sbaeneg.

Mi fuon ni'n ddigon ffodus i brofi'r eisteddfod allan ym Mhatagonia. Roedd yn debyg iawn i'r Eisteddfod yng Nghymru heblaw am y maes. Roedd cystadlu brwd a graenus yn yr eisteddfod, a buon ni'n ddigon ffodus fel criw i ennill cystadleuaeth y côr gan ganu un o hen ffefrynnau Dafydd Iwan, Cofio dy wyneb. Mi fues hefyd yn rhan o gân actol aelwyd yr Andes ac roedd hynny wir yn hwyl a sbri. Yn y dyddiau nesaf buom yn ymweld â Choleg Camwy a bod yn athrawon cyflenwi am y dydd. Mi roedd hi wir yn fraint gallu dysgu Cymraeg i'r disgyblion a phrofi bod y Gymraeg yn dal yn fyw ymysg y bobl ifanc allan ym Mhatagonia. Gyda nhw mi gawsom gyfle i gwrdd â Luned Gonzalez a ddisgrifir yn aml fel



'mam y Wladfa' ac â'r cerddor a'r cyfansoddwr poblogaidd, Hector Mc Donald. Ych chi'n gwybod taw Hector Mc Donald a gyfansoddodd ganeuon Sioe Gerdd Eisteddfod Yr Urdd Llambled yn 1999, Syrffio ar y Sgwâr?

Cymanfa Ganu'r Eisteddfod oedd nesa ar y rhestr ac wrth gwrs roedd rhaid canu emynau cyfarwydd Cymreig. Ar ôl y Gymanfa roedd yn bryd am ein asado cyntaf, lle maent yn torri buwch yn ei hanner a'i rhostio'n gyfan. Blasus tu hwnt.

Cyn croesi'r paith i'r Andes a Threvelin buom yn ysgol gynradd yr Hendre lle buom yn chwarae gyda'r plant. Roedd hi'n anodd gadael yr



ysgol ar ôl yr holl groeso oedd yno. Y noson honno buom ar fws moethus dros ben a'r seddau fel gwelyau, ac fe gyrhaeddodd ochr draw'r paith. Ymweld â teulu'r Greens a wnaethom nesaf. Roedd y Greens yn deulu poblogaidd iawn yn yr Andes ac yno ar eu fferm nhw cawsom ein ail asado. Buom yn chwarae pêl-droed gyda ieuenctid yr ardal, gan unwaith eto helpu'r bobl ifanc i siarad ein hiaith ni.

Un o'r gweithgareddau gorau ar y daith oedd pan aethon ni yn ninas gyfagos, Esquel, i Ysgol Gymraeg Yr Andes i chwarae gêm gyda'r disgyblion. Mae Menter Patagonia yn gwneud gwaith arbennig er mwyn cadw'r iaith yn fyw yno, Lois ar ochr y Gaiman a Iwan ar ochr yr Andes. Mae trigolion yr Andes a'r Gaiman yn meddwl y byd o'r ddau ohonyn nhw ac yn gwerthfawrogi eu hymdrech i hyrwyddo'r Gymraeg.

Yn wir, gall geiriau ddim ddisgrifio'r holl brofiadau gwyh a gefais ym Mhatagonia. Roedd y croeso mor anhygoel a'r iaith hyd yn oed yn fwy prydferth nag yma wrth ei chlywed ochr arall y byd. Dwi wedi gwneud ffrindiau am oes, yng Nghymru ac allan ym Mhatagonia. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu tuag at y swm oedd yn rhaid i fi ei godi. A diolch i'r Urdd am y profiad anhygoel yma. Mi fyddwn yn annog unrhyw un i fynd allan i'r Wladfa; mae'n brofiad bythgofiadwy. 'O bydded i'r heniaith barhau'.

gan Sian Elin Williams



Gohebiaeth

Cymdeithas Hanes Blaenpennal
Annwyl Olygydd

Mae Cymdeithas Hanes Blaenpennal yn lansio cyfrol ddwyieithog am hanes ardal y Mynydd Bach, Ceredigion (sef rhannau o bentrefi Blaenpennal, Blaenafon, Trefenter, Bronnant, Lledrod, Llangwryfon, Pen-uwch a Bethania) ar 26 Medi. Bydd y llyfr yn cynnwys nifer o hen luniau o'r ardal hefyd.

Rydym yn cyhoeddi llyfr clawr meddal a chlawr caled ac yr ydym yn gwahodd tanysgrifwyr ar gyfer y gyfrol clawr caled, sy'n £25. Os hoffech gael eich rhestru fel tanysgrifiwr yng nghefn y llyfr, a fydddech gystal â danfon eich manylion llawn (enw, cyfeiriad a ffôn/e-bost) a siec am £25 yn daladwy i Cymdeithas Hanes Blaenpennal at: A. Findon, Cymdeithas Hanes Blaenpennal, Y Felin, Blaenpennal, Aberystwyth, SY23 4TP erbyn 31 Mawrth.

Bydd copïau ar gael i'w casglu yn y lansiad ym Mlaenpennal ar 26 Medi. Os nad ydych yn medru bod yn bresennol y noson honno, a wnewch chi ychwanegu £5 arall i'r siec ar gyfer pacio a phostio. Diolch yn fawr.

Yn gywir

Cymdeithas Hanes Blaenpennal

GŴYL BAN GELTAIDD CARLOW 2013

Cynhelir yr Ŵyl Ban Geltaidd eleni yn Carlow, Iwerddon rhwng Ebrill 2ail – 7fed ac mae Pwyllgor Cymru yn trefnu taith yno o Orllewin Cymru.

Dyma benllanw Cân i Gymru, pan fydd cystadleuwyr o'r gwledydd Celtaidd – Cymru, Yr Alban, Ynys Manaw, Iwerddon, Cernyw a Llydaw – yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, ynghyd â chael cyfle i gyfathrebu â'i gilydd yn eu hieithoedd Celtaidd brodorol (Cymraeg, Gaeleg yr Alban, Manaweg, Gwyddeleg, Cernyweg, a Llydaweg), i greu wythnos o gymdeithasu Celtaidd. Bydd hi fel Eisteddfod, ond yn well! Bydd gweithgareddau ymylol ar hyd a lled y dref - dawnsio a chanu amrywiol, gyda chyfle i brofi tipyn o'r diwylliant lleol.

Trefnir y daith, ynghyd â llety amrywiol i siwtio pob poced, am bris rhesymol, a chewch eich cludo mewn bws moethus a llong bleser gyfforddus ar draws y môr i Rosslare yn Iwerddon. Os dymunwch ddod, cysylltwch yn fuan â:

Parch. Emyr Wyn Thomas,
'Cartref', Hermon, Y Glog Sir Benfro, Cymru, SA36 0DS

01239831809 / 07580586174
emyr2esgairllyn@yahoo.com

Drefach a Llanwenog

Ysgol Llanwenog

Bu'r cyfnod cyn y Nadolig yn un prysur yn Ysgol Llanwenog

Cafodd y plant a'r staff ginio Nadolig hynod o flasus a diolch yn fawr i Ms Eleri Davies am ei greu gyda'r balchder arferol ac am greu prydiau bwyd amheuthun drwy gydol y flwyddyn hefyd.

Derbyniodd y plant i gyd anrhegion oddi wrth Siôn Corn yn y parti a buont yn mwynhau sesiwn o gemau amrywiol yn ystod y prynhawn.

Pleser eleni oedd derbyn gwahoddiad oddi wrth Eglwys Santes Gwenog a Chlybiau Ffermwyr Ifanc Llanllwni a Llanwenog i gymryd rhan mewn Cyngerdd Nadolig ar y cyd.

Cynhaliwyd y noson yn y Llew Du yn Llanybydder. Daeth tyrfa dda iawn i fwynhau'r noson ac roedd y neuadd yn llawn. Bu'r plant yn perfformio sioe o hanner awr dan y teitl 'Beth yw ystyr y Nadolig?' Roedd y plant wrth eu bodd yn canu ac yn actio ac uchafbwynt y noson oedd cael y cyfle i gyd-ganu'r garol 'Nadolig Llawn i chi gyd' gyda chôr Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog a Llanllwni. Diolch yn fawr iawn iddynt am y cyfle euraidd yma.

Diolch yn fawr iawn i'r amryddawn Mrs Catrin Evans am gyfeilio i'r plant ar y noson.

Diolch hefyd i'r Ficer Suzy Bale am drefnu'r noson a diolch iddi hefyd am ei chyfraniad wythnosol wrth gynnal gwasanaethau yn yr Ysgol.

Ymunodd grŵp o blant o'r Ysgol hefyd gyda phlant Ysgol Llanwnnen i ddiddanu'r henoed yng nghartref Cwm Aur yn Llanybydder. Cafwyd prynhawn difyr o ganu ac actio. Diolch i Mrs Eirlys Jones am gyfeilio ac am drefnu.

Teithiodd plant y Cyfnod Sylfaen i Gaerfyrddin i weld Sioe Cyw S4C tra'r aeth plant yr Adran Iau i'r sinema yn Aberystwyth i weld y ffilm 'Arthur Christmas'. Cyn y ffilm cafodd y plant gyfle i ymweld â Chlwb Pêl droed Aberystwyth, sef Coedllan y Parc a chael pryd o fwyd blasus yno. Diolch yn fawr iawn i Ms Enfys Morgan am drefnu'r ymweliad yma.

Llongyfarchiadau i Chloe Marie Jones a Chloe Channel Jones am gael eu dewis i chwarae mewn cerddorfa gyda disgyblion arall yr ardal. Buont yn perfformio mewn cyngerdd yn Ysgol Uwchradd Llanbed.

Mynychodd Hafwen ac Osian Davies a Jac Evans y clwb drama lleol sy'n cael ei gynnal yn Ysgol Llanwnnen. Maent yn mwynhau'r sesiynau yn fawr iawn.

Creodd dyfodiad yr eira diweddar dipyn o gyffro ymysg y plant ond ni effeithiodd yn ormodol ar rediad

yr Ysgol. Gwnaeth y plant yn fawr o'r cyfle wrth ddod â dillad addas i'r Ysgol er mwyn cael mynd allan i fwynhau adeiladu dynion eira ar gae'r Ysgol yn ystod amser egwyl. Roedd yn bleser eu gweld yn cydweithio ac yn mwynhau ynghanol yr eira.

Hoffem fel Ysgol ddymuno'n dda iawn i Mrs Sioned Mills a fydd yn gorffen ar ôl yr hanner tymor i fynd ar gyfnod mamolaeth gan ei bod hi a'i gwr, Dafydd, yn disgwyl eu hail blentyn. Pob dymuniad da iddynt.

Cartref Newydd

Gobeithio erbyn hyn fod Mr & Mrs Emyr Lloyd a'r plant wedi setlo yn eu cartref newydd yn Hafod y Dail.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Carys, Clive a'r plant ar golli ewythr sef Robert Morris, Graigwrtheyrn a fu farw yn ystod mis Rhagfyr.

Yn ystod dechrau'r flwyddyn clywyd gyda siom am farwolaeth Hannah Jones, Cartref Henllan ond gynt o Fferm Cwmnant a oedd yn 101 oed. Roedd yn berson unigryw iawn ac mae'r ardal eang yn cydymdeimlo gyda'i brawd a'r teulu, Dan ac Irene Jones yn Llambod ar eu colled.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Gwennan Davies, Llysderi a Carwyn Jenkins ac hefyd i Rhydian Jones, Meysydd a Hayley Grace ar achlysur eu dyweddiad adeg y Nadolig

Gor-ŵyr

Nos Galan ganwyd gor-ŵyr bach arall i Mrs Nancy Evans, Hazeldene, Drefach, sef bachgen bach o'r enw Jac, i'w hwyres Nia a Jason ym Mhentrecwrt.

18oed

Dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ym mis Ionawr a wnaeth Carwyn Lewis, Gwarcoedeinon. Gobeithio, Carwyn, dy fod wedi cael pen-blwydd i'w gofio – pob lwc i'r dyfodol.

Yn ystod dechrau mis Chwefror bydd Sioned Hatcher, Abernant yn dathlu ei phen-blwydd yn 18oed. Dymuniadau gorau i ti Sioned a phob hwy! da'r dathliadau.

Diolch

Dymuna Carwyn, Gwarcoed Einon ddiolch am y cardiau, yr arian a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.

Neuadd y Pentre

Clwb 100 Rhagfyr 2012
£20 Alys Elin, Afallon. £15 Hazel



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion
Enillydd Cwpan y Siaradwr Gorau dan 16 oed a Chwpan y Cadeirydd Gorau dan 21 oed - Sioned Fflur, Llanwenog



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion
Cwpan y Cadeirydd Gorau dan 26 oed - Luned Mair, Llanwenog



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion
Enillwyr y Darian am y Tim Gorau dan 16 oed - Sophie Jones, Lauren Jones a Gwawr Hatcher, Llanwenog.

Thomas. £10 Hyw Davies, Ornant.
£5 Denise Rickard, Cartrefle. £5.
Ada Williams, Maesyfelin. £5 Nana Jones, Garth. £5. Robert Jones, Central Garage.

Ionawr 2013

£10. Barry J. Davies 1 Highmead Cott. £5. Beryl Lewin, Harlech Drefach.

Chwefror 2013

£10, Ann Thomas, Milford House.
£5. Mair Davies 1 Highmead Cott.

Marwolaeth

Ar y 7fed o Ionawr bu farw Roy Middleton, Maes yr Onnen, Drefach. Daeth Roy i fyw at ei ferch, Ann, a'i fab yng nghyfraith, Gordon, saith mlynedd yn ôl. Ymsefydlodd yn y pentref gan ymuno yng ngweithgaredd Clwb Cledlyn a'r gymuned. Cydymdeimlwn â'r teulu.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion.
Aeth Tarian y Diolchydd Gorau dan 16 oed i Rhys Davies, Llanwenog.

Rhifyn mis Mawrth
Yn y Siopau
7fed Mawrth

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
25ain Chwefror

Llanwnnen



Llongyfarchiadau i'r naw disgybl o flynyddoedd 4,5 a 6 a fu'n cystadlu yn rownd yr ysgol o 'Cogurdd'. Eu tasg oedd gwneud salad pasta ac Eleri Hammond, Llaindelyn a gafodd y dasg anodd iawn o'u beirniadu. Diolch o galon ichi am roi o'ch amser. Yr enillydd oedd Heledd Jenkins o flwyddyn 6 a fydd yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf. Pob lwc iti Heledd.

Ysgol Llanwnnen

Da iawn i dîm pêl-rwyd yr ysgol am gystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd yn Llambod gan chwarae yn dda iawn. Aelodau'r tîm oedd Heledd, Holly, Sasha, Lauren, Catrin, Lucy, Lewis ac Idris.

Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth gefnogi ein Ffair Fentergarwch. Tîm Steffan Holmes, Sasha Evans ac Idris Lloyd a fu'n fuddugol gyda'u syniad a'u cynllun busnes ar gyfer eu cwmni 'Hosanau Hyfryd' a thîm Carwyn Rosser, Lewis Jarvis Blewer a Guto Ebbsworth yn gwneud yr elw mwyaf gyda'u stondin 'Pethau Pren'. Diolch o galon i Miss Erica o 'Grannell Nurseries' am feirniadu'r gystadleuaeth. Bu pob aelod o'r dosbarth hŷn wrthi yn cynllunio a threfnu eu stondin gan fwynhau'r noson o brynu a gwerthu yn fawr iawn.

Bu sioe Nadolig yr ysgol, 'Chwilio a Chwilio am Goeden Nadolig' yn llawer o sbri a diolch i bawb a fu'n ein cynorthwyo ac i'r plant am sioe arbennig. Diolch hefyd i westy'r Llew Du, Llanybydder am yr ystafell ac i Mr. Haydn Richards am fod yn Llywydd y noson.

Ddiwedd y tymor aethpwyd am drip i'r sinema yn Aberystwyth i fwynhau ffilm a phopcorn er mwyn diolch i'r disgyblion am eu holl waith yn ystod y tymor.

Diolch yn fawr iawn i'r Cyngor Cymuned am rodd ariannol hael i alluogi'r ysgol i brynu'r cyfarpar Technoleg Gwybodaeth mwyaf diweddar i'n disgyblion. Gwerthfawrogwn eich caredigrwydd yn fawr.

Fel rhan o waith y tymor bu Jerry Taylor yn ymweld â'r ysgol i drafod fforestydd glaw gyda'r disgyblion. Dysgwyd llawer am ddaeryddiaeth a'r modd y mae'r

fforestydd hyn mor bwysig.

Cydymdeimlo

Yn ystod mis Rhagfyr daeth profedigaeth i ran Teulu Lowtre pan gollwyd ewythr hoffus, sef y Parch Dan Lodwig Jones gynt o Llambed, ond a oedd wedi ymgartrefu yng Nghartref Alltymynydd ers sawl blwyddyn.

Hefyd, cydymdeimlwn yn ddwys â Roy a Ceinwen Roach a'r teulu ar farwolaeth brawd Roy, sef Dilwyn Roach o Gwmann.

Danfonwn ein cydymdeimlad llwyrat a dwysaf at Elizabeth a Dilwyn Thomas, Pantffynnon a'r teulu i gyd yn dilyn marwolaeth chwaer Elizabeth, sef Mrs Mary James, Tŷ Mawr Llanio ger Tregaron.

Gwellhad Buan

Dymunwn ddymuno gwellhad buan i Twm Ebbsworth, Brynamlwg a gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.

Capel y Groes

Ddydd Sul 20 Ionawr am 3.00 o'r gloch cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun cyntaf y flwyddyn yn y capel. Yn ystod y gwasanaeth gwnaeth y gweinidog gydymdeimlo â nifer o deuluoedd oedd yn ystod y misoedd diwethaf wedi colli anwyliad, boed yn aelodau'r teulu, perthnasau, cyfeillion neu gymdogion.

Sefydliad y Merched

Nos Lun, Ionawr 7fed cyfarfu'r Sefydliad yng Ngwesty'r Grannell a chafwyd noson hwylus gyda'r aelodau'n trafod y rhaglen am y flwyddyn nesaf a phawb yn cynnig syniadau gwahanol. Cyfeiriodd Mrs Avril Jones, ein Llywydd at y noson hyfryd a gafwyd ym mis Rhagfyr gyda Mrs

Catrin Thomas, Castell Du yn arddangos sut i baratoi'r canlynol: Pwnsh, Caws a Llugaeron ar dost, Pei Twrci, Treiffl Clementin a Sieri. Cyfeiriodd hefyd at ein Cinio Blynnyddol yng Ngwesty'r Grannell, lle cafwyd pryd blasus. Ar y noson cyhoeddwyd mai enillydd y 'Gystadleuaeth Fisol' am y flwyddyn oedd Mrs Avril Jones a phawb yn ei llongyfarch am hyn. Ar ôl y cinio cafwyd gyrfa chwist yng ngofal Mrs Gwen Davies a chafwyd llawer o hwyl. Enillwyr cystadleuaeth mis Ionawr oedd Iaf – Mrs Avril Jones; 2il – Mrs Mary Davies, 3ydd – Mrs Ceinwen Roach. Enillydd y raffl, a oedd yn rhoddedig gan Mrs Ann Hughes, oedd Mrs Avril Jones. Diolchodd ein Llywydd i bawb am eu cydweithrediad yn ystod y flwyddyn.

Cydymdeimlad

Estyynnir cydymdeimlad dwys â theulu'r diweddar Mrs Joyce Williams, Pleasant Hill, Blaencwrt, Llanwnnen yn eu profedigaeth o golli mam, mam-gu a hen fam-gu yn ystod y Nadolig.

Llanllwni

Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni

Mae yna groeso i rieni a'u plant ddod i'r cylch Ti a Fi yn Ysgol Llanllwni ar fore Iau rhwng 9 ac 11 o'r gloch. Nod y sesiynau Ti a Fi yw cynnig cyfle i rieni a gwarchodwyr fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu mewn awyrgylch Gymreig. Mae'r plant yn cael cyfle i wneud gwaith crefft, i ganu a chwarae gyda'r teganau amrywiol sydd gyda ni yn y Cylch.

Disco St Ffolant

Croeso i blant bach a mawr ddod am bwgi i Ddisco St Ffolant yn Nhafarn Talardd rhwng 4 - 6 o'r gloch ddydd Gwener 15fed o Chwefror.

Bingo Pasg

Cynhelir Bingo Cylch Meithrin Llanllwni nos Lun y 18fed o Fawrth yn Nhafarn Talardd, Llanllwni i ddechrau am 8yh; bydd yna wobrau ardderchog a lluniaeth ysgafn ar gael.

Genedigaeth Efeilliaid

Llongyfarchiadau i Bethan a Dylan Jones, Beilbedw ar enedigaeth efeilliaid ddiwedd mis Ionawr sef Cian ac Elliw. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Ffarmers

Neuadd Bro Fana

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Cyngor y Neuadd ar y 13eg o Dachwedd, pryd yr etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn 2012 / 2013. Cadeirydd – Judy Jenkins, Llys Awel; Is-gadeirydd – Barrie Jones, Sŵn y nant; Trysorydd – Liz Thomas, Penywaun; Ysgrifennydd – Elfyn Davies, Troed y bryn. Llywydd y Neuadd yw Ethel Davies, Llys Helen.

Fel arfer yn ystod misoedd y gaeaf, mae Cyngor y Neuadd wedi bod yn brysur yn trefnu nifer o weithgareddau. Ym mis Tachwedd, cafwyd bore coffi yn y Neuadd, gyda Mrs Mairwen Davies, Y Felin, Llansawel yn agor y gweithgaredd. Roedd yna amrywiaeth o stondinau wedi eu paratoi gan aelodau'r Cyngor, a chafwyd cefnogaeth dda i'r digwyddiad. Cafwyd hefyd ymweliad gan Richard Rees, Llanwrda a roddodd ddarlith hynod ddiddorol ar gynllun gan Gyngor Sir Llundain ar ddiwedd y 19eg i 'ddwyn yr afon Tywi.' Roedd hwn yn gynllun uchelgeisiol gan Gyngor Llundain i ddargyfeirio dŵr o'r Tywi, a nifer o afonydd eraill sy'n tarddu yng nghanolbarth Cymru, i ddiwallu anghenion dinas Llundain. Yn rhan o'r cynllun, byddai wedi bod yn angenrheidiol dargyfeirio rhan o reilffordd Canolbarth Cymru hefyd. Mae'n amlwg fod Richard wedi gwneud ymchwil enfawr i'r pwnc yma, a da oedd cael clywed yr hanes a gweld y cynlluniau a'r mapiau a baratowyd gan arbenigwyr ar ran Cyngor Sir Llundain.

Cynhaliwyd y Cyngerdd a Noson o Garolau Blynnyddol yn y Neuadd y nos Sul cyn y Nadolig. Yn ogystal â chyfraniadau gan aelodau Eglwys Llanyerwys a'r capeli lleol, cafwyd cyfle i groesawu parti bechgyn 'Ar Wasgar' dan arweiniad Irene Williams, i'n diddanu, a chafodd y gynulleidfa ddim mo'u siomi. Cafwyd noson hyfryd gyda chynulleidfa dda yn ymuno i ganu'r carolau, a chyfle i gael sgwrs dros banded cyn troi am adre. Mae elw'r noson yn cael ei gyflwyno i Uned Anghenion Arbennig Myrddin yng Nghaerfyrddin. Diolchwn i bawb am eu cefnogaeth barod i'r amrywiol weithgareddau a gynhelir yn y Neuadd a dymunwn i chi Flwyddyn Newydd Dda.

Bydd Côr Meibion De Cymru yn ymuno â ni am gyngerdd mawreddog ar yr 20fed o Ebrill 2013, gyda'r artistiaid Ina Morgan yn canu, a Georgina Cornock Evans yn chwarae'r delyn. Edrychwn ymlaen i'w croesawi i'r Neuadd. Prynhawn dydd Sul, y 12fed o fis Mai, 2013, am 3.30, bydd yna Gyngerdd Clasurrol yng nghwmni Mrs Perfect, gynt o Pantunos a Mrs Wilson, Cwmann.



Enw: **Angharad Gwenllian Watkins**

Oed: 25
Pentref: Cellan
Gwaith: Nyrs
Partner: Sengl
Teulu: Mam, Tony a 3 Brawd (Rhydian, Dylan a Twm)

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Treulio amser ar fferm Mam-gu a Dad-cu.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Pobol Tre Sgidie.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Trin pawb fel wyt ti moyn cael dy drin dy hun.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
Gwrando mwy ar gyngor mam achos erbyn nawr ma fe'n neud synnwyr!

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Smurfs go pop!

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Cael parti yn y tŷ pan aeth mam ar wyliau heb ddeud wrthi.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Treulio amser gyda teulu a ffrindiau.

Pwy yw dy arwyr?
Mam a mam-gu.

Beth yw dy arbenigedd?
Nyrsio

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Cwrdd â gweithio gyda amrywiaeth o bobol wahanol.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?



Gofod codi am 5.30 y bore!

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg bob tro!

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Prynu tocyn agored i Awstralia a hala'r gweddill pan fydda i allan yna!

Pryd lefaist ti ddiwethaf?
Dagrau hapus pan nes i basio'r cwrs nyrsio.

Beth oedd yr eiliad mwyaf balch i ti'n broffesiynol?
Graddio o'r brifysgol.

Ac yn bersonol?
Pasio prawf gyrru.

Wyt ti'n difaru rhywbeth?
Na - mae bywyd rhy fyr i ddifaru!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?
Lliw haul ffug!

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Rhaid gweithio'n galed i gael beth wyt ti moyn mewn bywyd!

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Llawn egni, hapus ac annibynnol.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
MG ZR

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Chinese.

Beth yw dy ddiod arferol?
Southern Comfort, leim a lemonêd.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
50 Shades of Grey!

Beth yw dy hoff arogl?

Porfa newydd ei dorri.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
758

Sawl tecst y dydd wyt ti'n hala?
30+

Beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Handbag (mae popeth ynddo!)

Beth fyddet ti'n ei wneud os na fyddet ti'n gwneud y gwaith hwn?
Unrhyw beth sydd yn cynnwys edrych ar ôl pobl.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Teulu, ffrindiau a ieched.

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?
Mam-gu a mam.

Y gwyliau gorau?
Zante 2013 gobeithio!

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Awstralia, Seland Newydd a'r Amerig.

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?
Prynu tŷ, priodi a chael plant.

Arferion gwael?
Gwasgu snooze ar y larwm yn y boreau!

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Edrych ar y ffôn.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Byw allan yn Awstralia.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Rhys Lewis, Cribyn.

Sarn Helen



Yn Bryste roedd trydydd cyfres traws gwlad Gwent, a Grace Page yn gorffen yn safle tair ar ddeg yn y ras dan 13, Caitlin Page yn bedwerydd dan 15, ac yn ras y dynion hŷn, Andrew Abbot yn safle 66.

Ras chwe milltir ar fore Gŵyl Sant Steffan yn Crymych: Simon Hall 39:58, Huw Price 41:06, Glyn Price 41:07, Dee Jolly 43:30 a Allen Watts awr 42 munud.

Ras Tîm Pursuit yn Crymych a Tîm A Sarn Helen yn ennill mewn 3 awr 34 munud - Daniel Hooper, Llewelyn Lloyd, Glyn Price, Dylan Lewis a Mike Davies; Tîm B 4 awr 12 munud - Aneurin James, Richard Marks, Nigel Davies, Mark Dunscombe a Simon Hall, a Tîm y Menywod 4 awr 26 munud, - Helen Willoughby, Dawn Kenwright, Eleri Rivers, Dee Jolly a Caryl Davies. Enillwyr y rasys rhwng clybiau Ceredigion, Caerfyrddin a Sir Benfro dros y flwyddyn - yn y categori dynion 40, 1af Mike Davies, 2il

Mark Dunscombe, 3ydd Glyn Price, ac yn ennill y tîm, ail Simon Hall yn ras y dynion agored; menywod 45, 3ydd Helen Willoughby; menywod agored 2il Sian Roberts-Jones, 3ydd Dee Jolly.

Pencampwriaeth dan do Cymru yn NIAC Caerdydd, 800 medr dan 13 - 3ydd yn rhag-ras 3:02:80 a 12fed yn y ffeinal dan 17 - Caitlin Page 4ydd 2:26:89, ras 1500 medr dan 17 Caitlin Page yn cael y fedal arian mewn 5:07:14.

Yn y Granell Llanwnnen roedd cinio Nadolig y clwb gyda Lowri Morgan yn westai.

Bu'n siarad am ei hantur yn y ras yn erbyn amser, sef cystadlu mewn ras 222km ar draws jynl yr Amazon am saith diwrnod a hynny'n hollol hunangynhaliol. Gorffennodd Lowri y ras yn 10fed ac yn drydedd ymhlith y merched. Aeth ymlaen i roi hanes Ultra 6633 yn yr Artig, sef un o'r sialensiau anoddaf ar y blaned gan frwydro yn erbyn tymheredd oer a chreulon yr Arctig. Mae'r ras yn 350 o filltiroedd dros wyth diwrnod. Enillodd Lowri y ras mewn 174 awr ac wyth munud a threuliodd y tridiau olaf ar ei phen ei hun. Bu hefyd yn siarad am yr adeg pan blymiodd i ddyfnderoedd y môr i weld gweddillion y Titanic.

Y Tlysau

Rhai wythnosau cyn y Nadolig gwahoddwyd Y Tlysau i rannu'u hatgofion ar raglen Iola Wyn ar Radio Cymru. Mae rhai darllenwyr Clonc wedi bod yn gofyn am fanylion ynglŷn â'r grŵp. Felly, dyma rai sylwadau am y tair merch a oedd yn ffurfio'r grŵp pop hwnnw.

Roedd y tair ohonynt yn ddisgyblion yn y 6ed dosbarth yn ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan yn 1967 pan ddechreuon nhw ganu gyda'i gilydd. Eu henwau yn y cyfnod hwnnw oedd Gillian Davies, Beilbedw, Llanwenog; Eirlys James, Maenor, Llanbed a Delyth Davies, Y Mans, Llangybi. Roedd Eirlys a Gillian yn ddwy gyfnither a Delyth yn ffrind agos i'r ddwy. Roedd y tair wedi bod yn ymwneud ag eisteddfodau, yn canu mewn cymanfaeod ac yn canu'r piano ers pan oeddynt yn ifanc iawn.

Roedd bwrlwm cymdeithasol a diwylliannol prysur iawn yn Llanbed yn niwedd y 60au. Gwahoddwyd y merched i ganu mewn nosweithiau llawen a chyngherddau diri yn y cyfnod cynnar hwn. Roedd cangen Plaid Cymru yn weithgar iawn yn yr ardal hefyd. Roedd hi'n gyfnod cyffrous ym mywyd gwleidyddol Cymru yn ystod y blynyddoedd hyn. Dechreuodd Gillian, Eirlys a Delyth ysgrifennu geiriau gwreiddiol ac alawon i gyd-fynd ag achlysuron megis llwyddiant is-etholiad Caerffili a'r Arwisgo.

Ym mis Rhagfyr 1967 cynhaliwyd diwrnod gwobrwyo yn yr ysgol uwchradd. Gwahoddwyd y merched i ganu eitemau yn ystod y seremoni. Y gŵr gwadd a oedd yn rhannu'r gwobrau i'r disgyblion oedd Alun Williams a oedd yn enw amlwg iawn yn ei ddydd yn cyflwyno rhaglenni ar y radio. Roedd eitemau'r marcheg wedi'i blesio'n fawr iawn. Gofynnodd iddyn nhw a fyddai diddordeb gyda nhw i wneud record.

Ond, roedd un problem fach i'w datrys cyn penderfynu ar y record. Roedd angen enw ar y grŵp. Manteisiwyd ar y cyfryngau i ddatrys y broblem. Daeth gohebydd o'r Western Mail i'r ysgol ac ysgrifennodd erthygl yn gofyn am gynigion i enwi'r grŵp. Ymddangosodd erthyglau tebyg yn Y Cymro a chylchgronau Urdd Gobaith Cymru. Cafwyd ymateb anhygoel i'r erthyglau. Lliffai llythyron yn gyson i swyddfa'r prifathro. Roedd y prifathro, Aneirin Jones, yn gefnogol iawn i'r merched ac yn rhoi pob cyfle iddyn nhw ddatblygu'u dawn. Yr enw mwyaf poblogaidd ymhlith yr amrywiol gynigion oedd Y Tlysau. A dyna sut penderfynwyd ar yr enw.

Daeth hi'n amser gwneud y record. Aethpwyd i stiwdio ym Mhontardawe. Roedd gŵr o'r enw Meic Stevens gyda'i gitâr yno i gefnogi'r merched. Roedd hi'n ddyddiau cynnar yng ngyrfa Meic Stevens, ond diolch iddo am frwr ei brentisiaeth gyda'r Tlysau! Roedd rhaid cael dillad yr un fath. Roedd tad Alan van Reinn, a oedd yn aelod o'r un dosbarth yn yr ysgol â'r grŵp, yn gyfrifol am felin wllan yn yr ardal. Felly, dyma fe'n cynllunio gwisg i'r Tlysau o frethyn lleol - gyda gwasgod a sgert fini a oedd yn nodweddiadol o wisg y cyfnod. Y ffotograffydd enwog Ron Davies o Aberaeron a ddewisodd y llun ar gyfer y clawr. Tynnwyd y llun o flaen plasty Glandennis ar ôl derbyn sêl bendith Julian Cayo Evans.

Cafwyd gwahoddiadau cyson i ganu ar lwyfannau lleol a chenedlaethol ac ymddangos gydag artistiaid megis Dafydd Iwan, Hogiau'r Wyddfa, Hogiau Llandegai, Pelydrau, Toni ac Aloma, ac yn y blaen. Cafwyd gwahoddiad i ganu yn y Babell Llen yn Eisteddfod Genedlaethol y Barri ym 1968 a chydganu gyda grŵp arall o'r ardal sef Y Cwiltiaid. Roedd digon o gyfleoedd hefyd i ymddangos ar raglenni teledu megis Sgubor Lawen, 04 05 ac ati, Disc a Dawn. Un rhaglen gofiadwy yn y cyfnod oedd Trê'n o Gân gydag Idris Charles Williams. Roedd nifer o grwpiau pop yn ffurfio yn ysgol Llanbedr Pont Steffan ac roedd hynny wedi tynnu sylw pobl megis prif Lyfrgellydd Ceredigion, Alun R Edwards. Roedd e'n awyddus i roi sylw i'r bwrlwm diwylliannol hwn. Trefnwyd taith ar drên bach Cwmrheidol â chriw o ddisgyblion ysgol Llanbed yn teithio o Aberystwyth i Bont-ar-fynach i gyfeiliant 3 grŵp o ferched o'r ysgol, sef Merched Gwenog, Tannau Tawela a'r Tlysau.

Ar ôl cwblhau eu cyfnod yn y 6ed dosbarth aethon nhw ymlaen i wahanol brifysgolion a feddylion nhw ddim am ailymgynnull ar gyfer parhau efo'r canu. Rhywbeth a oedd yn perthyn i gyfnod yr ysgol oedd y cydganu hwn. Roedd cerddoriaeth Gymraeg yn newid yn fawr iawn yn ystod y cyfnod hefyd.



Mae'r tair ohonynt bellach yn dechrau mwynhau bywyd mwy hamddenol ar ôl bywydau proffesiynol a phersonol prysur iawn. Mae Gillian (Jones) bellach yn byw ym Meysydd, Llanwenog; Delyth (Humphreys) yn byw ym Mronnant, Tregaron ac Eirlys (Scott) yn byw yn Wrecsam. Cafwyd llawer o hwyl yn hel atgofion ar raglen Iola Wyn yn enwedig pan sylweddolwyd fod rhywun wedi prynu copi o record Y Tlysau ar e-Bay am £4.99 ym mis Medi 2012. Ai un o ddarllenwyr Clonc oedd y prynwr?



Ysgol Gynradd Tregaron

Yn nwy fil ac un deg tri bydd ysgol gynradd Tregaron yn dathlu ei chanmlwyddiant. Bwriedir cynnal nifer o ddigwyddiadau i ddathlu'r digwyddiad megis cyhoeddi llyfr, cynnal parti arbennig a chyngerdd cyn-ddisgyblion ynghyd â'r rhai presennol ac hefyd gwerthiant o nwyddau fel platiau, mygiau a.y.y.b. Os oes gennych dalent llwyfan i gyfrannu i'r cyngerdd neu os hoffech wneud cyfraniad i'r llyfr, cysylltwch gydag un o'r isod.

Catherine Hughes 01974 298700

John Jones 01974 298431

Delyth Owen 01974 298274

a hynny erbyn dechrau 2013 ar y man pellaf.

Yn ychwanegol, rydym yn chwilio am y disgybl hynaf a fynychodd yr ysgol ers ei hagog ym 1913. Os ydych yn meddwl bod yna bosiblwydd mai chi yw'r disgybl hynaf, plis cysylltwch â'r pennaeth John Jones ar 01974 298431.

Sefydliad Prydeinig Y Galon
Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan
Noson Sant Ffolant
15 Chwefror 2013

Ym Mhrifysgol Y Drindod Dewi Sant
Artistiaid - Mr Clive Edwards a
Lleisiau'r Werin
am 7.30 o'r gloch.
Swper Ysgafn
Tocynnau: £12.50

CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2013


Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 7 Mawrth, ac mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl papurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd llwus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn sicc o £50 yr un.** Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!

AR DRAWS

- Cyfenw bardd a gyhoeddodd ei gyfrol *O Annwn i Gellia* ym mis Mawrth 2012 (7)
- Rhyw Fath o _____ nofel am wallgofrwydd cariad gan Lleucu Roberts (7)
- Rhywun yn _____ cyfrol o gerddi i blant gan y prifardd Tudur Dylan a gyhoeddwyd yn 2005 (5)
- gweler 29 ar draws
- Ar ei ymweiliad wythnosol â'r farchnad hon yr enillodd Tecwyn y Tractor gariad o'r enw Ffergi Lwyd (4)
- Enw cyntaf awdur y gyfrol i blant, *A Wyddoch Chi am Anifellid Cymru?* (4)
- Casgliad o lirigau i blant yng Nghyffres Cerddi Gwalch: *1 Lirrigau* _____ (5)
- _____ Cofiant R. Williams Parry, gan Alan Llwyd (3)
- Cyfrol a ysgrifennwyd gan Hefin Wyn am un o feirdd amlycaf sir Benfro (2, 6, 5)
- Y Pussola* _____ stori gyffrous i blant 9-10 oed gan Menna Eflin (3)
- Enw cyntaf awdur y nofel *Blasu* (5)
- Od-dod!* _____ stori ar fydd ac o'di sy'n addas i blant dan 7 oed gan Gwion Hallam (4)
- Enw cyntaf yr awdur a gyhoeddodd ei hunangofiant o dan y teitl *Cofnodion* (4)
- Enw cyntaf awdur yr hunangofiant *Ymlaen â'r Gân* yn 2003 (6)
- 29 a 10 ar draws. Hunangofiant arbennig o ddiffr awdures *Ardanill a Llynn Trôns* (5, 5)
- Enw cyntaf awdur *Cerbyd Cydybod*, cyfrol o farddoniaeth gan un o arloeswyr y sin roc Gymraeg (6)
- Nofel gan Marek Lewis a ddewiswyd yn Nofel y Mis yn Ebrill 2012 (3, 1, 3)

I LAWR

- Enw cyntaf awdur y nofel *Tarw Pres*, dilyniant i'w nofel *Pwll Ynydd* (4)
- Enw cyntaf awdur *Cerddi Bob Llŷ*, cyfrol o gerddi personol ac amryliw a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011 (5)
- Cyfenw awdur y gyfrol o gerddi *Ar y Tir Mawr* (6)
- Cynnal* _____ cyfrol gan Eirwyn George sy'n bwrw golwg ar rai o weithgareddau Annibynwyr Sir Benfro (1, 4)
- Nofel hanesyddol gan William Owen Roberts a gyhoeddwyd gyntaf ym 1987 (1, 3)
- Hunangofiant y cerddor a'r athro amryddawn Rhys Jones (3, 2, 3, 2)
- Enw cyntaf awdur *Madamrygi* - *Y Brîdos* (4)
- Yr Wylan _____ cyfrol o storïau gan Kate Roberts a gafodd ei hailargraffu yn 2011 (3)
- Enw gan Lleucu Roberts sy'n adrodd hanes teulu sydd wedi mynd i ffwr eu bywydau trwy sgrin y teledu a sgrin y cyfrifiadu (6)



Cofiwch mai un llythyren yw CH, DD, NG, LL, RH, TH

- Cyfenw awdur y gyfrol 301 a gyhoeddwyd yn 2013 (4)
- Hunangofiant y pysgotwr a'r naturiaethwr o Dregaron, Moc Morgan (3, 3)
- Casgliad cyntaf John Glyn Jones o gerddi a gyhoeddwyd yn 2010, _____ ac *Ysgafn* (4)
- Cyfrol gyntaf Caryl Lewis o straeon byrion (3)
- Nofel gan Robat Gruffudd a enillodd iddo Wobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg, 2012 (6)
- Lliw'r englynion a gyhoeddwyd gan y Lolfa yn 2001 (4)
- Cawsom hanes taith Rocet Arwel Jones i'r wlad hon yn ei gyfrol *Diolch i 'Nhrwyn* a gyhoeddwyd yn 2002 (5)
- Creadur sy'n aelod o dim golchi ffenestri yn y gyfrol i blant, *Jiraff*, a'r *Pelican* a fi gan Roald Dahl (5)
- Cyfenw'r sawl a gyhoeddodd llyfr â'r teitl *Blwyddyn Fawr* yn 2007 (4)
- Yr *Un Hwyl â'r Un* _____ detholiad o gerddi gan y diweddar gyn-Archdderwydd Dic Jones (4)

Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gyda'r atebion

gwales.com
llyfrau ar-lein



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

ENW

CYFEIRIAD

ENW'R PAPUR BRO

Anfonwch y croesair at: Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2013. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.

DIWRNOD Y
LLYFR
7.3.2013

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Tom Bowen; Clerc: Eirlys Owen; Cynghorydd Sir: Linda Evans. Cyfarfu'r Cyngor ar 12 Tachwedd 2012 yn Neuadd Gymunedol Llanllwni. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Llongyfarchwyd Eirlys Owen ar ei phriodas â Gary yn ddiweddar a dymunwyd yn dda iddynt fel teulu.

PLISMONA - Croesawyd yr heddwas Cwnstabl Stephen Greensmyth a'r Cwnstabl Dai Munkley i'r cyfarfod. Cafwyd gwybodaeth ganddynt bod ceir patrol traffig yr heddlu wedi bod yn bresennol yn yr ardal yn ystod yr wythnosau diwethaf. Soniwyd ganddynt am un digwyddiad penodol yn y plwyf. Awgrymwyd gan y ddau Gwnstabl y byddent yn ysgrifennu llythyr o ddiolch i'r unigolion a oedd yn gyfrifol am roi gwybodaeth i'r heddlu.

Y CAE CHWARAE: - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric

Davies. Yr oedd Eric Davies wedi cysylltu â Lyn Jones ynglŷn â'r matiau yn y lle chwarae sy'n llithrig, ac nid oedd datblygiad pellach.

DATHLIAD DIEMWNT Y FRENHINES: - Cadarnhawyd bod 6 chwpan ar ôl heb eu gwerthu.

Tŷ HERS A'R CAE CHWARAE: - Yr oedd Dewi Davies wedi dychwelyd y gweithredoedd i Fanc Lloyds, Llanbedr Pont Steffan, ac yr oedd y Banc yn fodlon eu derbyn. Yr oedd y dogfennau priodol wedi cael eu llofnodi gan Eric Davies a'r Clerc.

Cyngor Tref Llambod

Y Maer: Kistiah Ramaya; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 29 Tachwedd 2012 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Maer.

PLISMONA - Diolchwyd i'r heddlu am eu cymorth ar Sul y Cofio. Nodwyd bod person o Llambed wedi'i garcharu am ladrata

a dwyn siopau. Nodwyd bod alcohol yn dal i gael ei yfed ar Sgwâr Harford er ei fod o fewn y parth di-alcohol.

SUL Y COFIO - Llongyfarchwyd David Smith am weithredu fel marsial yn ystod y gwasanaeth. Diolchwyd i Noel Davies am lenwi'r swydd yn anrhydeddus am gynifer o flynyddoedd.

HYSBYSFWRDD NEWYDD - Ni chafwyd caniatâd i osod yr hysbysfwrdd ar wal y Llyfrgell.

DIOLCH - Derbyniwyd gair o werthfawrogiad oddi wrth Margaret Davies-Evans yn diolch i'r maer a'r cynghorwyr am drefnu'r swper ffarwel ar 21 Medi 2012.

PALMENTYDD - Penderfynwyd holi'r Cyngor Sir roi bariwns ar hyd Ffordd y Porthmyn gan fod ceir yn cael eu parcio ar y palmentydd.

DIOGELWCH - Nodwyd bod coeden wedi cwmpo ym Mharc yr Orsedd. Penderfynwyd archwilio'r coed yn y parc. Penderfynwyd archwilio'r parth chwarae ym Mharc yr Orsedd.

O'r Cynulliad gan Elin Jones



Rwy'n siŵr fod y rhan fwyaf ohonoch yn ymwybodol erbyn hyn fod Bwrdd Iechyd Hywel

Dda wedi cyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwasanaethau iechyd siroedd Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro. Bu llawer o frwydro i gadw ein gwasanaethau ym Mronglais, gan gynnwys y brotest fawr, effeithiol ar risiau'r Senedd yng Nghaerdydd y llynedd ac ymgyrchoedd lleol. Rwy'n falch felly bod y Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi ei bod am gadw'r gwasanaethau craidd presennol ym Mronglais. Fodd bynnag, byddaf yn dal yn gwasgu ar y Bwrdd Iechyd i adfer gwasanaethau iechyd meddwl i ardal Aberystwyth – gwasanaeth sydd wedi diflannu ers i ward Afallon gau.

Rwyf hefyd yn falch iawn i weld fod y Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau y bydd yn symud ymlaen â chynlluniau ar gyfer Canolfannau Adnoddau Lleol newydd yn Aberteifi ac Aberaeron. Maent hefyd wedi datgan eu cefnogaeth i brosiect Cylch Caron, sy'n cael ei ddatblygu gan Gyngor Sir Ceredigion. Gobeithaf yn fawr y gwelwn gynnydd pellach ar y datblygiadau hyn dros y flwyddyn nesaf.

Dwi'n siŵr eich bod yn ymwybodol erbyn hyn fod y gerddoriaeth ar Radio Cymru wedi newid ychydig ers y flwyddyn newydd. Y rheswm am y newid yma yw bod nifer o gerddorion yn anhapus gyda'r tâl llai maent yn ei dderbyn am chwarae eu caneuon wedi i'r PRS israddio statws Radio Cymru fel gorsaf leol. Mae'r cerddorion yn awr wedi sefydlu corff newydd i'w cynrychioli - EOS - a chanol mis Ionawr mi ges i'r fraint o drefnu fod Bryn Fôn, Ysgrifennydd EOS, yn dod i frifio aelodau'r Cynulliad yn y Senedd am yr anghydfod breindaliadau gyda'r BBC.

Yn olaf, roedd hi'n drist iawn clywed y newyddion fod elusen Ffagl Gobaith - elusen hosbis yn y cartref gyda swyddfeydd yn Aberystwyth, Aberteifi a Machynlleth - wedi dod i ben. Dros y blynyddoedd, roeddwn yn gefnogol iawn i waith Ffagl Gobaith ac wedi gweithio'n agos gyda'r elusen. Gobeithaf felly y bydd modd i'r Bwrdd Iechyd ddarparu gwasanaeth tebyg i ddioddefwyr canser yn yr ardal, a pharhau i gynnig cymorth iddynt ar adeg anodd iawn yn eu bywydau.

Seremonïau'r Orsedd - Sir Gaerfyrddin 2014

Hoffech chi chwarae rhan allweddol yn seremonïau Eisteddfod Genedlaethol Sir Gaerfyrddin?

Mae gan Orsedd y Beirdd amryw o seremonïau lliwgar yn yr Eisteddfod ei hun ac yn y Cyhoeddi, a gynhelir yn Sir Gaerfyrddin, ddydd Sadwrn 29 Mehefin, ac ar hyn o bryd, rydym yn gwahodd ceisiadau gan unigolion i fod yn rhan o'r seremonïau. Rydym yn chwilio am y canlynol:

LLAWFORYNION - Angen dwy ferch sydd ar hyn o bryd ym mlynnyddoedd 4, 5 a 6 yn yr ysgol. Byddant yn cynorthwyo y cyflwynydd wrth iddi gyflwyno'r Flodeuged i'r Archdderwydd.

MACWYD - Angen dau fachgen sydd ar hyn o bryd ym mlynnyddoedd 4, 5 neu 6 yn yr ysgol. Byddant yn cynorthwyo'r cyflwynydd wrth iddi gyflwyno'r Corn Hirlas i'r Archdderwydd.

CYFLWYNYDD Y FLODEUGED - Merch ifanc, hawddgar, tua 17-18 oed, un a fedr symud yn urddasol i gerddoriaeth araf y delyn, ac a fedr adrodd ar ei chof eiriau'r cyflwyniad mewn Cymraeg clir a chroyw.

CYFLWYNYDD Y CORN HIRLAS - Cyflwynir y Corn Hirlas gan un o blith mamau'r fro, merch hawddgar, un a fedr symud yn urddasol i fwsig araf y delyn, ac a fedr adrodd ar ei chof eiriau'r cyflwyniad mewn Cymraeg clir a chroyw.

Y DDAWNS FLODAU - Mae angen tua 30 – 34 o ferched sydd ar hyn o bryd ym mlynnyddoedd 4 a 5 yn yr ysgol ar gyfer y ddawns flodau a pherfformir i gyfarch y bardd buddugol yn ystod Seremonïau y Coroni a'r Cadeirio ac hefyd yn ystod Seremoni y Cyhoeddi.

Am fanylion pellach a ffurflen gais ewch i wefan yr Eisteddfod : www.eisteddfod.org.uk neu cysylltwch gyda Sioned Edwards yn Swyddfa'r Eisteddfod: sioned@eisteddfod.org.uk 02920 741 702. Dyddiad cau: Chwefror 16eg 2013.

Ceris Jones
yn trin gwallt yn eich cartref



**Tori a sychu, steilo a lliwio,
cwilo a gosod gwallt ar gyfer
achlysuron arbennig.**

Prisiau rhesymol a
Diwrnod gostyngiad i'r henoed
Ffoniwch: 07738 492613

Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.



Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewiss.co.uk

Hefyd yn/Also i:
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

LING DI LONG

Bwyty Tsieinaidd a Chludfwyd
13 Stryd y Bont, Llambod
01570 422009



Ar agor:
12:00-14:30 a 17:00-23:00

Cynigion arbennig bwffe
ac amser cinio

Darllenwch ein bwydlen
a'n cynigion arbennig ar Facebook

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
**1 Sgwâr Harford,
Llambod**

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.



Cogyddion Ysgol Bro Pedr yn derbyn tystysgrifau wedi iddynt gwblhau cystadleuaeth Cogurdd. Yn y llun gwelir Mr Aled Dafis (beirniad) gyda'r disgyblion. Yn fuddugol oedd Sam Jenkins, yn ail Bryn Jones ac yn gydradd drydydd Nia Beca Jones ac Elan Jones. Da iawn bawb a phob lwc i Sam yn y rownd nesaf.



Rhai o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen Ysgol Bro Pedr yn derbyn plac arian am frwsio dannedd yn yr ysgol dan Gynllun Gwên Ceredigion. Llongyfarchiadau a chofiwch barhau i frwsio eich dannedd.

Ysgol Bro Pedr (Campws Iau)

Cafwyd gwasanaeth Nadolig hyfryd gyda disgyblion o'r ddwy ffês yn cymryd rhan. Casglwyd swm sylweddol tuag at brynu adnoddau i ddisgyblion Canolfan y Bont. Diolch i bawb am eu gwaith caled ac am eu cyfraniadau. Bu Côr yr Ysgol yn perfformio yn y gwasanaeth Carol, Cerdd a Chân yn yr Eglwys a diolch i Mrs A Morgan, Mrs C Lewis a Miss S Davies am eu paratoi ac i'r plant am fod mor barod i gymryd rhan a hynny ar ddechrau'r gwyliau! Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn gweithio'n frwd ar y themâu newydd sydd gyda ni gogyfer â'r tymor yma sef Meithrin a Derbynn – Yr Archfarchnad; blynyddoedd 1 a 2 - Archarwyr; 3 a 4 - Asiantaethau Teithio a 5 a 6 yn dysgu am y Chwedegau. Mae'r themâu yma yn rhan o gwrwicwlwm newydd Cornerstones. Mae Janet Hawkins yn ymweld â'r ysgol ar hyn o bryd i roi gwersi Beiblaidd i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 a diolch iddi am ei gwasanaeth. Bu cwmni Arad Goch yn cyflwyno sioe i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Roedd y perfformiad o safon uchel tu hwnt yn ôl yr arfer a'r disgyblion a'r staff wedi mwynhau ac wedi elwa'n fawr ohono. Bu cerddorfa'r ysgol a'r offerynwyr fflwiwt yn perfformio yn ein gwasanaeth dan gyfarwyddyd yr athrawon teithiol. Roedd yn hyfryd clywed eu perfformiadau aeddfed. Mae disgyblion a staff y Cyfnod Sylfaen wedi derbyn plac Gwobr Arian Cynllun Gwên Ceredigion am frwsio dannedd - da iawn chi blant am frwsio eich dannedd yn yr ysgol a chofiwch barhau i ofalu am eich dannedd. Derbyniodd disgyblion blwyddyn 6 weithdai yn sôn am beryglon alcohol.

Diolch i Miss Pugh am fynd â thîm o ferched i gystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd – roedd yn brofiad i'r merched cael chwarae yn erbyn timau o ysgolion y cylch. Daeth Techniquet i'r Ysgol i roi cyfle i ddisgyblion blynyddoedd 3,4,5 a 6 ymgymryd ag ymchwiliadau ac i ddatrys problemau gwyddonol. Cynhaliwyd cystadleuaeth Cogurdd yn y Campws Hŷn yn ddiweddar a diolch i Mr Aled Dafis am feirniadu'r gystadleuaeth. Gwnaeth pymtheg o ddisgyblion fynd ati i goginio Salad Pasta Machlud Haul a gwneud yn hynod o dda. Daeth Sam Jenkins yn fuddugol a llongyfarchiadau mawr iddo, Bryn Jones yn ail a Nia Beca Jones ac Elan Jones yn gydradd drydydd. Pob hwyl i ti Sam yn y rownd nesaf. Rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant Joseph Saunders sydd wedi cael ei ddewis i fynychu Canolfan Datblygu Pêl-droed Abertawe. Pob hwyl i ti, Joseph. Daeth Mr Hassan i'r ysgol i roi cyflwyniad offerynnau pres i'r disgyblion, Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn ei gwmni a dwi'n siŵr y bydd nifer o'r disgyblion eisiau ymgymryd â gwersi offerynnol ar ôl hyn.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth sydyn tad Mrs Iona Roberts. Cydymdeimlwn yn ddwys fel staff â'r teulu oll yn eu galar.

Ysgol Bro Pedr [Hyn]

Ar hyn o bryd mae disgyblion campws hŷn yr ysgol wrthi'n ymarfer yn ddiwyd ar gyfer yr Eisteddfod. Mae ymarferion amrywiol yn digwydd ar draws yr ysgol, ac mae'r staff a'r disgyblion yn edrych ymlaen at ddiwrnod yn llawn cyffro a chystadlu.

Ar Ionawr 11eg aeth yr adran Addysg Gorfforol â chriw o ddisgyblion yr ysgol i sgïo yn Saalbach yn Awstria. Cafwyd digonedd o eira a thaith yn llawn hwyl. Diolch i'r adran Addysg Gorfforol am drefnu'r daith.

Llongyfarchiadau mawr i Tomos Jones o flwyddyn 7 ar dderbyn ei gap Cymreig am gynrychioli tîm criced Cymru dan 11 oed. Da iawn ti, Tomos!

Llongyfarchiadau mawr hefyd i holl ddisgyblion blwyddyn 13 sydd wedi derbyn cynigion ardderchog i Brifysgolion dros yr wythnosau diwethaf.



Bu Mr Hassan yn Ysgol Bro Pedr yn rhoi cyflwyniad symbylus am offerynnau pres. Yn y llun gwelir Nathan Plant yn cael tro yn chwythu!



Bu Techniquet yn cynnal cyfres o weithgareddau gwyddonol yn yr Ysgol gyda disgyblion blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Bro Pedr



Yng nghystadleuaeth gymnasteg sirol yr Urdd daeth tîm Ysgol Bro Pedr yn ail. Daeth Felipe (yn absennol o'r llun) yn ail yn unigol a Lauren a Samantha yn drydydd yn y parau. Diolch i'w hathro Mr Rees am eu dysgu.

Llanbedr Pont Steffan

Cylch Cinio

Dr Huw Owen o Aberystwyth oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Derbyniodd y gwahoddiad ar fyr rybudd oherwydd methiant yr arlunydd Esther Eckley i ddod wedi iddi dderbyn galwadau annisgwyl. Yn ei eiriau o groeso i bawb, manteisiodd y Llywydd y Bnr. Dan Griffiths ar y cyfle i longyfarch Twynog Davies am ei ddyrchafu'n Gymrawd y Sioe Amaethyddol, y Parchg. Goronwy Evans a'i briod am gyrraedd y nod i godi £1 miliwn ar gyfer Plant mewn Angen ac hefyd y dirprwy, Ceri Davies ar enedigaeth ŵyr.

Brodor o Grosshands yw Dr Owen ac mae bellach wedi ymddeol o'i swydd fel Ceidwad mapiau a darluniau yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae yn arbenigwr ar hanes capeli yng Nghymru ac fel rhagymadrodd i'w araith ar y testun cyfeiriodd at nifer o gyhoeddiadau yn ymwneud â'r maes gan gynnwys ei lyfr yntau. Drwy gyfrwng sleidiau, soniodd wedyn am gapeli cynnar yr Anghydffurfwyr, oll mewn ardaloedd cefn gwlad a chan gynnwys Maesyronnen, y capel hynaf sy'n goroesi. Cyfeiriodd hefyd at Nanhoron, Pen-rhiw, hen gapel SR Llanbrynmair, ac ymysg eraill, Soar y Mynydd. Yn y trefi, soniodd am Gapel Peniel, Tremadog, sy'n debyg i deml o'r cyfnod Clasurol a adeiladwyd yn 1810 ar gais William Maddocks a gafodd ddylanwad mawr ar bensaerniaeth nifer fawr o gapeli a adeiladwyd yn y blynyddoedd wedi hynny. Cawsom weld lluniau sawl un ohonynt.

Canolbwyntiodd yn arbennig ar hanes pump o gapeli Llambled yn y 19 ganrif. Cyfeiriodd at y gwreiddiau cynnar, y twf yn yr aelodaeth erbyn y saithdegau megis yn Soar (adeiladwyd 1873) a Shiloh (1874) ac felly hefyd yn Bron Deifi (1876 - yr adeilad cyntaf) a Noddfa (1898) a'r ymdrechion a fu i glirio'r ddyled ymhob un mor fuan â phosib. Capel St Thomas a ailadeiladwyd yn 1992 yw'r adeilad mwyaf diweddar. I gloi, cawsom ganddo gipolwg ar adeiladau nad ydynt bellach yn addoldai ond sy'n cyflawni gofynion cymunedol eraill.

Y Bnr. Rhys Bebb a ddiolchodd i Dr Huw Owen am noson ddifyr yn llawn gwybodaeth hanesyddol, yn ein hatgoffa am ein treftadaeth a chyflwr ein crefydd ond hefyd yn gorffen ar nodyn gobeithiol.

Ar ddechrau cyfarfod mis Ionawr talwyd teyrnged gan y Llywydd y Bnr. Dan Griffiths i Gary Jones, aelod ffyddlon a phoblogaidd a fu farw'n sydyn yn ddiweddar ac yn yr un modd i gyn-aelod, y diweddar Parchedig Dan Lodwig Jones. Yr oedd Roy Thomas aelod presennol y Cylch yn dathlu 50 mlynedd yn y busnes a sefydlodd yn 1962 a

dymunodd y Llywydd yn dda iddo a'i longyfarch.

Hywel Roderick oedd gwestai'r noson, gŵr a fagwyd ac a gafodd ei addysg yn lleol cyn mynd i'r Coleg Normal ac ennill gradd B.Ed. Fe'i penodwyd yn athro yn Aberporth a bu'n ddirprwy yno cyn symud i Lanwenog ble mae â gofal am yr ysgol. Dros y blynyddoedd mae wedi teithio yn eang iawn dros y byd gyda'i efaill Heulyn a'i ffrind Meirion Jones, yr arlunydd.

Dringo Kilimanjaro, mynydd uchaf Africa (bron 5900m) oedd ei destun, tasg â her sylweddol yn perthyn iddi o wybod bod llai na 50% o ddringwyr yn llwyddo. Fe benderfynodd fynd yn bennaf i godi arian at Elusen Cancr Macmillan ar ôl marwolaeth ffrind agos o'r salwch. Cyflwynodd ei hunan ar ddechrau ei araith yn y wisg arbennig oedd ei hangen arno i geisio cyrraedd y copa. Yr oedd ei gyflwyniad drwy gyfrwng PowerPoint yn cynnwys sleidiau gwyb o wahanol olygfeydd a sefyllfaoedd ar y ddringfa, testun esboniadol a disgrifiadau manwl yn crynhoi'r cyfan.

Cyn ymuno yn Moshi, Tanzania gyda 25 o ddringwyr, bu'n profi ei ffitrwydd, ac yn ystyried yr holl bryderon a pharatoi'r offer priodol. Aeth â ni o ddydd i ddydd gan gyfeirio at waith y porteriaid a sôn am rai problemau, megis effaith y newid yn y tymheredd a'r uchder wrth ddringo, y blinder a'r salwch ymysg rhai aelodau a orfododd iddynt ddychwelyd. Yn ddiau, bu rhan olaf y ddringfa ar y pumed diwrnod yn anodd iawn ond wedyn, y gorfoledd o sefyll ar "Uhuru Peak", y sialens wedi ei chyflawni a swm sylweddol wedi ei godi at yr elusen.

Y Parchedig Goronwy Evans a fu'n cynnig y diolchiadau a rhoddodd longyfarchiadau cynnes iawn i'r siaradwr.

Shiloh a Soar

Roedd Festri Shiloh yn llawn brynhawn dydd Iau Rhagfyr 6 ar gyfer ymweliad Wyn ac Olwen o deulu hanesyddol Tyn-y-braich Dinas Mawddwy. Y llywydd oedd Dorothy Lloyd a hithau wedi ei magu yn yr un ardal. Fel y gwyddom bellach, bu hanes rhyfeddol y teulu yn sail i nofel Angharad Price wrth iddi ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Tŷ Ddewi a'r nofel yn cyfleu pa mor erchyll ac annheg mae bywyd yn medru bod wrth i dri o'r plant farw yn ifanc a thri o'r brodyr fod yn ddall. Fe ddaeth y siaradwyr ag amrywiaeth o offer i'r cyfarfod yn cynnwys lluniau'r teulu, dyddiaduron, hen Feibl William Morgan a siart hanes y teulu yn mynd yn ôl tua mil o flynyddoedd. Dangoswyd ffilm

a wnaed rhai blynyddoedd yn ôl bellach gan y BBC a'r lluniau yn cyfleu nid yn unig ogoniant y tirlun a Chwm Maesglasau ond y ffordd arbennig roedd y tri brawd wedi ceisio gorchfygu eu dallineb a thyfu i fod yn ysgolheigion o fri.

Fe wnaeth ein gwesteion gyflwyno hanes y teulu mewn ffordd gartrefol ac hamddenol ac roedd yn amlwg gymaint roedd yr etifeddiaeth deuluol yn ei olygu i'r ddau. Mi fyddwn yn cysylltu Maesglasau hefyd gyda'r emynydd Hugh Jones a ysgrifennodd un o emynau mawr yr iaith Gymraeg "O Tyn y Gorchudd yn y Mynydd hyn" a braf oedd clywed parti o ddynion o Ddinas Mawddwy yn canu gosodiad o'r emyn ar y ffilm.

Hyfrydwch pur hefyd oedd cael croesawu ffrindiau o eglwysi'r cylch atom i'r cyfarfod arbennig yma. Bu y Canon Winzie Richards a'i briod Mair yn byw yn Llanymawddwy am flwyddyn ond mi soniodd am rai o gymeriadau'r fro, yn cynnwys ambell un o'r "poachers" a oedd yn enwog ymysg y ffermwyr! Twynog Davies gafodd y fraint o ddiolch i Wyn ac Olwen Jones am brynhawn a erys yn hir yn y cof. Dyma yn wir oedd hanes teulu cyffredin o Feirionnydd a dyfodd i fod yn gwbl anghyffredin a does ddim rhyfedd fod nofel Angharad Price bellach wedi ei chyfieithu i sawl iaith gan fod stori'r teulu yn rhyfeddol a dweud y lleiaf. Efallai yn wir y dylai pawb ohonom "gyfrif ein bendithion".

Banc Bwyd Llambled

Yn ddiweddar, fe ddechreuodd gweinidogion eglwysi Llambled gwrdd i drafod â'i gilydd drwy wahoddiad y Parchedig James Paton Bell. Yn ystod y trafod hwnnw daeth hi'n amlwg fod diddordeb, o gyfeiriad Emaus i ddechrau, ond wedyn yn fwy cyffredinol, i ystyried sefydlu banc bwyd ar y cyd rhwng yr eglwysi. Gwnaed ymholiadau â banciau bwyd cyfagos, ac ychydig cyn y Nadolig fe fu sawl un, gweinidogion ac aelodau, ar ymweliad â banc bwyd eglwys y Santes Anne yn Aberystwyth. Estynnwyd gwahoddiad hefyd i eglwysi di-weinidog fod yn rhan o'r gwaith. Mae'r trefniadau bellach yng ngofal cynrychiolwyr yr eglwysi sy wedi ffurfio pwyllgor llywio.

Beth fydd yn digwydd yw bod asiantaethau (fel y gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft) yn gofyn am help ar ran eu cleient, ac yn llenwi tocyn arbennig sy'n dweud faint o bobl sy yn y teulu. Bydd y banc bwyd wedyn yn derbyn y tocyn ac yn darparu pecyn o fwyd fydd yn ddigonol ar gyfer tri diwrnod, gyda phecynnau gwahanol ar gyfer unigolion, cyplau a theuluoedd. Yn amlwg, nid cymorth tymor hir fydd

pecyn o'r fath, ond mae'n ffordd i helpu mewn gwir argyfwng wrth i'r asiantaethau geisio gwneud trefniadau gwell. Os bydd pethau yn dal heb eu sortio erbyn diwedd y tri diwrnod, mae modd i'r asiantaethau ofyn am hyd at ddau becyn ychwanegol ar gyfer y cleient hwnnw. Mae'n debyg mai'r prif reswm fod galw am gymorth yw oherwydd bod budd-daliadau yn cael eu hatal yn llwyr pan fydd newid yn amgylchiadau'r sawl sy'n cael cymorth.

Felly! Fe fydd cyfle i helpu ar sawl lefel. Yn syth fe fydd angen dechrau casglu rhoddion bwyd, pethau y bydd modd eu cadw nes bod eu hangen. Awgrymir y canlynol:

Brecwast: bagiau te, siwgr, grawnfwyd (cereal), jam.

Cinio bach: pethau mewn tun - cawl, ffa pob, spageti mewn sos, corned beef, ham - i wneud pryd ar dost neu frechdan.

Prif bryd: Bwydydd tun - pastai (fel Fray Bentos), cig mewn greffi/sos, tiwna, tatws, pys, moron, tomatos, ŷd melyn, llysiau eraill. Bwydydd sych mewn pecyn - tatws, reis, pasta.

Amrywiol - unrhyw fwydydd pwddin, sych neu dun; unrhyw siocled; bisgedi; papur tŷ bach.

Fe fydd angen hefyd rhywfaint o arian i dalu am y llinell ffôn ac am fara a llaeth i'w rhoi yn y pecynnau yn ffres. Fe fydd angen help i sortio a phacio bwyd, ac i dderbyn galwadau ffôn. Fe gafwyd storfa dros dro, ond fe fydd angen lle mwy yn y man, tua maint garej, sy'n sych, â chlo ar y drws ac un ai yn Llambled, neu heb fod yn bell. Ydych chi'n gwybod am le o'r fath?

Felly! Os gwelwch yn dda, byddwch yn barod i gyfrannu fel y gallwch. Gobeithio y bydd modd casglu bwyd ym mhob un o'r eglwysi, i'w drosglwyddo i'r Banc Bwyd. Os ydych chi am fwy o wybodaeth, neu os hoffech chi helpu, holwch yn San Pedr, Mynydd Carmel, Shiloh, San Tomos, Emaus, Eglwys Efengylaidd Llambled a Noddfa. Erbyn y tro nesaf, gobeithio y bydd modd darparu manylion cyswllt y sawl sy'n trefnu'r gwirfoddolwyr a'r casglu.

Noddfa

Mewn oedfa gymun a gynhaliwyd yn ddiweddar, llawenydd mawr i'n Gweinidog y Parchedig Jill Tomos oedd croesawu Rob Phillips a'i briod Delyth yn aelodau. Maent wedi ymgartrefu yn Stryd Newydd yn dilyn eu priodas y llynedd. Mae cael dau aelod ifanc newydd yn Noddfa sydd mor barod eu cyfraniad i fywyd yr eglwys yn gaffaeliad mawr.

Ddechrau'r flwyddyn cyflwynwyd rhodd ar ran yr eglwys i Margaret Jones gan ein gweinidog i ddatgan

Llanbedr Pont Steffan

ein gwerthfawrogiad cynnes iddi ar ei hymddeoliad yn dilyn ugain mlynedd o wasanaeth diflino ac ymroddedig fel ysgrifennydd Noddfa. Cyflawnodd ei gwaith ar hyd y blynyddoedd mewn ffordd effeithiol a diffwdan. Ymatebodd Margaret gyda geiriau pwrpasol. Pleser i'n gweinidog oedd cyflwyno a chroesawu'r ysgrifennydd newydd, sef Ann Morgan, aelod gweithgar a ffyddlon arall. Diolchwyd iddi am ei pharodrwydd i ymgymryd â'r swydd ac edrychwn ymlaen at flynyddoedd o gyd weithio hapus. Yr ydym yn ffodus o gael gwasanaeth Ann eisoes fel un o organyddion Noddfa a phleser yw cyhoeddi bod Delyth hefyd wedi cytuno ymuno â'r tim o 5 sydd yn cyflawni'r gwaith gwerthfawr hwn.

Mae eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi yn edrych ymlaen yn eiddgar i groesawu James a Julia, ein cenhadon cyswllt, yn dilyn cyfnod o weithio yn Ne Periw. Mae'r ddau nôl yn eu cartref yn Worthing ers mis Tachwedd a dechrau'r flwyddyn ganwyd eu merch fach, Katie Grace. Bydd y teulu bach yn ymweld â ni ar Fawrth y 9fed a'r 10fed. Nid yw'r manylion terfynol wedi eu cwblhau eto ond y gobaith yw cyfarfod yn Aberduar nos Sadwrn ac yna dod ynghyd i oedfa arbennig ar Sul y Mamau yn Noddfa am 10.30. Bydd James a Julia a'i merch fach yn dychwelyd i Periw ddechrau Ebrill.

Cwrdd Gweddi'r Chwiorydd

Cynhelir Cwrdd Gweddi Chwiorydd y Byd yn Soar ddydd Gwener Mawrth y cyntaf am 2 o'r gloch. Cymerir rhan gan chwiorydd Eglwysi Llambod a'r cylch a rhoddir anerchiad gan Mr. Gareth Jones. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Ysgol Sul Noddfa

Bu'r flwyddyn a aeth heibio yn un llwyddiannus arall yn hanes Ysgol Sul Noddfa. Bu'r plant a'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn nifer o oedfaon yn ystod y flwyddyn yn cynnwys un yn Ysgol Ffynnonbedr ac yna yn mwynhau picnic a gêmâu yn yr haul i ddiweddu'r prynhawn. Roedd cyfraniad yr aelodau yn y Gymanfa Ganu yn un cloddiw a bu criw ohonynt yn diddori aelodau'r 'Ifanc o Galon' yn Neuadd Fictoria.

Yn ôl yr arfer, cynhaliwyd oedfa arbennig yng ngofal yr Ysgol Sul i ddathlu'r Nadolig. Cafwyd cyfuniad o'r traddodiadol a'r cyfoes a phawb yn gwneud eu gwaith gyda graen. Galwodd Santa heibio a bu'n brysur yn dosbarthu anrhegion ac yna bu'r plant, y bobl ifanc a'r oedolion yn

mwynhau te parti ardderchog.

Ar 11 Ionawr bu criw o'r Ysgol Sul yn cyflwyno adloniant i'r Henoed yng Nghartref Hafandeg. Cafwyd amrywiaeth o eitemau safonol ac yn dilyn ychydig o berswâd gan Janet cafwyd dwy eitem gorawl hefyd gyda'r plant, y mamau a'r unig dad oedd yn bresennol yn ymuno i ganu! Roedd y preswylwyr wrth eu bodd ac yn werthfawrogol iawn am gyfraniad ardderchog pawb o'r ieuengaf at yr hynaf. Diolchodd Mrs. Dilys Megicks iddynt am ddod â chymaint o bleser i'r henoed. Cyn troi tuag adre braf oedd cael cyfle i sgwrsio ac i fwynhau paned a danteithion ysgafn.

Cyflwynwyd anrhegion i Janet yn ddiweddar gan Lisa, Elan, Beca a Gwenllian ar ran yr Ysgol Sul fel gwerthfawrogiad am ei gwasanaeth diflino yn ystod y flwyddyn. Talodd hithau deyrnged uchel i'r plant a'r bobl ifanc am eu ffyddlondeb a'u teyrngarwch ac i'r rhieni am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i roi o'u hamser i gynorthwyo yn wythnosol ar nos Wener.

Brynhawn Sadwrn 12 Ionawr aeth y plant a'u rhieni ynghyd ag ambell fam-gu i weld y Panto 'Aladdin' yn Theatr y Werin, Aberystwyth. Yn ôl yr arfer roedd y cynhyrchiad yn un gwyllt llawn hwyl a sbri a'r cyfan yn broffesiynol dros ben. Pan ymddangosodd y Genie roedd pawb yn eu dyblau - mae'n anodd disgrifio'r olygfâ! Mwynhawyd y prynhawn yn fawr iawn.

Mae'r Ysgol Sul wedi ail ddechrau yn dilyn y gwyliau ac mae'r plant wedi dechrau paratoi ar gyfer Oedfa'r Ifanc a gynhelir ar 17 Mawrth.

Cydymdeimlo

Gyda thristwch y cofnodir marwolaeth Aneurin Davies, Tynffynnon ac fe ddanfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at y teulu oll yn eu profedigaeth.

Hefyd, cydymdeimlwn yn ddwys â Sulwen ac Alan Morgan, Llwynbedw, Rhodfa Glynhegog ar golli brawd yng nghyfraith, sef Jack Jones o Gwmsychbant ddechrau'r flwyddyn.

Cydymdeimlir hefyd gyda Dan ac Irene Jones, Penarth, Heol y Bryn a'r teulu ar golli chwaer a modryb annwyl, Hannah Jones a oedd yn 101 oed yng nghartref Henllan, ger Llandysul.

Cydymdeimlir â Mrs Sally Jones, Maerdy, Rhes Harford ar golli ei chwaer, sef Mrs Hannah Price o Aberteifi yn ystod y mis diwethaf.

18 oed

Dathlodd Steffan Jenkins, Tyllwyd, Maestir ei ben-blwydd yn 18oed yn ystod mis Ionawr. Gobeithio Steffan i ti gael dathliad i'w gofio.



Cynhaliodd aelodau Grŵp Trafod Llanbed eu cinio blynyddol a'u noson gyflwyno ym Mhrifysgol y Drindod-Dewi Sant yn ddiweddar. Yn y llun, ar eu heistedd, mae Ann Bellamy, enillydd y Llundain Amaethyddol; Dafydd Lloyd Jones, enillydd y Bwrn Mawr Silwair; Gwynne Davies, Siaradwr Gwadd a Linda Western; Graham Uridge, enillydd y Silwair; David Thomas, 1af am y Gwair gorau. Rhes gefn: Rhodri Evans, Is-gadeirydd; Allan Bellamy, 2ail Clamp silwair; Brinley Davies, 3ydd Gwair; Michael Owen, 2ail Bwrn mawr; Iwan Uridge, enillydd y Clamp silwair; Carwyn Davies, 3ydd Bwrn mawr; Glyn Davies, 2ail Gwair; Teify Jenkins, Cadeirydd a Denley Jenkins, 3ydd Clamp silwair.

Merched y Wawr

Croesawodd Noleen y Llywydd yr aelodau i gyd i gyfarfod mis Rhagfyr.

Llongyfarchodd Irene Jones a'i phriod ar ddathlu ei Priodas Ddiemwnt a mynegodd gydymdeimlad y gangen â Verina Roberts a'r teulu ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith.

Yna, aeth Noleen ymlaen i groesawu ein cogydd am y noson, sef Wayne Delve a'i bartner o Aberteifi. Dywedodd ei fod yn berson adnabyddus ac wedi ennill cystadleuaeth pencampwr Casa Dudley, y gyfres boblogaidd ar S4C. Bu Wayne yn coginio prydau gwrs ar thema Nadoligaidd ac yn arddangos ac egluro ei dechneg a'i grefft arbennig. Ar ôl gwyllo'r arddangosfa, roedd pawb yn awyddus iawn i flasau.

Diolchodd Gwen i Wayne am noson wych - roedd pawb wedi mwynhau ac wedi dysgu llawer a chael ambell gyngor hefyd. Diolchodd Gwen i Veronica, Joan James a Rhiannon Jones am baratoi te, bisgedi a mins peis i bawb.

Cynhaliwyd cyfarfod byr i ddilyn. Diolchodd Noleen i'r aelodau hynny a gymerodd ran mewn gwasanaethau carolau yng nghartref Hafandeg y Sul cynt. Enillydd y raffl oedd Mair Jones.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd nos Lun, Ionawr 14eg 2013. Croesawodd y Llywydd yr aelodau yn gynnes a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb. Canwyd cân y Mudiad gyda Janet yn cyfeilio.

Estynnodd gydymdeimlad dwys i'r aelodau oedd wedi colli anwyliaid dros gyfnod yr Ŵyl a'r flwyddyn newydd, sef Avril Williams, Pat Davies, Ann Lewis, Irene Jones a Glesni Thomas.

Yna aeth ymlaen i groesawu ein gwraig wadd, Angela Skyrme o Landdarog, a oedd wedi dod atom i ddangos casgliad o hetiau. Cafwyd hanes trylwyr am yr holl hetiau o'r bowler i'r fascinator. Fe wnaeth wisgo bron bob un ohonynt ac yn wir roeddent yn edrych yn ddeniadol tu hwnt. Diolchodd Gwynfil Griffiths iddi gan ddweud bod ei chyfraniad wedi bod yn donic mawr i ni gyd. Diolchodd hefyd i Brenda Morgan oedd yng ngofal y te. Enillwyd y raffl gan Mrs Rockingham Gill. Cafwyd cyfarfod busnes byr i ddiweddu'r noson. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 11eg.

Adran yr Urdd Llambod

Daeth llwyddiant ysgubol i dîm pêl-droed yr adran wrth iddynt ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth Sirol yr Urdd. Diolch i Mr John am eu hyfforddi a phob hwyl iddynt ar lefel Cymru ym mis Mai.

Cymdeithas Hanes

Croesawyd pawb gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, i'r Hen Neuadd ar y 15fed o Ionawr i'r ddarlith Gymraeg flynyddol. Ieuan Roberts oedd y siaradwr gwadd, gŵr o Eden, Pwllheli yn wreiddiol, ond mae wedi treulio dros 40 mlynedd yn Llambod, 30 ohonynt fel milfeddyg. Wedi ymddeol, mae Ieuan wedi ymddiddori ym myd natur, a'i destun oedd 'Edward Llwyd, FRS, Llysieuidd, daearegwr, ieithegwr.'

Ganwyd Edward Llwyd yn 1660, yn blentyn siawns, ond cafod ei fagu gan ei dad yn Llanforda. Yn fuan, gwelwyd ei fod yn blentyn galluog ac fe'i addysgwyd yn Ysgol Ramadeg Croesoswallt, a wedyn yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen. Treuliodd gryn amser yn Amgueddfa'r Ashmole, a chadwodd ei gysylltiad â'r fan

Llanbedr Pont Steffan

honno. Yn 1691, fe'i penodwyd yn Geidwad yr Amgueddfa ac ym 1693 gwahoddwyd ef i baratoi erthyglau ar Gymru gyfan, yn seiliedig ar ei brofiadau, ar gyfer argraffiad newydd o Britannia Camden. Cafodd ei symbylu gan hynny i gynllunio cyfrol uchelgeisiol – Archaeologica Britannica, a chyhoeddwyd y gyfrol gyntaf yn 1707. Teithiodd ar hyd a lled y wlad am flynyddoedd yn casglu planhigion, gan nodi'r amrywiaethau a'u henwi yn Lladin. Darganfu dros 40 o blanhigion newydd yn Eryri gan gynnwys Lili'r Wyddfa sydd wedi cael yr enw Lloydia serotina ar ei ôl.

Ymddiddorai'n fawr mewn ffosiliau, gan dynnu lluniau manwl ohonynt a'u catalogio. Ar ei deithiau yn yr ardal yma, cofnododd arysgrif ar garreg yn Eglwys Llanddewi-brefi; y garreg wedi ei hollti'n ddwy erbyn hyn, ac ar wahân ym muriau'r eglwys. Cofnododd iddo weld Cwys yr Ychen Bannog ar fynydd Llanddewi; Carreg Hirfaen rhwng Cellan a Llanycrwys, Maen y Prenfoel (Carreg y Bwci); y bont bren a'r Plas yn Llanfair Clydogau: ffynhonnau iachusol yn Llangybi a Llanwenog. Yn y gogledd, cofnododd yr arysgrif ar garreg Eliseg yn Llangollen ond mae'r geiriau wedi'u herydu gan y tywydd erbyn hyn. Bu farw Edward Llwyd yn 1709 yn ei ystafell yn Amgueddfa Ashmole, ac fe'i claddwyd yn Eglwys Sant Mihangel yn Rhydychen. Sefydlwyd Cymdeithas Edward Llwyd gan y diweddar Dafydd Davies, Rhandirmwyn, a threfnir teithiau natur yn wythnosol ganddi. Yn 2006, cyflwynodd y gymdeithas gofeb i Edward Llwyd yn Eglwys Sant Mihangel, ac mae i'w gweld yn yr Alai Gymreig yno.

Diolchodd y Cadeirydd yn ddiffuant i Ieuan am hanes y gŵr unigryw yma a gyflawnodd gymaint o waith yn ystod ei oes fer ac sy'n cael ei gydnabod yn arloeswr mewn sawl maes. Braint oedd cael gweld copïau o lyfrau Edward Llwyd sy'n cael eu cadw yn Llyfrgell Roderick Bowen yn y Coleg, a diolchwyd i'r Llyfrgellydd am ddod â nhw i'r ddarlith. Diolchwyd hefyd i Sian Jones am ei gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Chwefror 19eg, 7.30yh yn yr Hen Neuadd, pan fydd Penny David yn rhoi hanes 'Garddwr i'r Uchelwyr' - dyddiadur o Gogerddan 1896. Croeso cynnes i bawb.

Gyrfa Chwist Hafan Deg

Ar 16eg o Ionawr cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn:- Dynion – 1af – Joan Lewis, Stryd Newydd, Llambled. Cydradd 2il - Ifan John Jones, Bro Henllys, Felinfach a Mary Jones, Stryd y

Bont, Llambled. Merched – 1af – Beryl Roach, Bro Henllys, Felinfach. 2il – Cathrina Davies, Aberaeron. 3ydd – Lil Thomas, Ffostrasol. Carden Miniature - Dynion – Gwen Davies, Llanwnnen. Merched – Nancy Davies, Heol y Wig, Llambled. Bwrw Allan – Enillwyr – Beryl Roach, Felinfach a Maggie Vaughan, Felinfach. Ail – Ifan John Jones, Felinfach a Nanna Davies, Stryd Newydd, Llambled. Bydd y Gyrfa oedd Chwist mis Chwefror ar y 13eg a 27ain. Croeso cynnes i bawb.

Teyrnged Arbennig i Hazel

Er gwaetha'r glaw a'r gwynt roedd Eglwys Sant Pedr dan ei sang ar gyfer noson wych wedi ei threfnu gan bwyllgor lleol Cymorth Cristnogol sef Carol, Cerdd a Chân. Croesawyd pawb yn gynnes iawn ac offrymwyd gweddi agoriadol gan Y Parchedig Chris Webb. Roedd y grŵp Cwlwm wedi ail ffurfio'n arbennig ar gyfer yr achlysur i ddathlu pum mlynedd ar hugain ers sefydlu'r digwyddiad blynyddol yma ac i dalu teyrnged i'r diweddar Hazel Davies, ysgrifennydd gweithgar ac ymroddgar Cymorth Cristnogol am gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain. Hefyd yn cymryd rhan roedd Côr Merched Corisma, parti llefaru Sarn Helen, Kees Huysmans, Prif Swyddogion Ysgol Bro Pedr a'r Côr Cynradd, Elin Williams, Lowri Daniel ac aelodau'r Urdd. Roedd yn noson wfreiddiol gyda'r cantorion a'r llefarwyr i gyd yn rhoi perfformiadau clodwiw gan greu naws hyfryd y Nadolig. Bu'n deyrnged teilwng iawn i Hazel, trefnydd y noson hon ers y dechrau a'i dymuniad oedd gweld Cwlwm yn dychwelyd i ganu am fod y merched yn rhan o'r noson yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Bu'r Parch Tom Defis, ysgrifennydd Rhanbarthol Cymorth Cristnogol, yn ein hannerch a soniodd am ei lawenydd yn cael bod yn bresennol. Cyfeiriodd at wasanaeth amhrisiadwy Hazel i'r achos ac fe'n hatgoffodd fod Cymorth Cristnogol yn rhoi gobaith i dlodion y byd drwy wneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau.

Talodd Mair Richards, cadeirydd pwyllgor Cymorth Cristnogol ddiolch haeddiannol i bawb oedd wedi cymryd rhan ac yn enwedig i Cwlwm am ddod nôl at ei gilydd ar ôl un mlynedd ar ddeg ac am ganu'n well nag erioed. Diolchodd hefyd i Ficer a wardeiniaid San Pedr am bob cydweithrediad, i Elonwy Pugh am ei gwasanaeth wrth yr organ, i'r dynion wrth y drysau, ac i Janet am drefnu'r noson. Codwyd swm anrhydeddus o £1441.50 tuag at achos teilwng Cymorth Cristnogol. Diolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd tuag at noson fythgofiadwy.



Parti Cwlwm a ddaeth yn ôl at ei gilydd, i ganu yn y cyngerdd 'Carol, Cerdd a Chân' yn Eglwys San Pedr, Llambled, o'r chwith, mae Sian Cothi, Delyth Medi, Eleri Twynog, Elin Jones, a Hedydd Thomas.

Llanfair Clydogau

Canu Carolau

Cynhaliwyd gwasanaeth carolau blynyddol y pentref yng Nghapel Mair eleni ddydd Sul, Rhagfyr 16eg. Daeth nifer dda ynghyd gyda Ian Evans, Esgairmaen yn estyn croeso cynnes i bawb a John Martin, un o drigolion y pentref yn gyfrifol am y gwasanaeth. Cawsom neges bwrpasol a thymhorol gyda darlleniadau gan Deborah Jones, Llanfair Fach, Paula Barker, Tŷ Coch, Alan Leech, Tan yr Esgair a Dan Griffiths, Pengarn. Canwyd solo swynol iawn gan Llinos Thomas, Awelon, y tro cyntaf iddi ganu ar ei phen ei hun yn gyhoeddus. Roedd yn bleser clywed y canu. Diolch i Eleri Davies, Pentre am gyfeilio y rhan gyntaf ac i Aerwen Griffiths am gyfeilio yr ail ran ac i'r ddwy ohonynt am drefnu yr holl wasanaeth. Rhoddwyd y fendith gan y Parchedig Bill Fillery. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael at y casgliad tuag at Ambiwylans Awyr Cymru.

Yn ychwanegol, aeth nifer o drigolion y pentref o amgylch ar ddwy noson i ganu carolau a chasglu arian at yr un achos. Yr ail noson, aeth pawb yn ôl i'r neuadd i gymdeithasu dros gawl twym a mins peis. Casglwyd swm sylweddol o £581.61 a chyflwynwyd siec am y swm yma i Ros Jones, cynrychiolydd Ambiwylans Awyr Cymru, gan Dai Jones, Llanfair Fach, cadeirydd pwyllgor neuadd Llanfair. Yn y llun ar dudalen 25 mae aelodau Capel Mair a phwyllgor neuadd y pentref.

Nos Galan

Cafwyd noson o ddathlu, cymdeithasu a dawnsio hyfryd pan ddaeth nifer dda o bobol y pentref a'u ffrindiau i'r neuadd i groesawu'r flwyddyn newydd.

Diolch i Lesley Stevens unwaith eto am ddarparu miwsig mor addas ar gyfer y noson.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Sian Thomas, Pentrelan, a Kevin Douch o Lansawel sydd wedi dyweddïo yn ddiweddar. Mae Sian yn ferch i Peter Thomas ac yn wyres i Jean Thomas, gynt o Pantunnos.

Casgliad Marie Curie

Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu at y casgliad yma ar Heol Llanfair yn ystod mis Rhagfyr. Codwyd swm o £150. Bydd yr arian yn mynd i wneud yn siŵr bod rhywun ag afiechyd terfynol yn cael cymorth ymarferol a chefnogaeth emosiynol gan nyrs 'Marie Curie' yn eu cartref.

Malcolm Jefferies

Trist iawn oedd pawb a adnabu Malcolm wrth glywed am ei farwolaeth yr wythnos ddiwethaf. Bu yn byw yn Plas Bach, Heol Llanfair, gyda Primrose ei wraig am dros ddeng mlynedd ac yn ystod yr amser hynny mi gyfrannodd yn helaeth i fudiadau lleol a bu'n weithgar yn ymchwilio hanesion eglwysi yng Ngheredigion. Roedd Malcolm yn meddwl y byd o Lanfair, 'y lle gorau yn y byd' meddai bob amser. Roedd yn drist iawn pan bu'n rhaid iddynt symud yn ôl i Loegr er mwyn bod yn agos at eu plant â'i ieuchyd yntau yn dirywio.

Cyngor y Gymuned

Yn eu pwyllgor yn ddiweddar penderfynodd yr aelodau drin y dirywiad yng nghyflwr yr heolydd yn ein pentref ni a Chellan. Roedd pawb yn teimlo nad yw Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi y gofal a'r gwaith sydd ei angen i gadw yr hewlydd yn glir o ddŵr, cerrig mân a mawr, mwd a thyllau sydd yn eu gwneud yn beryglus iawn. Penderfynwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir i fynegi ein pryder am eu cyflwr, ac am gyflwr y rhwyllau hefyd sydd yn llawn dail a cherrig a hynny'n golygu bod dŵr yn aros a chasglu mewn pyllau mawr.

Y Wiwer Goch

Daeth newydd bendigedig i bentrefwyr Llanfair beth amser yn ôl pan ddywedodd y Cwmni Coedwigoedd sydd wedi bod yn torri coed yng nghyffiniau Llyn y Gwaith eu bod wedi gweld y wiwer goch yno. Maen nhw nawr yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Wiwer Goch Cymru i wneud popeth sy'n bosib i helpu'r wiwer goch i ail sefydlu yn ein hardal.

Drefach a Llanwenog

C.Ff.I. Llanwenog

Cyfnod prysur iawn i'r clwb oedd mis Rhagfyr a Ionawr. Dathlwyd y Nadolig mewn steil, wrth i aelodau'r clwb fwynhau yn ein parti Nadolig a gwisgo gwisg ffansi Nadoligaidd, addurno cacennau bach Nadoligaidd yng ngofal Wendy Davies, chwerthin ym mhanto Felinfach wrth wyllo un o'n haelodau Gethin Hatcher yn actio, a heb anghofio'r dartiau twrci. Llongyfarchiadau i Geraint Hatcher am ddod i'r brig ac i Guto Jones am ennill gwobr yr aelod gorau. Aeth y clwb ar dramp o gwmpas y Plwyf a thu hwnt yn canu carolau. Eleni, casglwyd swm anrhydeddus o £1,245 i'r clwb ac at Sefydliad y Galon.

Braf oedd mynd i Ddawns ein Brenhines, Gwennan Davies yn Aberystwyth ym mis Ionawr. Roedd hi a Cerys Lloyd, morwyn y sir, yn edrych yn hyfryd unwaith eto yn eu ffrogiau piws. Dawnsio a llawer o chwerthin!

Y siarad cyhoeddus Saesneg oedd y gystadleuaeth bwysig y mis hwn a daeth y clwb yn ail ar ddiwedd y cystadlu. Llongyfarchiadau i nifer o'n haelodau am glebran a siarad yn fedrus! Dyma'r canlyniadau: Dan 14: Rhys Davies yn 1af fel Cadeirydd, a daeth y tîm yn 1af (Meinir Davies, Rhys Davies a Iwan Evans). O dan 16: Gwawr Hatcher yn ail a Wyn Davies yn 3ydd fel cadeiryddion, Sioned Fflur yn 1af a Lauren Jones yn ail fel siaradwyr a Rhys Davies yn 1af, Sophie Jones yn ail a Meleri Davies yn 3ydd am ddiolch. Daeth tîm Gwawr, Sophie a Lauren yn 1af. Dan 21: Sioned Fflur yn cipio'r wobwr 1af am gadeirio a daeth y tîm yn 3ydd (Sioned Fflur, Carwyn Davies, Sioned Davies a Meleri Davies). Dan 26: Luned Mair yn 1af am gadeirio, ac Enfys Hatcher yn ail am siarad. Daeth tîm Enfys, Luned a Cerys Lloyd yn ail. Pob hwyl i Rhys, Enfys, Sioned Fflur a Luned yng Nghymru.

Ar ôl stwffio dros y Dolig, bu'r aelodau'n gwneud peth ymarfer corff ym mis Ionawr wrth ddawnsio 'Zumba'! Ar ôl chwysu a chadw'n heini wrth ddawnsio, coginio pancws oedd y gweithgaredd nesaf ac yna cafwyd noson hwylus yng ngofal Elin Mair wrth i ni ddysgu Sbaeneg.

Nos Sadwrn y 26ain, bu'r clwb yn stwffio a bwyta eto, yn ein cinio blynyddol y tro hwn. Llongyfarchiadau mawr i Luned Mair am ennill cwpan yr aelod hŷn mwyaf gweithgar ac i Meinir Davies am gael ei dewis yn aelod iau mwyaf gweithgar. Dwy sy'n haeddu'r wobwr 'sdim dowl'.

Y Gymdeithas Hŷn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr ar y 9fed o'r mis yn Festri Capel-y-Cwm, Cwmsychbant, a daeth dros 20 o aelodau ynghyd. Croesawyd hwy gan Dilwen George, y Cadeirydd, a da oedd cael croesawu wynebnewydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth 7 aelod arall.

Trist oedd cydymdeimlo yn eu habsenoldeb â Dan ac Irene Jones, wedi i Dan golli Hannah ei chwaer, gynt o Cwmnant, a hithau'n 101. Cofiwyd hefyd am gyn-aelodau a fu farw ddiwedd y flwyddyn, sef Rachel Davies, Afonog a Joyce Williams, Pleasant Hill. Cydymdeimlir yn fawr a'u teuluoedd. Ar nodyn hapusach, clywyd fod tair aelod naill ai wedi, neu ar fin dathlu pen-blwydd a dymunwyd yn dda iddynt i gyd.

Darllenwyd cofnodion mis Tachwedd a mis Rhagfyr, a chynigiwyd eu bod yn gywir. Croesawyd y Prif-fardd Idris Reynolds yn gynnes i'n plith gan y Cadeirydd, gan gyfeirio at ei lwyddiant yn y byd Eisteddfodol, ei ran yn Talwrn y Beirdd, yn cynnal dosbarthiadau cynganeddu, a'i ddiddordeb ym myd pêl-droed, yn enwedig fel cefnogwr Abertawe. Testun ei ddarlith oedd 'Dic Jones, Yr Hendre.' Diflannodd awr fel petai'n bum munud wrth iddo adrodd hanes y gŵr unigryw yma. Cafwyd ei hanes o'i eni yn ardal Taliesin, i'w fagwraeth a'i waith ym Mlaenannerch. Dysgodd gynganeddu wrth ymweld â Fferm y Cilie ac fe'i symbylwyd i ddechrau cystadlu gan Y Parch. a Mrs Tegryn Davies, arweinwyr Aelwyd yr Urdd yn Aberporth. Enillodd Dic gadair Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd bump o weithiau cyn iddo fod yn 25 oed, y tro olaf yn Llambled yn

1959. Enillodd gadair y Genedlaethol ddwywaith. Soniwyd am ei deulu, ei amser ar Talwrn y Beirdd, yn traddodi beirniadaethau ar gyfer cystadleuaeth y Gadair fwy nag unwaith heb nodyn o'i flaen, ei amser fel Archdderwydd Cymru, ei salwch a'i golli yn ystod y cyfnod hwnnw. Dyfynnodd Idris yn helaeth o waith Dic gan braidd edrych ar ei nodiadau, a chafodd ymateb da gan ei gynulleidfa.

Diolchwyd yn gynnes i Idris gan Dilwen George a hithau'n rhyfeddu at ei gof aruthrol ac yn cyfleu gwerthfawrogiad yr aelodau wrth gael y fath fwyniant yn gwrando ar ei ddarlith.

Mwynhawyd lluniaeth oedd wedi ei baratoi gan wragedd Capel-y-Cwm, a diolchwyd iddynt gan Brenda Jones. Diolchodd hefyd i'r gweinidog a'r aelodau am fodloni i'r Gymdeithas gael dod i'r Cwm unwaith yn rhagor.

Cyfarfod nesaf:- Eglwys Llanwenog ar y 13eg o fis Chwefror, a'r wraig wadd bydd Margaret Griffiths, Crugywhil.

Eglwys Santes Gwenog.

I ddathlu tymor y Nadolig cynhaliwyd gwasanaethau traddodiadol yr ŵyl yn yr eglwys. Dilynwyd tymor yr Adfent gan wasanaeth y naw llith a charol. Darllenwyd y llithiau gan aelodau'r eglwys yn cynnwys dau aelod ifanc, sef Tomos a Jac. Mrs Pauline Roberts Jones oedd yr organyddes a chanwyd y carolau yn frwdfrydig iawn. I ddiweddur'r gwasanaeth mwynhawyd lluniaeth tymhorol yn yr eglwys fach. Diolch i'r gwagedd am y lluniaeth a'r addurniadau hyfryd. Noswyl Nadolig daeth tyrfa dda ynghyd i ymuno yng ngwasanaeth y Cymun Bendigaidd. Diolchwn i'r ficer, y Parchedig Suzy Bale am ei harweiniad.

Prynhawn Sul 30ain o Ragfyr bedyddiwyd dau fachgen ifanc sef Edward a Francis Weedon, Red Lion, Cwrtnewydd. Croeso cynnes iddynt i deulu'r eglwys.

Llongyfarchiadau ar ddyweddïad dau gwpwl ifanc, sef Gwennan a Carwyn (Llysderi a Llambled) a

Charlotte a Mathew (Rhiwson Isaf a Llambled). Dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol. Cafwyd noson bleserus yn canu Carolau yn y Llew Du, Llanybydder yng nghwmni athrawon a phlant ysgol Llanwenog ac aelodau C.Ff.I. Llanwenog. Diolch yn fawr i bawb am eitemau difyr a diddorol.

Ymunodd Mary, Caroline a Nia gydag aelodau eglwys Llanybydder a Llanwnnen i ganu ym Mhlygain y Ddeoniaeth yn Eglwys Cwmann. Bu'n noson lwyddiannus iawn. Derbyniwyd croeso cynnes gan yr Archddiacon y Parchedig William Strange a'r Parch Phillip Davies, y Deon Gwlad. Diolch i wragedd yr eglwys am baratoi lluniaeth tymhorol.

Cynhaliwyd cyfarfod y P.C.C yn yr eglwys yn ddiweddar i drafod materion ariannol a chyffredin. Penderfynwyd cynnal Cwis gyda lluniaeth yn dilyn ar yr 8fed o Chwefror. Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n anhwylyd. Cofiwn yn arbennig am Mrs Bronwen Jones, Greenhill sydd wedi treulio amser yn Ysbyty Glangwili ond wedi dod adref erbyn hyn. Cofiwn hefyd am y teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar.

CLWB 100 Rhagfyr

1. Emyr Jones, Awelon. 2. Jen Clive-Powell, Pontbren-ddu. 3. Ian Jones. Cwmsychbant.

Alltyblaca

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd John Holmes, 19 Bro Teifi ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr iawn.

Diolch

Dymuna John Holmes, 19 Bro Teifi ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar. Gwerthfawrogi y cyfan yn fawr iawn.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys gyda theulu Lyn Davies, Hiraul, Bro Teifi a fu farw yn ystod diwedd Ionawr.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boes yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

1			3		9
	6	3			7
		4	8	7	
	4				5 6
	1		4	9	2
2	3				4
			8	9	1
		6			2 8
	9		4		3

Atebion Swdocw

mis Rhagfyr:

Llongyfarchiadau i:
Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder ac i bawb arall am gystadlu:
Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder;
Glenys Davies,
Rhydybont, Llanybydder;
H Jones, Penbryn,
Llanbed; John Jones,
The Cottage, Llanbed;
Bethan Williams,
Neuadd Fryn, Llanybydder;
Eirlys Davies, Rhydybont, Llanybydder, Teifion
Williams, Bronallt, Llangadog a Rob Phillips, Llety Clud, Llanbed..

6	9	5	4	8	2	1	3	7
3	7	4	1	6	5	8	2	9
8	2	1	9	3	7	6	5	4
1	3	9	5	4	6	7	8	2
5	6	8	2	7	1	4	9	3
7	4	2	3	9	8	5	1	6
2	8	7	6	5	3	9	4	1
9	5	3	7	1	4	2	6	8
4	1	6	8	2	9	3	7	5

Colli pobol – a iaith?

Does yna ddim rheswm yn y peth ond, weithiau, mae ambell aea'n anarferol o greulon. Weithiau, mi fydd gwlad neu ardal yn cael un brofedigaeth ar ôl y llall. I ni, mae'r gae' yma'n un o'r rheiny a sawl aelwyd wedi'i siglo gan golled, weithiau'n ddolurus o gynnar.

Yng nghornel fach Llanwnnen o'r byd, roedd y colledion yn cynnwys dau o gonglfeini'r gymdeithas- Joyce Williams ac Aneurin Tynffynnon. Colli'r ddau, yn eu ffordd, yn arwydd o bethau'n newid.

Yng Nghapel y Groes, mae'r bwlch yn amlwg, yn union yn y canol, lle'r oedd Joyce yn arfer eistedd yn selog a ffyddlon. Yn dawel ei ffordd, ond yn gwbl deyrngar; yn gefnogol ac yn gadarn.

Mi fydd y golled ar ôl Aneurin yn amlwg hefyd, mewn llefydd fel y cyngor bro, y bwth pleidleisio yn neuadd fach Llanwnnen ac, wrth gws, i wneuthurwyr capiau baseball y byd.

Un o'r troeon cyntaf i fi gofio Aneurin yn iawn oedd wrth bleidleisio ac yntau wedi defnyddio plastig du bagiau beindo i greu'r wal statudol yna rhwng y blychau a'r tu allan. Ac mae un stori ddiweddarach o'r bwth yn cyfleu ei frwdfrydedd a'i anwyldeb ...

Mis Mai 1999 oedd hi ac un o gymdogion Aneurin, Elin Jones, yn sefyll yn etholiadau cynta'r Cynulliad Cenedlaethol. Ac, ar yr un diwrnod, roedd etholiadau'r cyngor sir hefyd.

Y bwth yn Llanwnnen mor gartrefol ac erioed, gydag Aneurin a Magw Cwmhendryd, ac ambell i ddarn o gacen. Ac Aneurin mor awyddus i helpu ag erioed yn torri pob rheol ynglŷn â bod yn ddiduedd.

"Dyma'r bocs ar gyfer y cyngor sir," meddai. "A dyma focs Elin Tynllyn."

Mae ffigurau manwl y Cyfrifiad yn dangos beth y mae cenhedlaeth Joyce ac Aneurin yn ei gynrychioli. Nhw, mae peryg, yw'r to ola' i allu byw mewn cymdeithas yng Ngheredigion oedd fwy neu lai'n gwbl Gymraeg.

Bellach, mae llai na 60% o bobol plwyfi Llanwnnen a Llanwenog yn gallu siarad Cymraeg ond, mewn gwirionedd, mae'r ffigurau'n waeth na hynny. Oni bai am lwyddiant yr ysgolion yn dysgu'r iaith i'r plant, mi fydden ni'n nes at 50% - dim ond hanner y boblogaeth.

Rhwng y ddau Gyfrifiad, yn 2001 a 2011, roedd y cwmp mwy ymhlith cenhedlaeth Joyce ac Aneurin – mae canran y siaradwyr Cymraeg dros 65 wedi cwmpo o 63.9% i 53.3%, a does dim angen dewin i resymu pam.

Mae yna chwarter canrif ers i ni symud i'r ardal a, bryd hynny hyd yn oed, ychydig iawn o bobol leol neu siaradwyr Cymraeg oedd yn swyddfeydd yr arwerthwyr yn chwilio am dai. Pobol o'r tu allan oedd y gweddill; y rhan fwy o'r ochr draw i Glawdd Offa.

Mae'r ffigurau'n awgrymu mai pobol yn oedran pensiwn oedd llawer o'r rheiny, yn symud i ardal braf i fyw, yn rhai o'r tai a'r bythynnod cyfleus sy'n britho cyrion ein pentrefi, gyda'u gerddi neu glytiau o dir.

Ni sydd wedi gwerthu, wrth gws, a ni sydd wedi methu â dangos i'r newydd-ddyfodiaid pam fod y Gymraeg yn bwysig, ond trefn economaidd ddidostur a rheolau cynllunio rhy faterol sydd wedi creu'r amodau.

Bellach, wnaiff y Gymraeg ddim ffynnu heb inni ennill y trigolion newydd neu, o leia', heb wneud yn siŵr bod eu plant yn dod i ddefnyddio'r iaith. Mae naw o bob deg o dan 15 yn gallu ei siarad hi ym mhlwyfi Llanwnnen a Llanwenog – y cwestiwn ydi a wnan' nhw?

A'r cwestiwn llawer mwy – be wnawn ni i wneud yn siŵr fod hynny'n digwydd ac i wneud yn siŵr na fydd pobol yn symud i'r ardal yma heb gydnabod a dysgu'r Gymraeg?

Ond dyna'r neges. Iaith pobol ifanc ydi'r Gymraeg erbyn hyn ac mae hynny'n golygu gobaith. Y Ffermwyr Ifanc ydi elfen fwy' byrlymus ein cymunedau ni ac un o'r seiliau pwysica' ar gyfer y dyfodol.

Achos mae yna elfen amlwg arall y tu cefn i ffigurau'r Cyfrifiad. Colli pobol fel Joyce ac Aneurin, asgwrn cefn y gymdeithas fel yr oedd hi.



"Dewch i Ddathlu"

Braf yw cael bod nôl yn y gegin i rannu mwy o rysetiau a chyfrinachau cegin 'Clonc' dros y flwyddyn sydd i ddod. Gyda iâ mis Ionawr wedi toddi mae gennym ddigon i'w ddathlu ym mis Chwefror

Cofiwch, bydd rhaid paratoi pancws ar 'Ddydd Mawrth Ynyd' a'u gweld yn diflannu cyn iddynt gael cyfle i oeri. Os anghofioch chi 'Ddydd Santes Dwynwen' cewch gyfle i wneud iawn am hynny ar 'Ddydd Sant Ffolant'. Wrth agosáu at ddiwedd y mis 'Cawl' fydd yn cynhesu'r galon a hynny yn ein harwain at ddathliad pwysig arall sef 'Dydd Gŵyl Ddewi'.

Yn dilyn y llwyddiant llynedd, rwyf wedi trefnu diwrnod arall yn y 'Goedwig' i ddathlu. Manylion i ddilyn,

Mwynhewch,
Gareth

Dwy Rysait Gymreig

Tatw rhost a Bacwn (neu Tato tramp)

Cynhwysion (Digon i 4)

- 8 sleisen dew o facwn wedi'u darnio.
- Un llond llwy fwrdd o olew
- 25gram o fenyn
- 2 winwsyn neu 2 genhinen wedi'u sleisio.
- 1 kg o datws wedi'u crafu a'u sleisio'n denau.
- 1 peint o stoc llysiau.

Dull

1. Trowch y ffwrn i 190°C; 375°F; Nwy 5. Cynheswch yr olew mewn 'casserole' a choginiwch y bacwn am tua 6 munud, yna i mewn â'r winws neu'r cennin a choginiwch am 5 i 10 munud nes bod y cyfan yn euraidd. Ychwanegwch y tatws a'r stoc llysiau, ac ychydig bupur i'w flasu. Dewch â'r cyfan i'r berw.
2. Gorchuddiwch a rhowch yn y ffwrn am 30 - 40 o funudau. Codwch y clawr a choginiwch heb y clawr am 20 munud. Sgeintiwch â phersli a gweinwch.



Pwdin Mynwy

Cynhwysion

- ¾ peint o laeth
- 25gram o siwgwr mân
- Croen un lemwn
- 175gm o friwsion bara gwyn
- 2 ŵy wedi'u rhannu
- 4 llond llwy fwrdd o jam coch

Dull

1. Rhowch y laeth, y croen lemwn a'r siwgwr mewn sosban a dewch i'r berw. Rhowch y briwsion yn y gymysgedd a gadewch am ¼ awr.
2. Trowch y ffwrn i 150°C; 300°F; Nwy 2. Irwch ddysgl 9 modfedd a fedr ddal gwres.
3. Plygwch y melyn ŵy i'r gymysgedd bara. Curwch y gwyn ŵy a phlygwch i'r gymysgedd. Toddwch y jam. Gosodwch hanner ar waelod y ddysgl, yna ½ y gymysgedd a mwy o'r jam ac yna gweddill y bara.
4. Pobwch am 30 i 40 o funudau nes bod lliw euraidd ar y cyfan. Gweinwch yn gynnes gyda hufen.



Gwledd Gŵyl Ddewi

Yng Nghegin Gareth

DIWRNOD CAWL CENNIN A CHLONC

ar Fawrth 1af.

Patrwm y dydd.

Cyrraedd erbyn 10.30 y bore am goffi a danteithion.

11.00 – 1.00 Arddangosfa goginio gyda chynnyrch

Cymreig.

1.15 ymlaen, Cinio Cymreig (3 chws)

Lleoliad – Goedwig, Heol Llanwnnen.

Pris £15.00

i archebu – 01570 422 313



Cegin Gareth

Goedwig

Llanbedr P.S.

SA48 7JP

01570 422 313

Blodau

Cacennau

Dathliadau

Partion

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad llwyrat a dwysaf at deulu Brynrhosyn yn dilyn marwolaeth Mrs Sally Davies, mam a mam-gu annwyl iawn yn Ysbyty Llanymddyfri yn ystod dyddiau cyntaf mis Ionawr. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys yn Eglwys Sant Luc, Llanllwni.

Seiclo o amgylch Cymru – Lap o Gymru 2013.

Bydd 9 o feicwyr yn seiclo 687.8 milltir mewn 9 diwrnod o amgylch Cymru i godi arian tuag at Ymchwil Cancr.

Am mwy o wybodaeth, cysylltwch â Llyr Davies ar Lapofwales2013@hotmail.co.uk

Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Daeth y chwiorydd ynghyd yn y Ffestri brynhawn dydd Llun, Tachwedd 10fed. Croesawodd ein Gweinidog Jill Tomos, chwiorydd Capel Rhydybont a chwiorydd yr Eglwys a'r Ficer Suzie Bale atom i ddathlu Te Nadolig. Treuliodd y chwiorydd brynhawn hwylus dros ben gan ganu Carolau gyda'n gilydd i ddathlu'r Wyl. Braf oedd gweld pob un yn cymdeithasu gyda'i gilydd.

Paratowyd y lluniaeth Nadolig gan chwiorydd Aberduar.

Fe fydd y chwiorydd yn cwrdd ar Chwefror 13eg i drafod yr Arwerthiant Blynnyddol a fydd yn cael ei gynnal nos Fercher, Mawrth 20fed. Agorir yr Arwerthiant eleni gan Ronald Davies, Glennydd gynt.

Cerdd

Llongyfarchiadau i Rhian Davies, Cwm Golygfa, Rhydcymerau, ar basio arholiad piano Gradd 1 gydag anrhydedd; i Elin Davies, Tynrug Isaf, ar basio arholiad piano Gradd 4 gyda theilyngdod; i Betsan Jones, High View, Llanllwni, ar basio arholiad piano Gradd 5 ac hefyd i Meleri Davies, Tynrug isaf ar basio arholiad piano Gradd 7. Mae'r arholiadau o dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol. Llongyfarchiadau i chi gynt.

Eglwys Sant Pedr

Mi fuodd mis Rhagfyr yn brysur ofnadwy i aelodau yr Eglwys, gan ddechrau gyda bore o addurno a glanhau er mwyn paratoi yr Eglwys ar gyfer dathliadau'r Nadolig. Diolch i bawb a ddaeth i helpu.

Nos Sul y 9fed o Ragfyr, cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig Côr Lleisiau'r Werin yn yr Eglwys. Roedd yr arian a godwyd yn y cyngerdd yn mynd tuag at Ysbyty Llandochau, Caerdydd, oherwydd fod Cynthia Butcher, gynt o Heol-y-Gaer, merch Eurwyn a Irene, wedi cael triniaeth a gofal hynod o dda yn yr ysbyty yma wrth iddi ymladd yn erbyn cancr. Diolch i Gôr Lleisiau'r Werin am drefnu'r cyngerdd ac am ganu mor arbennig ar y noson. Braf oedd gweld merched Ysgol Sul yr Eglwys yn canu yn y cyngerdd. Roeddynt yn edrych yn arbennig yn eu gwisgoedd Nadoligaidd! Diolch i Susan a Kay am baratoi'r merched ar gyfer y cyngerdd. Rhaid diolch i aelodau'r Eglwys am roi lluniaeth i'r artistiaid ar ddiwedd y cyngerdd ac am bob cymorth wrth i ni drefnu a chynnal y noson arbennig yma.

Ddydd Sul 16eg o Ragfyr, gwnaeth plant yr ysgol Sul fwynhau clywed stori'r geni a gwneud anrhegion Nadolig ar gyfer eu rhieni gyda Kay, Susan a Vicky. Diolch i'r plant am ddod i'r Ysgol Sul ac i'w rhieni ac aelodau'r Eglwys am ddod i'r cwrdd. Diolch i Heather a Steve am y lluniaeth ar ôl y cwrdd.

Cynhaliwyd gwasanaeth 9 llith a charol yr Eglwys nos Sul 23ain o Ragfyr. Braf oedd cael llawer o aelodau gwahanol yn darllen barddoniaeth a darnau o'r Beibl, a hyfryd oedd cael y merched yn canu caneuon y Nadolig. Ar ddiwedd y gwasanaeth, rhoddodd Kay anrhegion Nadolig i ferched yr Ysgol Sul oddi-wrth yr Eglwys fel arwydd o'n gwerthfawrogiad am bopeth maent wedi ei wneud yn yr Eglwys ers i'r Ysgol Sul ddechrau. Diolch i chi ferched am ddod i'r Ysgol Sul, ac edrychwn ymlaen i'r flwyddyn newydd er mwyn i ni ddechrau eto! Diolch i bawb am gymryd rhan yn y gwasanaeth 9 llith a charol ac i'r rhai a drefnodd y cyfan.

Gorffennwyd ein dathliadau Nadolig yn ein gwasanaeth Midnight Mass ar nos Lun 24ain Rhagfyr pan ddaeth cynulleidfâ dda at ei gilydd i ddathlu.

Diolch i Heather, Avril a Kay am fod yn rhan o barti canu eglwysy Llanbydder, Llanwenog a Llanwnnen yng ngwasanaeth y Plygain yn Eglwys Cwmann ddechrau'r flwyddyn.

Dydd Sul, 13eg Ionawr, tro Susan a Jean oedd e' i baratoi a chynnal gwasanaeth y Gair. Eu thema oedd 'Y flwyddyn newydd', a dechreuwyd y gwasanaeth gyda Nia, Elain ac Ellie yn cyfarch y gynulleidfâ drwy ganu Blwyddyn Newydd Dda gan ein hatgoffa am draddodiadau casglu calennig.

Gwnaethom dreulio peth amser yn gwneud addunedau er gwell ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ysgrifennodd pawb addunedau ar garden a gwnaethom eu rhoi ar fwrdd yn yr Eglwys i bawb eu gweld. Ar ôl hyn, gwnaeth Jean ein hatgoffa am arferion Calan 'slawer dydd a sôn am ei hatgofion plentynod, am Galan Hen a'r Fari Lwyd. Cawsom ein diddanu

gan bresenoldeb y Fari Lwyd a oedd yn cael ei chario gan Eurwyn gyda'r plant a Susan yn canu penillion am y Fari Lwyd a Jean yn ateb gyda'i phenillion ei hunan. Gwnaeth Vicky wedyn roi arddangosfa goginio gyda rysâit am Flwyddyn Newydd Dda. Gorffennodd y gwasanaeth gyda Jean yn gweddio a gwnaeth y Ficer roi'r diolchiadau a'r fendith.

Cofiw'n am bawb sydd yn anhwylyd gartref neu yn yr ysbyty; rydych i gyd yn ein gweddïau.

90 oed

Dathlodd George Evans, 19 Heol-y-Gaer ei ben-blwydd yn naw deg oed ar y 27ain o Ionawr. Gobeithio ei fod wedi cael diwrnod wrth ei fodd.

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Alison a Dean Reader sydd yn byw yn Thatcham ar enedigaeth merch fach yn ystod mis Rhagfyr – Siân Carina, wyres fach i Mair Thomas, Tawelan.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Cerys, Hafan-Cletwr, Talgarreg [gynt o Gorlan] am lwyddo yn ei doethuriaeth ym maes Daearyddiaeth o Brifysgol Aberystwyth. Da iawn, Dr Jones!

Bu Cerys hefyd yn llwyddiannus wrth gwblhau cymhwyster addysgu mewn addysg uwch yn yr haf. Pob hwyl i ti yn dy swydd fel darlithydd Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Côr Lleisiau'r Werin

Nos Sul y 9fed o Ragfyr, cynhaliodd y Côr ein Cyngerdd Nadoligaidd blynnyddol yn Eglwys Sant Pedr Llanybydder. Roedd llond yr Eglwys o bobol ac fe'u croesawyd i'r cyngerdd gan Kay a eglurodd bod yr arian a godwyd yn mynd tuag at Ysbyty Llandochau, Caerdydd, gan fod Cynthia Butcher, gynt o Heol y Gaer, merch Eurwyn a Irene, wedi cael triniaeth arbennig yno wrth iddi ymladd yn erbyn cancr. Gwnaeth y côr ganu amrywiaeth o ganeuon Nadoligaidd yn y cyngerdd a gwnaeth y gynulleidfâ ymuno i ganu carolau.

Diolch i Sioned, Delor, Arwel, Hedydd, Menna ac Angharad am ddarllen barddoniaeth a darlenniadau'r Nadolig.

Gwnaeth plant Ysgol Sul yr Eglwys ac Ysgol Sul Capel Rhydybont berfformio caneuon y Nadolig i ni ac roedd y gynulleidfâ wedi mwynhau hynny yn fawr iawn. Diolch i chi blant am gymryd rhan. Diolch i'r Ficer ac i aelodau Eglwys Llanybydder am adael i ni gynnal ein cyngerdd yn yr Eglwys ac am eu cymorth ar y noson. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r cyngerdd gan ein helpu ni i godi dros £600 tuag at yr achos arbennig yma.

Nos Sul, 16eg o Ragfyr, roedd y côr yn canu mewn Cymanfa yn Eglwys Dihewyd. Diolch i Ficer Eileen ac aelodau'r Eglwys am ein gwahodd ni, am y croeso, ac am y wledd o fwyd a dderbyniodd y côr ar ôl y cyngerdd!

Ar ôl gwyliau'r Nadolig, daeth y côr yn ôl at ei gilydd nos Iau, 10fed o Ionawr i ddechrau paratoi ar gyfer Cyngerdd Sefydliad Prydeinig y Galon yn Llambad a chyngherdd ar gyfer Merched y Wawr yn Llanrhystud, y ddau yn mis Chwefror.

Wrth i ni ddod at ein gilydd yn yr ymarfer yma, trist oedd clywed fod Nans a Mair wedi colli eu mam yn ystod y gwyliau. Derbyniwch ein cydymdeimlad ni fel côr. Hefyd trist oedd clywed fod Sulwen wedi colli ei brawd yng nghyfraith, Jack, a bod Ann wedi colli perthynas iddi yng Nghaerfyrddin. Rhoddodd Kay gydymdeimlad iddynt ar ran y côr.

Diolch i aelodau'r côr am weithio mor galed ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer y cyngherddau.



Mair Evans o Diabetes UK Cymru, Lucy Jones Ymchwil Cancr UK, a Dave Smith o Sefydliad Prydeinig y Galon yn derbyn sicciau am £1,340 yr un o law Jack Jenkins tuag at y tair elusen. Derbyniwyd yr arian hwn er cof am Ian Thomas Pontsian a Lena Williams, Llanybydder ynghyd ag elw tair gyrfa chwist a gynhaliwyd yn ystod Gaef 2011/2012 wedi eu trefnu gan Jack (ail o'r chwist).

Llangybi a Betws

Hamdden

Cyfarfu'r aelodau ar Rhagfyr 7fed yn Ysgol Y Dderi gyda'r Is-Lywydd Dilys Godfrey wrth y llyw. Oherwydd profedigaeth, methodd y person nodedig a oedd i fod i ddod i arddangos ei chreffft fod yn bresennol. Camodd Jennifer Carris i'r adwy gan esbonio y gwahanol ffynonellau sydd ar gael wrth archwilio achau teuluol. Diolchwyd iddi am yr holl wybodaeth a'r ymchwil roedd wedi ei gyflawni gan Maisie Morgan. Enillwyd y raffl gan Dilys Godfrey; Maisie Morgan; Alan Jones; Glenys Lloyd; Gwenda Thomas; Yvonne Thomas a Ceinwen Jones.

Ar Ionawr 4ydd dathlwyd y flwyddyn newydd drwy gael cinio bendigedig yn yr Hedyn Mwstard. Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan y Llywydd, Janet Farrow ac fe ddymunwyd blwyddyn newydd dda iddynt. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch am y wledd flasus a'r croeso gan Joyce Harris.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â theulu Cilgwyn Uchaf yn eu profedigaeth ar ôl huno Mr Gwynfor Evans, ac â'r holl gysylltiadau teuluol eraill a'r ffrindiau lawer.

Merched y Wawr Y Dderi

Cawsom ein Cinio Nadolig eleni yn yr Hedyn Mwstard ac yno y cawsom groeso cynnes a gwledd fendigedig. Pawb wedi mwynhau y lluniaeth blasus a'r cwmni difyr. Cyhoeddwyd y fendith gan Deborah Jones, ac yna bu cyfnewid anrhegion yn lle'r raffl arferol.

Cafwyd noson ragorol ar Ionawr 16eg yn Ysgol Y Dderi yng nghwmni y Bon. Michael Morgan mewn cyfarfod agored. Croesawodd y llywydd Gwyneth Jones bawb yn gynnes iawn i'r cyfarfod gan ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb.

Rhoddwyd teyrnged i'r diweddar Lettie Vaughan – un a fu yn weithgar iawn dros y mudiad am flynyddoedd maith ac yn ffrind da i lawer.

Sôn y bu y gŵr gwadd am ei flynyddoedd yn y diwydiant llaeth gan ganolbwyntio ar ei amser yn Ffatri Felinfach a Llangadog. Gwelwyd sleidiau o'r llefydd yma a Phont Llanio. Talwyd pleidlais gynnes o ddiolch iddo gan Mary Jones drwy ddatgan diolch pawb am noson addysgiadol, hanesyddol a dymunol iawn. Rhoddwyd y raffl gan Gwyneth Evans, Gwyneth Jones a Mair Spate. Enillwyd gan Rhithwyn Evans, Deborah Jones a Michael Morgan. I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoddi gan Deborah Jones a Gwyneth Jones.

Yn y cyfarfod nesaf rydym yn disgwyl y Bon. Dafydd Morgan i sôn am ei hanes wrth droed Everest.

Ysgol Y Dderi

Yn ôl yr arfer, cawsom ddiwedd prysur i dymor y Nadolig yn yr ysgol, gyda chyngerdd, cinio 'Dolig blasus ac ymweliad gan Siôn Corn i goroni'r cyfan. Mae hyn i gyd yn teimlo fel oes yn ôl erbyn hyn wrth gwrs, â'r tymor newydd yn prysuro yn ei flaen!

Croesawyd dau aelod newydd o staff atom ar gychwyn Ionawr - Mrs Fiona Davies a Mr Owen Daniel. Croeso hefyd i Sam, Albie a Lili sydd newydd gychwyn yn y dosbarth Meithrin. Gobeithio byddant i gyd yn hapus iawn gyda ni wrth iddynt ymgartrefu ym mywyd yr ysgol.

Ar Ddydd Sadwrn, y 26ain o Ionawr, bu Tirion Lloyd o flwyddyn 4 yn cystadlu yng ngala nofio cenedlaethol yr Urdd, yng Nghaerdydd. Fe wnaeth hi yn gampus wrth iddi gynrychioli Ceredigion yn y ras nofio rhydd, gan orffen yn bumed yn ei rhag-ras. Tirion yw'r disgybl cyntaf erioed o Ysgol y Dderi i gynrychioli'r sir ar lefel mor uchel mewn cystadleuaeth nofio. Da iawn wir!

Fel rhan o'u gwaith thema ar Begwn y Gogledd, mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi bod wrthi'n brysuro yn adeiladu iglw allan o gartonau llaeth gwag. Roedd pob un yn frwdfrydig iawn wrth greu'r campwaith, ac fel mae'n digwydd, roedd y dasg wedi ei hamseru'n berffaith er mwyn cyd-fynd â'r tywydd gaeafol a gawsom yn ddiweddar hefyd!

Cafodd pob dosbarth dipyn o hwyl wrth gymryd rhan yng ngweithgaredd gwyllo adar yr RSPB yn ystod mis Ionawr. Mae'r "Big Schools' Birdwatch" yn gyfle i'r disgyblion ddysgu am adar a'r amgylchfyd sy'n eu denu, tra'n cadw cofnod o'r adar a welwyd yn ystod amser penodol, a chyfrannu at y cyfrif cenedlaethol sy'n digwydd fel rhan bwysig o'r weithgaredd hon. Gwahoddwyd yr arbenigwr natur, Iolo Williams, i'r ysgol hefyd ac fe gawsom gyfle i'w holi am ei deithiau diddorol wrth iddo rannu ei arbenigedd a'i brofiadau gyda ni. Yn ogystal â hyn, bu plant blynyddoedd 3 a 4 yn mwynhau adeiladu blychau adar i'w gosod o gwmpas yr ysgol – diolch yn fawr i Mr Kelly Cutler am ei gymorth a'i arweiniad, ac i Fferm Denmark am drefnu.



LLYFRAU LLAFAR CYMRU

www.llyfrauallafarcymru.org



DYMA WASANAETH GWIRFODDOL
SY'N RHOI CYFLE I DDEILLION
A'R RHAI SY'N CAEL TRAFFERTH I
DDARLLEN PRINT GLYWED LLYFRAU
CYMRAEG A SAESNEG AM GYMRU
AR CD NEU GASET.

Mae na gannoedd a allai fod yn yn
mwynhau ein "llyfrau", "cylchgronau" a
"phapurau bro".

Os gwyddoch am unrhyw un - ffoniwch
01267 238225

Siarad Cyfrolau
Noddwyd yr hysbyseb hon gan
Gronfa Ray Gravel



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

YSWIRIANT FUW

Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai



Arbenigedd lleol
Polisiau at bopeth
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361

neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa Yswiriant FUW,
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu'n rhesur gan
Awdurdod y Gwasanaethau Aelodol, yng nghyngor-ddistri cyffwrdd yswiriant,
o dan Rheil Cofrestru 308935

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

☎01570 423135

☎07811917799 /

07968821035

✉ mwnciffwnci@hotmail.com

Gwersi Piano

gan athrawes brofiadol



Cysyllter ag

Ann Bowen Morgan

01570 422413

Cefn Hafo
Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener

£6 y pen

Cwis - nos Iau cyntaf bob mis

[bwyd yn rhan o'r noson]

Croeso cynnes i bawb!



Dan ac Irene Jones, Heol y Bryn,
Llambod yn dathlu eu priodas
ddiemwnt ar y 13eg o Ragfyr 2012.

Llanllwni

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i David James, Coedmore ar gyrraedd 90 oed ar y 6ed o Chwefror. Pob lwc a iechyd i'r dyfodol.

Undeb y Mamau Llanllwni

I'n diddori ym mis Rhagfyr daeth Mrs. Angela Skyme o Landdarog â'i chasgliad o hetiau. Roeddem wedi ein syfrdanu wrth ei gweld yn cario'r holl focsys i'r neuadd, ond buan y daethom i ddeall bod tipyn o drefn i'w gael ar ei chasgliad. Pleser pur oedd gwrandio arni yn olrhain hanes yr hetiau, ac fe ddysgon lawer am fywyd ein cyndeidiau y prynhawn hwnnw. Diolch, Angela, am yr hwyl a'r disgrifiadau lliwgar!

Ym mis Ionawr roedd y Ficer yn ddigon caredig i drefnu cwis ar frybudd. Cafwyd digon o hwyl a thynnu coes.

Eglwys Sant Luc

Yn ôl yr arfer mae dechrau'r flwyddyn yn go brysus i aelodau'r Eglwys. Cynhaliwyd y Blygain eleni yn Eglwys Cwmann ac roedd parti o Sant Luc yn cymryd rhan. Roedd hon yn noson hyfryd a chymdeithasol. Ar y 12ed roedd Gŵyl Calan Hen Llandysul ac fe aeth parti lluosog o blant ac oedolion o Eglwys Llanllwni ymlaen i adrodd y pwnc a chanu emyn. Roedd hi'n fendithiol gweld plant yr Ysgolion Sul yn cymryd rhan ac yn sicrhau parhad yr Ŵyl hynafol, bwysig hon. Fe'n holwyd eleni gan Beth Davies ac roedd Ficer Susie Bale hithau yn gwneud ei rhan drwy holi.

Bu drama'r geni yn yr Eglwys ym mis Rhagfyr a'r plant yn mwynhau gwneud eu rhannau, a hynny gyda graen.

Diolch arbennig i Janet, Bethan a'r mamau am hyfforddi'r plant a'u cludo i Ŵyl Calan Hen.

Ysgol Llanllwni

Croeso i efeilliaid, sef Eirwen ac Emrys Evans i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Maent wedi setlo'n dda ac yn hapus ymhlith eu ffrindiau newydd.

Llongyfarchiadau i'r brifathrawes, Mrs Nans Davies am ddod yn fam-gu.

Codwyd swm o £535.02 tuag at Ambiwylans Awyr Cymru pan wnaethom ein taith gerdded a beicio nodedig y tymor diwethaf. Diolch i bawb am noddi a chynorthwyo.

Casglwyd £207.40 at Adran yr Urdd yn yr ysgol wrth ganu carolau o gwmpas y pentref cyn y Nadolig. Diolch i'r pentrefwyr ac i John ac Ann am y croeso gawsom yn Talardd ar ôl gorffen.

Derbyniwyd £190 gan y cynllun Bag2School. Diolch i bawb a gyfrannodd ddillad.



Daeth Mr Edward Downer, sy'n byw ger yr ysgol, i siarad â'r plant hŷn am ei hanes fel ifaciwi. Roedd y plant wedi paratoi cwestiynau i'w holi ac roedd yn ddiddorol gwrandio ar ei storïau. Diolch i chi Mr Downer am eich parodwydd i rannu eich profiadau â ni.

Mae cyn-ddisgybl, sef Maria Evans wedi bod yn ein helpu i ddatblygu'r ardal tu fas. Mae Maria yn gweithio gyda'r 'Forest School Learning Initiative'. Cyn y Nadolig buodd yn gweithio gyda'r Adran Iau yn sylwi ar goed, pridd ac ati. Y tymor yma mae'n gweithio gyda'r Cyfnod Sylfaen gan ddatblygu'r ardd a gwneud gweithgareddau diddorol eraill.

Aethom am drip addysgiadol i archfarchnad Co-op Llambled lle cawsom ein tywys o gwmpas y siop a chael mynediad i'r tu ôl a lan llofft. Roedd yn ymweliad diddorol ac fe fwynhaodd pawb flasu'r bwyd a gawsom a dysgu llawer am y bwyd a brynwyd.

Aethom am drip hanes i Amgueddfa Abergwili a Fferm Alltyfyrdin ger Caerfyrddin. Yn yr amgueddfa bu'r Adran Iau yn gweld arteffactau yr Ail Ryfel Byd tra bu'r Cyfnod Sylfaen yn gweld hen bethau yn ymwneud â bwyd. Ar y fferm buom yn gweld yr anifeiliaid a dysgu am hanes ffermio 'slawer dydd.

Ymwelodd adran y Cyfnod Sylfaen â Phentre Bach lle buont yn siarad â Santa a chael anrhegion ganddo. Cafwyd bore hwylus yn crwydro o gwmpas y tai cyn dod nôl i'r ysgol.

Dymunwn ddiolch yn fawr iawn i Gyngor Bro Llanllwni am ei rodd hael o £1050.00 i'r ysgol er mwyn i ni gael prynu tri chyfrifiadur newydd i ddosbarth yr Adran Iau. Diolch hefyd i gwmni Statkraft am ei rodd o £520 gogyfer â phrynu cypyrddau newydd i'r dosbarthiadau.

Cafodd y Swyddfa Bost raffl yn ystod y Nadolig a rhoddwyd £45.50 o'r elw i'r ysgol. Diolch yn fawr iawn.

Yn sesiynau'r Urdd rydyn ni wedi cael noson 'Peidiwch Chwerthin', 'Siôn a Sian' a chanu carolau. Bu Steffan Evans a Ceris Howells yn cystadlu yng ngala nofio yr Urdd yn Aberystwyth. Da iawn chi'ch

dau.

Mae'r ysgol wedi derbyn Tystysgrif Arian Ysgol Eco yn ddiweddar am ymdrechion i weithio tuag at ffordd gynaliadwy o fyw.

Rydym fel ysgol yn cydymdeimlo â'r Brifathrawes, Mrs Nans Davies, ar golli ei mam dros wyliau'r Nadolig. Cydymdeimlad hefyd â'r Ficer Suzy Bale ar ei cholled hithau o golli ei thad rhai wythnosau ynghynt a diolch i chi Suzy am eich gwasanaethau diddorol bob bore Mercher. Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am y misoedd canlynol:-

Mis Tachwedd:

£10.00 – 124 – Nick Lloyd, 3 Bryndulais, Llanllwni. £5.00 – 199 – John Jones, Talardd, Llanllwni. £2.50 – 144 – Alan Townsend, Clynrised Fach, Llanllwni. £2.50 – 22 – Roger Page, 29 Bryndulais, Llanllwni. £2.50 – 5 – Carys Thomas, Caeglas, Llanllwni.

Mis Rhagfyr:

£50.00 – 146 – W.J.Burki, Picim, New Inn. £40.00 – 211 – Donna Jones, 7 Bro Nantlais, Gwyddgrug. £30.00 – 41 – Daniel Thomas, Y Bryn, Llanllwni. £10.00 – 168 – Y Ficerdy, Llanllwni. £5.00 – 11 – Meryl Rowlands, Glasfryn, New Inn. £2.50 – 226 – Marged Ann Smith, Ty Cefn, 6 Dan y Dderwen, Rhydargaeau. £2.50 – 90 – Owain Evans, 10 Bryndulais, Llanllwni. £2.50 – 190 – Arwel Rees, Garej Llys-y-Wawr, Llanllwni. £2.50 – 14 – Siriol Howells, Pantglas, New Inn.

Mis Ionawr:

£10.00 – 59 – Anwen Lloyd Thomas, Llanllwni. £5.00 – 76 – Nans Davies, Bryndolau. £2.50 – 17 – Alun Davies, Tawelfan, Bwlchgyroes, Llandysul. £2.50 – 13 – Sioned Howells, Pantglas, New Inn. £2.50 – 160 – Siôn Davies, Manordeifi, Llanllwni.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAI,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164
07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,


Wel mae 2013 wedi cyrraedd o'r diwedd ac fe hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd! Wel sut ydych chi ers tro byd? Dydw i ddim wedi siarad gyda chi ers y llynedd! Y cwestiwn holl bwysig wrth gwrs yw a fuodd Siôn Corn i'ch gweld chi? Rwy'n siŵr ei fod e', gan eich bod chi gyd bob amser yn blant arbennig o dda. Wel blant a fuoch chi allan yn yr eira ar ddechrau'r flwyddyn? Mi wnes i fwynhau mas draw yn sledjo gyda fy ffrindiau. Fuoch chi'n sledjo?

Wel llongyfarchiadau i bawb yn enwedig i Elliw Davies, Luke Paul, Guto Richards, Liam Evans, Cai Jones a Dafydd ap Elwyn Davies am luniau lliwgar a thaclus. Ond yn ennill y wobr y mis hwn mae Ceri Haf Jones o Ysgol Gynradd Aberbanc, Llandysul. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch chi, a chofiwch bod cyfle i chi gystadlu mis yma eto. Pob lwc.



Enillydd
y mis!

Ceri
Haf
Jones



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne



Cae clyn meddyg; Clynrhicked; Cae posset

Enwau ffermydd a chaeau ym mhlwyf Llanllwni sydd wedi eu cofnodi yn Llyfr Degwm Plwyf Llanllwni (1841) a fydd yn cael y sylw pennaf y tro hwn.

Cae clyn meddyg, Gelli, Llanllwni

Ystyr 'clyn' yw dôl, gwaun neu brysglwyn. Mae'n air sydd wedi ei fenthycu o'r Wyddeleg ac yn digwydd yn reit gyffredin fel elfen mewn enwau lleoedd yn ne Cymru. Gwelir tuedd weithiau i'w gymysgu â 'glyn'. Mae 'clyn' yn ffurf amrywiol ar yr un enw.

Ceir Clunderwen ar y ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro; mae Clunwalis ger Gwernogle yn Sir Gaerfyrddin a Clun-gwyn ger Cribyn yng Ngheredigion.

Mae'r elfen 'clyn' yn digwydd mewn sawl enw lle ym mhlwyf Llanllwni: Clyn-coch, Clynmelyn - lle y mae melyn a coch, mae'n siŵr, yn adlewyrchu lliw'r llystyfiant. Yn Clyn-iar mae'r ail elfen yn cyfeirio at Afon Giâr.

Enw person a goffeir yw Clynrhicked, Llanllwni. Ceir amryw enwau sy'n cynnwys naill ai'r elfen 'rhiced' neu amrywiad arno yn Sir Gaerfyrddin: mae Llwynrhicet ym Myddfai; Pant Ricket yng Nghaeo; Cefnrhickett yn Llanymddyfri; Melin Ricket yn Aber-nant; Nant Ricet ym Metws; Allt y Ricet yn Llansteffan. Amrywiadau ar yr enw personol Richard yw'r gwahanol ffurfiau hyn. Mae Llyfr Degwm Llanllwni yn nodi 'Cae ffynnon Richard' [430] yn enw ar un o gaeau fferm Dolauduon ym Maesycrugiau, ond byddai'n rhy fentrus, ar hyn o bryd, i geisio cysylltu enw'r ffynnon ar dir Dolauduon neu enw'r fferm, Clynrhicket, â pherson penodol o gig a gwaed.

Mewn un achos yn Sir Benfro mae'r sefyllfa ryw gymaint yn wahanol. Yno ceir Tre Reikert a'r enw hwnnw'n amrywio â Tref Richard, Tref Rickard a Tre Rickart Hwd. Hanai teulu Hwd neu Hood, o Ddyfnaint ac roeddent wedi ymsefydlu yn ardal Cemaes, Sir Benfro erbyn y 14 ganrif.

'Meddyg' yw'r elfen nesaf ac unwaith eto mae'n enw sy'n digwydd yn gyffredin fel elfen mewn enwau lleoedd yn Nyffryn Teifi. Mae'n air sydd wedi'i fenthycu o'r Lladin 'medicus'. Ceir Pant y Meddyg (1666) a Bryn Meddyg (1843) yn Llanwenog yng Ngheredigion. Yn Sir Gaerfyrddin ceir Beili Meddyg (1599/1600), Bryn Meddyg a Pont Bryn Meddyg ym Mhencarreg.

Fel y gellid disgwyl o wybod am hanes Rhiwallon a'i feibion, ceir amryw byd o enghreifftiau yn ardal Myddfai: Carn Pant Meddygon, Cwm Meddygon, Tir y Meddygon (1631). Rhaid ystyried bod rhai o'r enghreifftiau uchod, o bosibl, yn cyfeirio at apothecari a ddatblygodd ei grefft a'i ddawn ym maes meddygaeth.

Prin yw'r enghreifftiau o'r elfen 'doctor' y gwn i amdanynt mewn enwau lleoedd yng ngorllewin Cymru. Ceir Gwaun y Doctor (1724) yn Llandeilo Fawr, Sir Gaerfyrddin a Parc y Doctor (1665) yn Llandudoch, Sir Benfro. Mae'n ddigon posibl, wrth gwrs, mai meddygon a goffeir yn yr enwau hyn hefyd, ond gallai'r elfen 'doctor' gyfeirio at rywun a chanddo radd doethur yn enwedig yn y gyfraith neu mewn diwinyddiaeth.

Cae posset, Pantlaethdy, Llanllwni

Diod yw 'poset' sef llaeth neu laeth enwyn poeth wedi ei geulo â chwrw neu win; byddai perlysiâu yn cael eu hychwanegu ato i gynhyrchu diod gawslyd ei natur. Byddai poset yn cael ei roi i gleifion er mwyn eu cryfhau. Mae 'poset' a 'posed' yn ffurfiau sy'n amrywio â 'poset'. Ceir Coetgae Poset ym Medwas, Sir Fynwy. Anodd dychmygu pam y mae 'poset' wedi ei roi yn enw ar gae, oni bai bod rhai o gynhwysion y ddiod yn cael eu casglu yno.

Oriel y mis



Roy a Mair Thomas a'r teulu, Dyfed Stores, Llanybydder yn torri cacen i ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu'r fusnes yn 1962. Croesawyd cwsmeriaid hen a newydd i ymuno yn y dathlu.



Aelodau Capel Mair a Phwyllgor Neuadd Llanfair Clydogau wedi codi £580.61 wrth ganu carolau o gwmpas y pentref a'r ardal a chynnal Gwasanaeth Carolau yn y capel. Cyflwynwyd siec am £580.61 yn y Neuadd gan Dai Jones, Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd, i Ros Jones ar ran Ambiwlans Awyr Cymru.



Yng nghystadleuaeth pêl-droed sirol yr Urdd daeth tîm Adran Llambled yn gyntaf dan gyfarwyddyd Mr John. Pob lwc ar lefel Cymru ym mis Mai.



Tirion Lloyd, Ysgol y Dderi yn cystadlu yng ngala nofio cenedlaethol yr Urdd, yng Nghaerdydd. Fe wnaeth hi yn gampus wrth iddi gynrychioli Ceredigion yn y ras nofio rhydd, gan orffen yn bumed yn ei rhag-ras.



Ddiwrnod Plant Mewn Angen eleni bu disgyblion ac athrawon Ysgol Bro Pedr, Llambled ar eu taith gerdded nodedig a chodwyd £2,000. Yn y llun gwelir D Charles, Dirprwy Bennaeth, Dafydd Williams, Dirprwy Brif Fachgen a Cari Lake, Prif Ferch yn cyflwyno'r siec i Goronwy a Beti Evans ar ran Plant Mewn Angen.



Ychydig cyn y gwyliau cyflwynodd Vaughan Evans, Prif Fachgen a Cari Lake, Prif Ferch siec am £3,349.72, sef tua hanner y swm a godwyd ar daith nodedig a gwisg ffansi adeg Plant mewn Angen i Phil Thomas o Tŷ Hafan. Hefyd yn y llun mae David Williams, Pennaeth.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aillfeddiannu am eich cartref.

Hwyl yn yr eira yng Nghymru ac yn Awstria....



Plant Ysgol Llanwnnen
gyda'u dynion eira.



Eglwys Sant Iago
Cwmann dan flanced
o eira.

Mari a Jac o Gwmsychpant a'i dyn eira.



Trystan, Megan a Mari yn slejo yng
Nghwmann.



Carys a Steffan yn mwynhau yn yr
eira ar fferm Rhydowen, Pencarreg



Llanbed yn yr eira



Llun llyn Pencarreg gan Ann Davies



Rhai o ddisgyblion Ysgol Bro Pedr yn sgïo yn Awstria.



Dyma lun o blant Carreg Hirfaen
yn mwynhau yn yr eira.



Llanbed yn yr eira



Adran Addysg Gorfforol Ysgol Bro Pedr aeth i sgïo yn Saalbach yn Awstria ar ddechrau mis Ionawr. Cafwyd digonedd o eira a thaith yn llawn hwyl.